# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 21AIN MAWRTH, 2019**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN YSTAFELL GWYRFAI AM 10.00 Y.B.**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 14/3/19)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands
Cemlyn Rees Williams

Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson
[Sedd Wag]

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts

Elwyn Jones
Dewi Wyn Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Gareth Williams

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| Anest Gray Frazer | Eglwys yng Nghymru |
| [sedd wag] | Yr Eglwys Gatholig |
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Dwyfor |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| David Healey | ATL |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 6 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. YMGYNGHORIAD AR Y COD DRAFFT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R RHEOLIADAU ARFAETHEDIG** 10 - 21

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*10.30yb – 11.15yb

**6. SWYDDFEYDD ADDYSG ARDAL - PROSIECTAU LLEIHAU BAICH** 22 - 30

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*11.15yb – 12.00yp

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2017-18** 31 - 56

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*12.00yp – 12.30yp

TORIAD I GINIO – 12.30yp – 1.30yp

**8. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU -** 57 - 126

**DIWEDDARIAD CYNNYDD**

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*1.30yp – 2.30yp

## 9. EFFAITH DIGWYDDIADAU YNG NGWYNEDD 127 - 132

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*2.30yp – 3.00yp

*amcangyfrif o'r amseroedd

Cynhelir sesiwn anffurfiol ar gyfer yr aelodau ar derfyn y cyfarfod.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
# 24/1/19

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Elfed Roberts, Mair Rowlands, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

**Aelodau Cyfetholedig**: Dilwyn Elis Hughes (UCAC) a David Healey (ATL)

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Paul Matthews-Jones (Arweinydd Craidd – Uwchradd - GwE)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant)
Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Robin Evans (Rheolwr Prosiect)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Judith Humphreys, Keith Jones a Dewi Owen
Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn Eitem 7 – Canolfannau Byw'n Iach:-

- Y Cadeirydd, y Cynghorydd Beth Lawton oherwydd ei bod yn Gyfarwyddwr y Cwmni Byw'n Iach. 'Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ymneilltuodd o'r gadair a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.
- Y Cynghorydd Cemlyn Williams, oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr y Cwmni Byw'n Iach. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3 MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2018 fel rhai cywir.

**5. CANLYNIADAU TERFYNOL HAF 2018**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar ganlyniadau terfynol haf 2018.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y brif drafodaeth ar y mater hwn wedi digwydd ym mis Medi'r llynedd pan gyflwynwyd y data craidd i'r pwyllgor hwn, a dim ond mân sylwadau a godwyd yn y cyfarfod hwn.
- O ran y Cyfnod Sylfaen, mae yna ddealltwriaeth bod newid wedi bod yn sail yr asesu a bod GwE yn cyd-weithio gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau asesu o safon a sicrhau cefnogaeth i hynny.
- O ran Cyfnod Allweddol 5, er y derbyniwyd esboniad o'r data a'r hyn sy'n digwydd yng Ngwynedd a pha gefnogaeth sydd ar gael, mynegir peth siom a phryder nad yw'r data'n gyhoeddus ac mae angen sicrhau sut y gall aelodau gynorthwyo ysgolion yn eu rôl fel llywodraethwyr i sicrhau bod cefnogaeth benodol ar gyfer pynciau penodol, fel bo'r angen.
- O ran y newid yn lefel trothwy graddau TGAU Saesneg, mae'r pwyllgor yn parhau i roi cefnogaeth i'r Aelod Cabinet a'r adran i frwydro o ran y newid sydd wedi bod yn y ffin ac yn datgan eu siomedigaeth na chafwyd datrysiad i hyn hyd yma, yn arbennig ar gyfer yr unigolion hynny na lwyddodd efallai i gael y graddau C a B disgwyliedig y llynedd. Hefyd, dymuna'r pwyllgor roi neges glir bod angen sicrhau na fydd disgyblion eleni yn dioddef yn yr un ffordd mewn unrhyw bwnc.

**6. AILSTRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn ceisio barn yr aelodau ar yr opsiynau ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith yn sgil diffyg yn y gyllideb o 2019/20 ymlaen, ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y pwyllgor yn ddiolchgar am y diweddariad o'r hyn sydd wedi digwydd gyda'r ymgynghoriad mewnol a bod yna werthfawrogiad clir o'r gwaith a wneir gan y canolfannau iaith a'u llwyddiant.

- Nad oes yna neges glir o'r pwyllgor hwn ynglŷn â'r datrysiad i'r diffyg ariannol. Serch hynny, mae yna negeseuon clir i'w cyflwyno i sylw'r adran mewn pedwar maes, sef:-

  - Mae pryder wedi'i gyfleu gan y pwyllgor nad oedd yr un o'r egwyddorion yn cynnwys sicrhau cadw ansawdd y ddarpariaeth i'r dyfodol a bod pwyslais gan y pwyllgor i gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar yr opsiwn ffafredig, ac efallai bod lle hefyd i fesur yr ansawdd ac effaith newid ar y ddarpariaeth o hyn ymlaen.
  - Nodir peth pryder ynglŷn â'r newid posib' yn llwyth gwaith y sawl sy'n gweithio yn y canolfannau iaith, ond nodir hefyd, ar yr un pryd, bod y pryder hwnnw ar draws yr holl ystod o wasanaethau a ddarperir gan yr Adran Addysg ym mhob ysgol a bod y gymhareb disgybl / athro ym mhob dosbarth yn fater sydd angen edrych arno hefyd. Ar yr un pryd, roedd pwyslais ar yr angen i gael 2 athro / athrawes yn yr Uned Uwchradd.
  - Cefnogir parhad y trafodaethau mewn ymgais i ddwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i barhau i roi mwy o arian ar gyfer cefnogi'r Gymraeg o hyn allan.
  - Derbynnir bod y grant yn cael ei dorri ac er y byddai'n well gan bawb petai hynny ddim yn bod, mae'r pwyllgor yn annog yr adran i edrych ar unrhyw ffynonellau eraill posib', boed hyn yn arian grant ychwanegol neu ba ffynhonnell bynnag. Er hynny, derbynnir yn llwyr fod yr ysgolion wedi cymryd toriadau sylweddol a pharhaus dros amser bellach, ac er yn opsiwn, nid oedd y pwyllgor yn dymuno edrych ar yr ysgolion i gyllido hyn. Yn ogystal, fe godwyd y risg ynglŷn â'r posibilrwydd o beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol gan fod GwE yn edrych ar y grant yma ymhellach.

## 7. CANOLFANNAU BYW'N IACH

Cadeiriwyd yr eitem hon gan yr Is-gadeirydd oherwydd buddiant y Cadeirydd yn y mater.

Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn diweddaru'r pwyllgor craffu o'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn yr achos fusnes cymeradwy ar gyfer trosglwyddo'r canolfannau byw'n iach i gwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor ac yn cynnig amlinelliad o'r trefniadau sydd mewn lle i gyfarch y sylwadau a wnaethpwyd gan y pwyllgor hwn yn ôl yn ei gyfarfod ar 26 Medi, 2017.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd yr Is-gadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod gwell dealltwriaeth o'r datblygiadau yn dilyn yr eitem hon i'r pwyllgor, yn arbennig o ran y cytundeb, y berthynas gyda'r Cyngor, y trefniadau llywodraethu a'r ochr ariannol hefyd.
- Cafwyd atebion i nifer o gwestiynau ar faterion penodol mewn perthynas â sefyllfa llyfrgelloedd, ysgolion, grantiau, ayb.
- Ymatebwyd hefyd i'r materion a godwyd ym Medi 2017 ac nid oedd gan y pwyllgor unrhyw sylwadau penodol pellach i'w gwneud.
- Bod y pwyllgor o'r farn y dylid llunio cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r camau sydd ar droed.
- Rhaid cael sicrwydd y bydd y gofynion o ran yr iaith Gymraeg yn rhan o'r cytundeb ac y bydd hynny'n cael ei graffu gan y pwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.40yp.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Ymgynghori ar y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Rheoliadau Arfaethedig |
| **Dyddiad** | 21.03.19 |
| **Swyddog Perthnasol** | Ffion Edwards Ellis |
| **Aelod Cabinet** | Gareth Thomas |

## Cyd-destun

Daeth y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddeddfwriaeth yn 2017. Ym mis Rhagfyr 2018 fe gyhoeddwyd Cod Drafft, Rheoliadau Tribiwnlys Cymru, a Rheoliadau ar gyfer Cydlynwyr ADY.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y Cod (sydd yn dod i ben ar Fawrth yr 22fed) disgwylir y bydd y Cod yn dod i rym ym Mis Medi 2020, gyda chyfnod trosianol hyd at 2023.

Er y bydd sialensau pendant o ran cyflwyno'r newidiadau mae'r gwaith o fewn Adolygiad Strategol ADY a Ch wedi sicrhau fod yr Awdurdod yn arloesi o ran gweithredu egwyddorion y ddeddfwriaeth.

Mae'r wybodaeth sydd yn dilyn yn crynhoi'r prif egwyddorion, y gwaith cynllunio a'r risgiau i'r awdurdod.

## Prif Egwyddorion

**Cynllun Datblygu Unigol –** yr un ffurf ar draws lefelau angen, i'w adolygu **o fewn 12** mis neu yng nghynt os oes angen.

Yn Seileidig ar **hawliau unigolyn**; **adnabod** a **darparu** ar gyfer ADY **yn fuan**, **cydweithio** agos rhwng bawb sy'n ymwneud, **ymgynnwys unigolion** yn llawn, darpariaeth **dwyieithiog** ar gael, **lleihau anghydfod**.

Ymestyn yr oedran o **0-25.**

**Cyflymu'r Broses**: 6 wythnos i greu CDU yn cychwyn pan fo'r ADY wedi ei adnabod; **12 wythnos i Awdurdod wneud penderfyniad** ynglyn a cynnwys CDU mewn achosion arferol. Mae'n rhaid i **Seicolegydd Addysgol** ymwneud ymhob achos.

Dyletswydd i ffafrio **Addysg Priflif** ac i gynnwys disgyblion gyda ADY ymhob agwedd o weithgareddau'r Ysgol

Rhaid i'r Corff GIG ddarparu unrhyw **wasanaeth/triniaeth** sydd ar gael yn **arferol** yn ymwneud a'r ADY.

| Ni ddylid darparu **yn uwch** na beth sydd ei **angen**.<br><br>**Diffiniad PMG yn fwy cul** na'r hyn sydd yn ei ddefnyddio yn y Ddeddf Llesiant (2015) (gweler 1.24)<br><br>Cynyddu darpariaeth **datrys anghydfod, ac** ymestyn **hawl Tribiwnlys.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pennod | **Gwybodaeth allweddol** | **Cyd destun Lleol** | **Risgiau/Cynnydd Cost** | **Gweithredu** |
| **2 Prif Egwyddorion** | - Dull Seiliedig **ar hawl**<br>- **Adnabod** unrhyw ADY, **darparu**, a **trsoglwyddo** yn **gynnar**<br>- **Cydweithio**<br>- **Ymgynnwys**<br>- Darpariaeth **Dwyieithog**<br>- **Eiriolaeth**<br>**2.2** | Cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn<br><br>Cysylltiadau amlasiantaethol<br><br>Llawer o waith paratoi wedi bod wrth gynllunio gwasanaeth ADY a CH Gwynedd a Mon | Darparu Gwasanaeth Eiriolaeth annibynnol yn debygol o fod ar gost uwch na'r ddarpariaeth bresennol. | Parhau i ddatblygu'r ac ymgorffori'r egwyddorion |
| **3 Cynnwys a chefnogi Plant, Gofalwyr a Pobl Ifanc** | Y plentyn, a'r teulu yng nghanol pob proses (3.5, 3.10) – **Cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn**<br><br>**Caniatad** – hawl unigolyn i wrthod CDU (3.18) | Sicrhau fod prosesau ar gyfer rhoi gwybodaeth, cynnal cyfarfodydd, paratoi o flaen llaw yn cydfynyd gyda anghenion y teulu.<br><br>Cyfathrebu a gwybodaeth addas ar gael | Y dysgwr a'r teulu ddim yn cymryd rhan yn y broses<br><br>Methu darparu oherwydd dim caniatad – angen adnabod ffyrdd eraill o ymateb i angen y dysgwr | - Ystod o ddulliau yn angenrheidiol<br><br>- Gwybodaeth addas ar y wefan<br>- Hyfforddiant addas i Ysgolion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **4 Dyletswydd ALl/GIG i roi sylw Dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl ag Anableddau** | - Sicrhau bod arweinwyr a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY yn ymwybodol o'r hawliau perthnasol<br>- Cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwaith cynllunio strategol<br>- Cynnal asesiadau effaith<br>- Adolygu gwasanaethau ac adnoddau ADY er mwyn adnabod unrhyw rwystrau o ran mynediad plant a phobl ifanc darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag ADY gyfrannu at bolisïau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY (4.17) | Cynllunio<br><br>Hyfforddi | | - Sicrhau fod hyn yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddiant I ysgolion a staff canolog<br>- Cynnwys yr egwyddorion o fewn gweithdrefnau adolygu'r ddarpariaeth. |
| **5 Dyletswydd i Adolygu'r Ddarpariaeth ADY** | **Adolygu rheolaidd a pharhaus** o'n prosesau a'n darpariaethau ar lefel ALl | **Cynnwys** Rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni a dysgwyr, mewn Adolygiad o'r darpariaethau<br><br>Edrych am **arferion da** Adolygu ansawdd y ddarpariaeth mewn Ysgolion | **Darpariaeth annigonol yn arwain at gynnydd mewn anghydfod a Thribiwnlysoedd**<br><br>**Angen sicrhau capasiti I barhau gyda'r gwaith sydd yn digwydd eisioes.**<br><br>Ysgolion ddim yn ymateb i angen | - Rôl bendant i'r Gwasanaeth Ansawdd a Data (5.12)<br>- Angen ymateb trwy addasu darpariaeth pe byddai angen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6 Cyngor a Gwybodaeth** | **Gwybodaeth** ynglŷn â darpariaeth a systemau angen bod ar gael yn **amlffurf** | Gwybodaeth ar gael ar wefan, ffurf papur, mewn mannau cyhoeddus<br><br>Angen gwybodaeth am ddarpariaeth Awdurdod ac Ysgolion sydd yn cynnwys dull mynediad, beth sydd ar gael, sut i apelio os yn anhapus | Gwybodaeth ddim yn cael ei ddiweddaru yn ddigonol | - Gwefan ganolog yn y broses o gael ei datblygu. Angen sicrhau **cefnogaeth weinyddol i gadw'r wybodaeth yn gyfredol.** |
| **7 Diffiniad ADY a DDdY** | Rhannau allweddol (gweler isod)<br><br>**Diffiniad ADY** - 7.3, 7.6<br><br>**Diffiniad DDdY** – 7.9<br><br>Plant **o dan oed statudol** – 7.13, 7.14, 7.16<br><br>**Anghenion Meddygol** - 7.32<br><br>**Pwynt cyfeirio** ymlaen am **gyngor** asiantaethau – 7.47, 7.56 | Anawsterau sydd yn **sylweddol** uwch na chyfoedion<br><br>Nid yw Gwahaniaethu arferol yn ADY, na Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol<br><br>Nid yw cymorth ar gyfer angen meddygol yn DDdY oni bai ei fod yn cyfrannu tuag at y ddarpariaeth DDdY - materion ar gyfer cyflyrau penodol sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth.<br><br>Ysgol yn gwneud y penderfyniad a ddylai'r achos gael ei gyfeirio ymlaen i A.Ll | Meini Prawf aneglur ar gyfer beth ydy 'sylweddol uwch' - diffiniad agored i'w ddadansoddi yn amrywiol<br><br>Lefel gwahaniaethu a thargedu annigonol yn golygu fod nifer uwch yn destun CDU Ysgol, ac yna CDU Awdurdod<br><br>Ysgol ddim yn cyfeirio ymlaen i'r awdurdod neu yn cyfeirio'n ormodol | - Hyfforddiant i staff Ysgolion gan y Gwasanaeth ADY (agweddau hefyd yn rhanbarthol)<br><br>- Sicrhau fod mapiau darpariaeth pob Ysgol yn cyrraedd safon ddisgwyliedig<br><br>- Angen trafod aeth strategol gyda'r DECLO |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **8 Dysgwyr o dan oed Statudol Addysg** | **Pob plentyn** sydd yn cael ei **adnabod gyda ADY** o dan oed Statudol yn CDU **Awdurdod** (8.1)<br><br>Dysgwyr yn cael eu cyfeirio at sylw'r awdurdod gan weithwyr amrywiol (e.e. iechyd), rhieni<br><br>Mae'n Rhaid i **Seicolegydd Addysg** ymwneud (8.9)<br><br>**Ni ddylai rhiant orfod talu** am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol (8.34)<br><br>Pan fydd y plentyn yn dod o fewn oed statudol gall yr Awdurdod gyfeirio'r Ysgol i gynnal y CDU<br><br>Mae'r Awdurdod angen penodi **Swyddog Arweiniol Blynyddoedd Cynnar** (EYALNLO) | Angen hyfforddiant gweinyddiaeth CDU a defnydd dulliau cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr Unigolyn. | **Cynnydd yn yr angen i'r gweithlu ADY ymwneud, a'r angen i ddarparu yn y blynyddoedd cynnar**<br><br>**Cynnydd yn y gwaith cydlynu CDU yn y gwasanaeth gweinyddol**<br><br>**Systemau aneglur o ran darpariaethau yn y sector blynyddoedd cynnar yn risg i ddarpariaeth addas**<br><br>**Cost ychwanegol darpariaeth** | - Peilota swydd cydlynydd Blynyddoedd Cynnar fel rhan o'r Grant Trawsnewid er mwyn sgopio'r gwaith<br><br>- Angen trafodaeth ynglŷn â chyfradd hyfforddi Seicolegwyr Addysgol cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol a rhanbarthol.<br><br>- Angen trafodaethau strategol pellach er mwyn adnabod ble mae'r rolau Swyddog Arweiniol yn gorwedd ar hyn o bryd. |
| **9 Dyletswydd ar Ysgolion a Gynhelir** | **CDU Ysgol fydd y rhan fwyaf** o CDUau, heblaw anghenion **dwys a chymhleth a PMG** (9.2)<br><br>Unrhyw blentyn mewn gofal sydd yn cael ei adnabod gyda ADY yn CDU Awdurdod - **Cydlynydd APMG** yr Awdurdod sydd yn gyfrifol am **Gydlynu**'r rhain | Tebygolrwydd uchel fod PMG gyda ADY hefyd - cynnydd mewn angen i gydlynu | Diffyg systemau clir yn arwain at fethu cadw o fewn y terfynau amser<br><br>Cynnydd mewn llwyth gwaith y timau arbenigol, yn enwedig Seicolegwyr Addysgol gyda'r ymestyn oedran | Cynnydd llwyth gwaith Tim Seicoleg – angen trafod hyn ar lefel genedlaethol<br><br>Gweithredu sydd yn ymwneud a Phenodau 1-8 yn berthnasol yma hefyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ysgol i gyfeirio** CDU i'r Awdurdod os ydynt yn teimlo **na ellir darparu, neu yn aneglur ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ei angen**<br><br>Gall yr awdurdod fabwysiadu neu orchymyn i'r **ysgol barhau i gynnal**<br><br>Rôl iechyd (gweler Pennod 15) | Rhaid i Ysgol sicrhau eu bod wedi gwneud cais am wybodaeth/mewnbwn gan arbenigwr, ac mae angen y cyngor yma o fewn y cyfyngiad amser<br><br>Rôl y DECLO yn hanfodol bwysig | | |
| **10 Dyletswydd ar sefydliad Addysg Bellach ac Awdurdod Lleol** | **Cyfrifoldeb y sefydliad fydd y rhan fwyaf o CDUau** (yn yr un ffordd ag ysgolion) (10.1, 10.2)<br><br>Unrhyw unigolyn sydd yn gwneud cwrs **addysg uwch** ddim yn addas i fod yn destun CDU (10.3)<br><br>Dylai'r sefydliad **ymgynghori** gyda **Seicolegydd Addysgol** (10.43) | Mae'r Awdurdod yn gallu cyfeirio'r sefydliad i ddarparu | **Cynnydd mewn ceisiadau i'r ALl ddarparu**<br><br>**Cynnydd mewn anghydfod a thribiwnlys ôl 16**<br><br>**Llwyth gwaith Seicolegwyr Addysgol**<br><br>**Cyllid yn cael ei ryddhau i Awdurdod ar sail fformiwla defnydd colegau arbenigol - nifer Gwynedd a Môn yn sylweddol is nac Awdurdodau eraill** | Swyddog Trawsnewid ôl 16 LlC yn cydweithio gyda'r colegau i edrych ar eu darpariaethau a'u systemau gwahaniaethu<br><br>Grŵp Gwedd 2 yn edrych ar systemau a chynllunio eisoes<br><br>Ystyried fformiwla ar lefel rhanbarthol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Cynnydd mewn Llwyth gwaith y Tîm Seicoleg Addysgol ar lefel CDU Awdurdod a CDU SAB** | Angen trafodaeth ranbarthol a chenedlaethol |
| **11 Dyletswydd ar gyfer plant oedran statudol sydd ddim yn mynychu ysgol a gynhelir** | Pob plentyn sydd yn cael ei adnabod gyda ADY sydd ddim yn mynychu ysgol a gynhelir yn CDU Awdurdod (11.5) ac angen ymgynghori **gyda Seicolegydd Addysgol**<br><br>Pob un gyda **hawl apêl** (11.6)<br><br>Dylai'r awdurdod **ffafrio addysg priflif** oni bai fod yr awdurdod yn ystyried nad ydy'r ddarpariaeth yn addas<br><br>11.3 yn aneglur o ran **dewis rhiant**<br><br>11.66 **ni chaiff awdurdod godi tal** am unrhyw ddarpariaeth sydd yn cael ei nodi yn y CDU | Mae'r rhan yma o'r Cod yn un y bydd angen ymateb iddo yn yr ymgynghoriad o ran dyletswyddau, anawsterau sicrhau ansawdd darpariaeth mewn ysgolion nas gynhelir/annibynnol, a disgyblion addysg gartref (ADDG) | Nifer **uwch o CDU Awdurdod a llwyth gwaith Seicolegwyr – gwariant darparu mewn lleoliadau nas gynhelir yn cynyddu**<br><br>Nifer **uwch o dribiwnlysoedd**<br><br>**Risg o gost ychwanegol i ddarpariaethau o fewn cartrefi ac ysgolion annibynnol** | -**Trafodaeth ranbarthol yn hanfodol - materion lleol sydd wedi arwain at dribiwnlysoedd diweddar** |
| **12 – Dyletswyddau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn** | Mewn achos ble mae ADY plentyn yn cael ei ddwyn i sylw'r All rhaid ystyried os oes angen CDU os "oes gan y person ifanc **anghenion rhesymol** am addysg neu | Gall yr achosion yma godi **unrhyw adeg cyn 25 oed** (e.e. os nad ydy deilliannau'r unigolyn wedi eu cyrraedd, | **Llwyth gwaith ychwanegol o ran cydlynnu a mewnbwn timau arbenigol** | Trafodaeth Strategol yn angenrhediol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mynychu ysgol priflif neu SAB | hyfforddiant, ac os felly, beth ydynt; y ddarpariaeth sydd ar gael o bosibl i ddiwallu'r anghenion; ac a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu'r anghenion." (12.20)<br><br>Cyfnod arferol hyfforddiant/addysg yw **2 flynedd**<br><br>Rhaid ystyried yr angen am **gyd-gomisiynu**<br><br>Eto'n cyfeirio **at angen Seicolegydd Addysgol i ymwneud** (12.9) | neu os oedd y ddarpariaeth flaenorol yn annigonol<br><br>Cyswllt gyda Deddf Llesiant 2015 - byddai angen darparu o dan y ddeddf yma beth bynnag | **Sut mae'r Awdurdod yn monitro ansawdd er mwyn lleihau achosion o addysg neu hyfforddiant sydd heb ddiwallu'r angen yn flaenorol** | |
| 13 Cynnwys CDU | **Templed cenedlaethol** – pennawdau **gorfodol**<br><br>Defnydd cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr **unigolyn**<br><br>Dim **jargon ac iaith dechnegol**<br><br>Angen cytundeb iechyd i nodi darpariaeth gan **Iechyd** | Y templed ddim yn offeryn da ar gyfer defnyddio cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn<br><br>System electroneg (Cynnal/Gwynedd a Môn) yn y broses o gael ei beilota. Y peilot yn mynd yn dda.<br><br>Gofynion cludiant yn cael ei gynnwys | LlC yn cynnal adolygiad dichonoldeb o gomisiynu CDU electroneg. Bydd proses caffael yn dilyn.<br><br>**Proses caffael system electroneg** | Y Tîm Data yn mapio'r templed ar y fersiwn lleol er mwyn gwneud addasiadau.<br><br>Gwneud cyswllt gyda'r arolwg a chyfrannu ato.<br><br>Cynnal yn paratoi at y proses caffael. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **14 CDU ar gyfer PMG** | CDU i gael ei greu ar gyfer **unrhyw PMG sydd ag anhawster dysgu ychwanegol** – CDU Awdurdod | Templed Gwynedd a Môn angen ei ddefnyddio<br><br>**Cydlynydd APMG fydd yn cydlynu** a bydd y CDU yn rhan o'r PEP. | | Angen systemau **cyfathrebu clir** gyda'r Cydlynydd APMG a hefyd ystyried **ble mae'r rôl** yma'n eistedd o fewn yr Awdurdod |
| **15 Dyletswydd ar Fwrdd GIG** | Derbyn ac ymateb i geisiadau statudol am wybodaeth ar gyfer y broses CDU **o fewn 6 wythnos**<br><br>Angen i'r Awdurdod gyfeirio i'r **DECLO** os oes unrhyw anhawstser derbyn yr wybodaeth. **Rhaid adnabod DECLO (15.37), rol strategol, clinigol o fewn y bwrdd**<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd adnabod a darparu'r hyn sydd yn cael ei and adnabod yn y CDU (15.22, 15.28) | Mae darpariaeth therapïau (e.e. Th I a Ll, Th. G, Physio) yn gallu cael ei adnabod fel DDdY - mater ar gyfer comisiynu | Geiriad y cod o ran dyletswydd y bwrdd Iechyd yn wan.<br><br>Posib cynydd tribiwnlys ar sail darpariaeth Iechyd.<br><br>**Dim DECLO** wedi ei benodi yn GIGBC | Trafodaeth bellach i'w gael gyda'r Swyddog Trawsnewid.<br><br>Rol y DECLO yn hanfodol |
| **16 Adolygu'r CDU** | O leiaf yn flynyddol (16.1)<br><br>Cais i gael Adolygiad cynharach yn gallu cael ei wneud gan y rhiant, Bwrdd GIG | Hyn yn debyg i'r sefyllfa bresennol | | System electroneg yn hwyluso'r gwaith yma yn sylweddol. |
| **17 Ail ystyriaeth yr ALl a phenderfyniad i fabwysiadu'r CDU** | **Unrhyw benderfyniad Awdurdod** (h.y cyfeirio yn ol i'r ysgol, mabwysiadu) yn gallu arwain i **apel tribiwnlys addysg** | Angen prosesau datrys anghydfod effeithiol a chydweithredol | Angen ystyried y comisiwn presennol gyda SNAP<br><br>Rol y Swyddogion Ansawdd yn hanfodol | Grwp datrys anghydfod yr adolygiad strategol yn cynllunio<br><br>Cynllunio sesiynau galw i mewn i ysgolion a rhieni gyda'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Yn achos CDU Ysgol mae'r **rhiant yn gallu cysylltu gyda'r Awdurdod** i apelio ynglyn a cynnwys y CDU<br><br>**Rhaid i'r Awdurdod drafod gyda Seicolegydd Addysgol** cyn gwneud penderfyniad | Effaith ar lwyth gwaith y Tîm Seicoleg Addysgol | | Swyddogion Ansawdd yn digwydd eisoes<br><br>Nifer tribiwnlysoedd yn gymharol fychan yng Ngwynedd a Môn, ond tebygolrwydd twf yn enwedig ar y cychwyn<br><br>Presenoldeb Seicolegydd Addysgol ar y Paneli i barhau |
| **18 Cyfarfodydd ynglŷn â CDUau ac ADY** | **Arfer dda** ar gyfer cynnal cyfarfod | | | Mae'r strwythur yma yn debyg i'r drefn bresennol yn lleol. |
| **19 Cyfnodau Trosiannol** | **Arfer dda** ynglyn a cyfnodau **trosiannol** | | | Parhau i ddatblygu arfer dda a chyfathrebu effeithol |
| **20 Trefniadau trosglwyddo** | **Angen mabwysiadu cynnwys yn syth** pan fo dysgwr yn symud neu gychwyn mewn lleoliad – arfer dda | | Bydd angen cysondeb mewn systemau Ysgol ac Awdurdod er mwyn hwyluso troglwyddiad. | Ymateb I'r ymgynghoriad – ni fydd yn bosib rhoi union ddarpariaeth mewn lle, bydd angen bod yn ddarpariaeth ffit gorau.<br><br>Symud o un sir i'r llall - angen parhau i drafod yn rhanbarthol o ran agweddau tebyg (e.e. mapiau darpariaeth i safon ddisgwyliedig) |
| **21 Dod a CDU i ben** | Mae gan yr ALl 4 wythnos i ystyried dod a CDU i ben | | Meini Prawf dod a darpariaeth i ben (h.y. pryd | Risg tribiwnlys oni bai bod meini Prawf, Gwybodaeth a Chyfathrebu yn glir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan y rhiant/dysgwr 8 wythnos i apelio i'r tribiwnlys | | mae ADY yn stopio bod yn sylweddol) | |
| **22 Plant a phobl ifanc sydd yn destun gorchymyn cadw** | Mae angen i unrhyw **ddarpariaeth CDU** fod mewn lle ar gyfer pan fydd y dysgwr yn **dychwelyd i'r ALl**. | Gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ADY o'r newydd sydd yn cael ei adnabod angen bod yn hysbys mor fuan â phosibl<br><br>(Cyswllt gyda Pennod 12) | **Cynnydd oedran i 25 yn golygu bod potenisal i angen cael ei adnabod yn ystod gorchymyn** | Angen adnabod data addas yn y sector hwn er mwyn blaengynllunio<br><br>Cynnwys yr agweddau yma o fewn y gwaith Ôl 16. |
| **23 Plant EOTAS** | **Pob plentyn EOTAS yn destun CDU Awdurdod**<br>**Lleoliad Uned Gyfeirio ddim** o reidrwydd yn golygu CDU Awdurdod oni bai eu bod yn rhannu lleoliad | Rhai categoriau EOTAS yn destun CDU Awdurdod eisioes | Cryfhau prosesau monitro EOTAS | Yn gweithio tuag at hyn eisoes |
| **24 Rôl y Cydlynydd ADY** | Y rol **yn cynyddu o ran statws** o fewn yr ysgol<br><br>Angen sicrhau **amser digonol** i gwblhau'r dyletswyddau (24.6)<br><br>Angen bod yn rhan o Uwch Dim Rheoli - **rôl strategol** (24.7)<br><br>Angen gallu **adnabod y gweithwyr proffesiynol angenrheidiol** er mwyn diwallu/adnabod yr ADY (24.15) | Datblygiad yn y rol er mwyn gallu cyfarch y gofynion<br><br>Dyletswydd yr awdurdod i sicrhau hyfforddiant addas o ran y gofynion<br><br>Bydd angen cynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth ADY, ynghyd a monitro'r ansawdd gwahaniaethu ayb. | **Model presennol yn annigonol - nifer cydlynwyr sydd ddim o fewn y gofynion yma yn uchel**<br><br>Model Eirolwyr ADY a Ch – grant Trawsnewid – datblygu parodrwydd ysgolion yn eu clwstwr at y ddeddfwriaeth – angen cyfeiriad clir i hyn | **Angen edrych ar y model sirol eto – oes angen i ysgolion ystyried rhannu cydlynnwyr.**<br><br>Impact cost ar ysgolion<br><br>Cydweithio gyda'r Awdurdodau a Swyddog Trawsnewid LlC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid bod a chymhwyster athro (24.24)<br><br>Rhaid bod a chymhwyster addas i wneud y rôl | Rhaglen hyfforddi leol, rhanbarthol a chenedlaethol | | |
| **25 Osgoi a Datrys anghytundeb, gwasanaeth eiriolaeth annibynnol** | Rhaid i'r awdurdod drefnu bod gwasanaeth **eiriolaeth annibynnol** ar gael (25.55) | | **Comisiwn presennol yn annigonol** | Gwaith wedi ei wneud i edrych ar arfer dda mewn siroedd eraill gyda chynllun arfaethedig o beth sydd ei angen creu. Bydd angen ystyriaeth i addasu'r comisiwn ar gyfer Ebrill 2020 |
| **26 Apeliadau a cheisiadau i'r Tribiwnlys Addysg** | Yn bosib gydag **unrhyw benderfyniad Awdurdod**<br><br>**Rhiant neu ddysgwr** yn gallu **apelio i'r tribiwnlys** (yn ddibynol ar gymhwysedd y dysgwr)<br><br>Penderfyniadau gall y Tribiwnlys ei wneud – 26.8<br><br>Penderfyniadau yn ymwneud a **darpariaeth bwrdd GIG** – 26.20, 26.21 | Angen i brosesau datrys anghydfod a'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ddarparu fod yn hynod effeithiol<br><br>Darpariaeth bwrdd GIG - Tribiwnlys yn gallu gofyn i'r bwrdd iechyd edrych i mewn i argymhelliad y tribiwnlys ac ymateb o fewn 6 wythnos. | **Risg mewn cynnydd Tribiwnlys, yn enwedig ar y cychwyn** | Sesiwn gweithdy Cyfreithiol ar yr 18/1/19 wedi bod yn ddefnydidol iawn. Gweithdy rhanbarthol i'w gynnal ym Mis Ebrill.<br><br>Arfer dda a chyfathrebu gyda rhieni yn datblygu trwy ddatblygiad sesiynau rhieni a'r wefan. |
| **27 Cyfeillion achos** | Cefnogaeth ar gyfer unigolion sydd heb gymhwysedd digonol – apwyniatiad gan y Tribiwnlys yn unig | | | Gweithredu Tribiwnlys Addysg Cymru |

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Swyddfeydd Addysg Ardal – Prosiectau Lleihau Baich |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Mawrth 2019 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ar 13 Medi 2016, bu i'r Cabinet gymeradwyo cais gan yr Adran Addysg i symud tuag at Swyddfeydd Addysg Ardal. Yn yr adroddiad ar y pryd, nodwyd mai priod waith y Swyddfa Ardal fyddai rhesymoli a rhannu gofynion rheolaethol, gweinyddol a llywodraethol ysgolion. Nodwyd ar y pryd, hefyd trwy gydweithio efo GwE, cyfuno anghenion y model ADY arfaethedig a'r model moderneiddio ysgolion, mai'r bwriad oedd sicrhau strwythur gweithredu sy'n gyfatebol i'r model Ardal.

1.2 Roedd yr adroddiad Cabinet ar y pryd yn gofyn am:

- Gefnogaeth y Cabinet i weithredu model Swyddfeydd Addysg Ardal.
- Gefnogaeth y Cabinet i'r cais am gostau o oddeutu £275,000 am hyd at dair blynedd gydag awdurdod i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Aelod Cabinet Adnoddau i gadarnhau y cyfanswm yn sgil canlyniadau arfarnu swyddi'r staff.
- Gefnogaeth y Cabinet i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Addysg i greu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ym maes Adnoddau Dynol er mwyn diffinio natur y gwasanaeth.

1.3 Bwriad yr adnoddau ychwanegol yma ar y pryd oedd galluogi'r Adran Addysg i gefnogi ysgolion yn fwy lleol, er mwyn lleihau gweinyddu yn ein hysgolion, gan alluogi penaethiaid i arwain addysg a'r athrawon i ddysgu. Roedd yr adnoddau ychwanegol yn galluogi'r Adran i greu'r swyddi canlynol i gefnogi'r Swyddfeydd Addysg Ardal:

- Swyddog Ymgynghorol Adnoddau Dynol
- Swyddog Busnes a Gwasanaethau (x3)
- Swyddog Rheoli Perfformiad
- Swyddog DATA

1.4 Yn sgil penodi Pennaeth Addysg newydd ym mis Tachwedd 2017, ynghyd â thîm newydd o Swyddogion Addysg ers Ebrill 2018, y mae prif ffocws a phwrpas y Swyddfeydd Addysg Ardal (fel y tanlinellwyd uchod) wedi ei atgyfnerthu, ond bellach rhoddir ffocws llwyr ar leihau baich gwaith penaethiaid, cyfeiriad ac ymdrech sydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan holl benaethiaid ein hysgolion.

**2. SWYDDFEYDD ADDYSG ARDAL 2018/19 YMLAEN**

2.1 Yn 2018/19 felly, rydym wedi ail-ymweld â'r Swyddfeydd Addysg Ardal, ac wedi ceisio diffinio eu pwrpas fel a ganlyn:
*Cefnogi a datblygu llywodraethiant a rheolaeth effeithiol ysgolion Gwynedd*

Egwyddor sylfaenol y Swyddfeydd Addysg Ardal ydi rhesymoli a rhannu gofynion rheolaethol, gweinyddol a llywodraethol ysgolion. Yn ogystal, mae'r Swyddfeydd Addysg Ardal yn sicrhau y caiff strategaethau'r Adran Addysg ar gyfer gwella ysgolion eu gweithredu'n effeithiol.

**Ffordd Gwynedd**

2.2 Mae'r Adran wedi cychwyn ar y gwaith i ddiffinio pwrpas addysg yng Ngwynedd drwy lygaid y dinesydd gyda chyfarfodydd wedi eu cynnal gyda grwpiau bach o blant, pobl ifanc a rhieni.

Hyd yma, dyma'r pethau pwysig i'r plant:
*Dw i isio...*

- Mynd i ysgol lle gallaf fod yn hapus bob dydd.
- Mynd i ysgol lle dw i'n teimlo'n ddiogel.
- Mynd i wersi diddorol gydag athrawon da sydd yn mynd i fy mharatoi ar gyfer gadael ysgol a llwyddo.
- Pawb yn y dosbarth yn cael chwarae teg.
- Cyfle i ddilyn pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma'r pethau pwysig i rieni:

*Dw i isio fy mhlentyn...*

- Fod yn hapus i fynd i'r ysgol bob dydd.
- Fod yn ddiogel ac iach yn yr ysgol.
- Gael yr un cyfle â phob disgybl arall.
- Gael ei addysgu gan athrawon da.
- Gael cyfle i ddilyn ystod eang o bynciau a hynny yn y Gymraeg.
- Gael ei baratoi ar gyfer mynd i addysg bellach, byd gwaith, prentisiaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd ei yrfa addysgol.

**Mesuryddion**

2.3 Yr ydym yn y broses o adnabod cyfres o fesuryddion a fydd yn mesur ein cynnydd yn erbyn yr hyn sydd yn bwysig i'r dinesydd ac fe fyddwn yn addasu ein dulliau gweithredu i wella'r mesuriadau maes o law. Ar hyn o bryd, mae'r mesuryddion yn erbyn y blaenoriaethau'n rhai meddal, ansoddol.

**Blaenoriaethau 2018/19**

2.4 Yn dilyn trafodaeth fewnol â chynrychiolaeth o benaethiaid ysgolion yn ein Byrddau Strategol Ardal a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol yn y Byrddau Strategol Dalgylch, cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

- Sicrhau trefniadau i wirio ansawdd llywodraethiant ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau fod polisïau o fewn ysgolion Gwynedd yn gywir a chyfredol.
- Gefnogi ysgolion i weithredu'r polisi iaith gan sicrhau gwerth am arian.
- Lleihau effaith casglu a bancio arian ar faich gwaith ysgolion cynradd.
- Ddatblygu trefnu pwrcasu effeithiol.
- Lleihau baich gwaith drwy addasu trefniadau rheolaethol gweithdrefnol presennol.
- Sefydlu dulliau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon.
- Creu llwyfan i benaethiaid rannu arferion da.
- Sicrhau cefnogaeth a chynaladwyedd trefniant lle bo pennaeth yn arwain mwy nag un ysgol.

Mae gwaith pellach i'w wneud ar ddiffinio pwrpas drwy lygaid penaethiaid a thimau rheoli, ymateb i heriau tymor byr ydi ein blaenoriaeth eleni.

## 3. BLAENORIAETHAU 2018/19 – PROSIECTAU LLEIHAU BAICH WGAITH PENAETHIAID

3.1 Adnabuwyd naw blaenoriaeth i'w gweithredu yn 2018/19 yn sgil trafodaethau gyda phenaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Sefydlwyd prosiect penodol o amgylch pob un i'r blaenoriaethau gyda'r Swyddogion Busnes yn gweithredu fel rheolwyr prosiect a Swyddogion Addysg yn gweithredu fel arweinyddion.

3.2 Dyma ddyfyniad o gofnodion Grŵp Dalgychol Cynradd ac Arbennig (GYDCA), dyddiedig 29 Tachwedd 2018:

***"Nodwyd bod Prosiectau Lleihau Baich Gwaith Penaethiaid yn galonogol iawn, diolchwyd am y cymorth gan yr Awdurdod."***

3.3 Dyma fanylion am y naw prosiect:

| **B1** | **LLYWODRAETHWYR** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Llywodraethwyr a Phenaethiaid Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Sicrhau ansawdd llywodraethiant ysgolion Gwynedd. |
| | ***Prosiect***<br><br>Sicrhau rhaglen hyfforddiant o ansawdd ar gyfer Llywodraethwyr ysgolion Gwynedd. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Ymgynghori ar anghenion hyfforddiant gyda chyrff llywodraethol.*<br>• *Addasu bwydlen hyfforddiant 18/19*<br>• *Cynnig ffeiriau hyfforddiant dalgylchol yn unol â'r angen.* |

| | |
|---|---|
| | • *Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu hyfforddiant thematig ar-lein* |
| | ***Adborth***<br>*Mae'n sicr angen i ragor o hyfforddiant i Lywodraethwyr fod ar gael yn hwylus iddynt ar-lein, fel bod modd i Lywodraethwyr gyflawni'r hyfforddiant pan fo hynny'n gyfleus ac yn ymarferol iddynt wneud hynny.* |

| **B2** | **POLISÏAU** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Penaethiaid Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Sicrhau fod model polisïau'n gyfredol gyda unigolion allweddol yn gyfrifol am eu diweddaru. Ymchwilio i system i ysgolion gadw'r polisïau'n gyfredol gyda ffocws penodol ar symleiddio'r drefn a lleihau baich gwaith Penaethiaid. |
| | ***Prosiect***<br><br>Ymchwilio a chytuno ar system effeithiol i fabwysiadu, diweddaru a chadw'n gyfredol bolisïau statudol. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Rhesymoli rhestr o bolisïau statudol a'r rhai sydd yn cael eu hargymell gan yr awdurdod*<br>• *Creu system lle mae modd i ni rannu'r polisïau'n lifrau'r ysgolion*<br>• *Polisïau statudol wedi eu rhannu a phob ysgol*<br>• *20% o'r polisïau anstatudol wedi ei rhannu yn ystod tymor yr Hydref.* |
| | *Mae'r polisïau wedi eu derbyn yn dda iawn gyda nifer fawr wedi ymateb yn ysgrifenedig i ddatgan eu gwerthfawrogiad. Mae cynnwys y polisïau swydd wedi eu rhannu'n gyfredol ac mae'r ysgolion sydd wedi mynd drwy arolwg Estyn yn ddiweddar wedi datgan eu bod wedi eu derbyn heb unrhyw her.* |

| **B3** | **CYFIEITHU** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Llywodraethwyr a Phenaethiaid Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau*** |

| | |
|---|---|
| | Cefnogi ysgolion a chyrff Llywodraethol i weithredu'r polisi iaith gan sicrhau gwerth am arian. |
| | ***Prosiect***<br><br>Adolygu trefniadau presennol cyfieithu'r adran i adlewyrchu anghenion a chyfarfod gofynion ein hysgolion. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Cytundeb rhwng Cyfieithu Addysg a'r Uned Gyfieithu Gorfforaethol i dreialu darpariaeth cyfieithu i ysgolion fyddai'n sicrhau gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfarfodydd Cyrff Llywodraethol yn ddi-gost. Caiff y cynllun ei beilota o Ionawr 2019 ymlaen.* |
| | ***Adborth***<br>• *Gwasanaeth arbennig mewn amserlen dynn!"*<br>• *Hoffwn diolch i chi am delio gyda'r cais yma ar frys. Wedi gyrru a derbyn nôl mewn ychydig bach o amser - Yn ddiolchgar am eich gwaith. Diolch yn fawr.*<br>• *Mae canran boddhad cwsmeriaid yr Uned Gyfieithu yn 100%.* |

| | |
|---|---|
| **B4** | **ARIAN MÂN ARIAN MAWR** |
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Penaethiaid a staff gweinyddol Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Lleihau effaith casglu a bancio arian ar faich gwaith ysgolion cynradd. |
| | ***Prosiect***<br><br>Ymchwilio a chytuno ar system a fydd yn galluogi ysgolion Gwynedd i fod yn ddi-arian parod erbyn diwedd Mawrth 2019. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Cynllun peilot mewn lle yn nalgylch Eifionydd sydd yn cynnwys pob ysgol gynradd ac uwchradd.*<br>• *Nifer o ysgolion tu allan i'r dalgylch yma wedi derbyn cefnogaeth i fynd yn ddi-arian parod.*<br>• *Adnabod dau ddalgylch yn Arfon i weithredu nesaf, Brynrefail a Bangor.* |
| | ***Adborth***<br>*Mae ysgolion dalgylch Eifionydd yn adrodd fod symud i'r system ddi arian parod wedi bod yn gymharol hawdd gyda rhieni yn gweld gwerth a hwylustod y system wedi iddynt gychwyn ei defnyddio.* |

| | |
|---|---|
| | *Mae ambell deulu yn parhau i fethu a thalu ar lein oherwydd problemau gyda diffyg rhyngrwyd neu ffon symunod. Byddwn yn edrych ar opsiynnau amgan ar gyfer y lleiafrif bychan yma.* |

| **B5** | **PWRCASU** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Penaethiaid a staff gweinyddol Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Lleihau baich gwaith a chynyddu capasiti swyddfa ardal drwy ddatblygu trefn pwrcasu effeithiol. |
| | ***Prosiect***<br><br>Ymchwilio a chytuno ar opsiynau mwy effeithiol er mwyn archebu adnoddau a phrosesu taliadau yn y ffordd fwyaf effeithiol. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Llif y broses bresennol wedi ei fapio'n fanwl i adnabod camau gwag.*<br>• *Ymchwil manwl wedi ei wneud i opsiynau e gaffael amrywiol.* |
| | ***Adborth*** |

| **B6** | **LLEIHAU BAICH GWAITH** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Penaethiaid a staff gweinyddol Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Lleihau baich gwaith drwy addasu trefniadau rheolaethol gweithdrefnol presennol. Hyn yn cynnwys; adrodd yn dilyn salwch; llefrith, hysbysebu swyddi, DBS, costau teithio a nifer o agweddau eraill. |
| | ***Prosiect***<br><br>Ymchwilio i opsiynau gwahanol i gyfarfod a'r angen yn y ffordd fwyaf effeithiol. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Yr angen i gwblhau ffurflenni llefrith a llyfrau cinio wedi dirwyn i ben.* |

| | |
|---|---|
| | • *Hysbysebu swyddi ar leni yn fyw ac yn cael eu ddefnyddio.*<br>• *9 o ysgolion cynradd ar y system hunan wasanaeth yn golygu y gallant wirio dyddiad DBS a chyflwyno costau teithio ar lein.* |
| | ***Adborth***<br>*Mae nifer o'r newidiadau bychan yma yn cael eu gwerthfawrogi gan Benaethiaid. Mae gwaredu'r ffurflenni llefrith, er ddim ond yn un ffurflen, yn cael ei weld fel cam pwysig ac wedi gosod y sylfaen o ran symud ymlaen.*<br><br>*Mae Penaethiaid yn gwerthfawrogi nad yw'r adran gofyn dim iddynt heb ystyried yn y lle cyntaf, effaith hyn ar faich gwaith.* |

| | |
|---|---|
| **B7** | **CYFATHREBU** |
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Llywodraethwyr a Phenaethiaid Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n fwy effeithiol gydag ysgolion a chydweithwyr o fewn y Cyngor a thu hwnt gan roi ffocws ar gasglu barn rhan-ddeiliaid yn fwy systematig. |
| | ***Prosiect***<br><br>Sefydlu dulliau cyfathrebu sydd yn rhoi sylw i'r canlynol; cyfathrebu rheoliad a chryno, delwedd yr adran, casglu barn, eglurdeb rolau staff allweddol, eglurdeb rolau partneriaid gan gynnwys GwE, e-byst, defnydd o ffonau. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>• *Cylchlythyr wedi ei ddiweddaru*<br>• *System ebyst wedi ei adolygu i waredu ebyst*<br>• *Sefydlu trefn newyddlen addysg*<br>• *Cynllun peilot ateb ffôn mewn lle ac yn cefnogi 9 o ysgolion.* |
| | ***Adborth***<br>*Mae'r Penaethiad yn gwerthfawrogi fod nifer yr ebyst sydd yn eu cyrraedd bob dydd wedi lleihau. Mae gwella'r filter ebost a defnyddio newyddlen addysg fisol i rannu gwybodaeth o amrywiol adrannau'r Cyngor wedi cyfrannu at hyn.*<br><br>*Mae'r ysgolion sydd yn rhan o'r cynllun ateb ffon yn canmol y gwasanaeth yn fawr gyda sawl rhiant yn datgan fod rhywun yn ateb y ffon bellach yn ystod diwrnod ysgol. Mae nifer y galwadau sydd yn cael eu delio gan y swyddfa'n cynyddu gyda llai o faterion yn cael eu pasio ymlaen i'r Penaethiaid.* |

| B8 | **RHANNU ARFERION DA** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>Llywodraethwyr a Phenaethiaid Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Lle'n briodol cynnig cyfleoedd a llwyfan i ysgolion rannu arferion da. |
| | ***Prosiect***<br><br>Creu llwyfan i rannu cynlluniau dysgu, cynlluniau datblygu ysgol ac arferion da. System megis iGwynedd neu Sharepoint lle gellid uwchlwytho arferion da.<br><br>Cytuno a chysoni fframiau cynllunio gan roi sylw penodol i'r manylder disgwyliedig yn y gwaith cynllunio. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br><br>*Gwaith cychwynnol wedi' wneud i edrych ar enghreifftiau o arfer dda o fewn y sir.*<br><br>*Gwaith ymchwil sylfaenol wedi' wneud hefyd ar addasrwydd dulliau electroneg presennol o rannu arfer dda ( mewnrwyd; HWB a iGwynedd)*<br><br>*Gwaith peilota system sharepoint o dan HWB Llywodraeth Cymru ar y gweill (ar y cyd â phrosiect B7)* |
| | ***Adborth***<br><br>*Adborth wedi dod gan Benaethiaid ar ddefnyddioldeb presennol HWB fel adnodd rheolaethol. Ar hyn o bryd tydi Penaethiaid ddim yn teimlo ei fod yn hwylus na'n hygyrch i'w ddefnyddio ar gyfer y math yma o rannu arfer dda er bod defnydd sylweddol yn cael ei wneud ohono fel arall.* |

| B9 | **PENAETHIAID SY'N ARWAIN MWY NAG UN YSGOL** |
|---|---|
| | ***Pwy yw'r cwsmer?***<br><br>*P*enaethiaid sydd yn arwain mwy nag un o Ysgolion Gwynedd. |
| | ***Blaenoriaethau***<br><br>Cefnogi Penaethiaid sydd yn arwain mwy nag un ysgol fel eu bod yn medru parhau yn y rôl i'r dyfodol. |
| | ***Prosiect*** |

| | |
|---|---|
| | Ymchwilio, cytuno a threialu model i gefnogi Pennaeth sydd yn arwain ar fwy nag un ysgol. |
| | ***Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?***<br>• *Cefnogaeth gweinyddol ychwanegol wedi ei gynnig a'i ddarparu i bob pennaeth sydd yn arwain mwy nag un ysgol ers mis Medi 2018. Y gefnogaeth yma'n cael ei ddâr[paru mewn un o ddwy ffordd:*<br>*i.) Ychwanegu oriau at adnodd gweinyddol presennol yr ysgol*<br>*ii.) Swyddog SIMS i ddarparu cefnogaeth weinyddol i'r ysgol*<br>• *Arian ychwanegol wedi ei glustnodi i bob pennaeth er mwyn prynu cefnogaeth neu fewnbwn arbenigol, megis:*<br>*i.) Mentor*<br>*ii.) Prynu amser arbenigol i ddod a blaenoriaethau'r CDYau ynghyd*<br>*iii.) Cynnal grŵp rhwydweithio penaethiaid yn arwain mwy nag un ysgol*<br>*iv.) Cefnogi'r pennaeth gyda'r Cyrff Llywodraethol a hyrwyddo dealltwriaeth o rôl pennaeth yn arwain mwy nag un ysgol*<br>*v.) ayyb* |
| | ***Adborth***<br>*Mae'r Penaethiaid sydd yn arwain mwy nag un ysgol yn sicr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth weinyddol ychwanegol er bod gwersi i'w dysgu o dan y ddwy ffordd y cynigiwyd y gefnogaeth. Mae un Pennaeth wedi nodi nad oedd yn siŵr ar ddechrau'r cynllun pa waith fyddai modd iddi ei drosglwyddo i'r Swyddog SIMS ond bellach mae'n ofni gorfod gwneud heb y gefnogaeth gan ei fod mor werthfawr. Roedd pob un o'r Penaethiaid a fynychodd y cyfarfod grŵp rhwydweithio cyntaf yn falch iawn o'r cyfle i gael trafod hefo Penaethiaid eraill yn yr un sefyllfa ac yn awyddus i gyfarfod yn dymhorol er mwyn edrych ar wersi medr y Penaethiaid ddysgu gan eu gilydd.* |

**4. SYLWADAU**

Gwahoddir unrhyw sylwadau neu gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar:

- gyfeiriad y Swyddfeydd Addysg Ardal 2018/19 ymlaen,
- diffinio pwrpas Addysg yng nghyd-destun Ffordd Gwynedd,
- ynghyd â'r prosiectau lleihau baich gwaith penaethiaid.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad Blynyddol Addysg 2017/18 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Mawrth 2019 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, mae'r Adran Addysg wedi llunio Adroddiad Blynyddol er mwyn galluogi'r craffwyr i gael trosolwg o waith yr Adran.

1.2 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen faith ar lawr pwyllgor, ac o ganlyniad, wedi ceisio llunio Adroddiad Blynyddol cryno, sydd yn tynnu sylw at brif waith yr Adran, nodweddion cadarnhaol, ynghyd â meysydd sydd angen gwella dros y cyfnod nesaf.

1.3 Mae'r Adran Addysg hefyd yn cydnabod fod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi eisoes â threfn o adnabod eitemau unigol ystyrlon i'w craffu, ac yn sicrhau craffu manwl ac effeithiol ar y materion unigol rheiny.

1.4 O ganlyniad, nid oes modd tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at unrhyw adran yn benodol (ar wahân i safonau CA4) o fewn yr Adroddiad Blynyddol sydd yn peri pryder.

**2. SAFONAU – CA4**

2.1 Y mae aelodau'r Pwyllgor Craffu eisoes yn ymwybodol o gyd-destun canlyniadau CA4 yn haf 2018, sef yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, bod anwadalrwydd sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod canran y graddau A* i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2% i 61.6%.

2.2 Mae TGAU yn y broses o gael eu diwygio, ac fe gafodd 15 o bynciau diweddaredig eu sefyll am y tro cyntaf yn ystod yr haf hwn.

2.3 Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth eu sefyll am y tro cyntaf yn 2018, ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau i'r dangosyddion perfformiad yn CA4, i gynnwys un canlyniad TGAU yn unig ar gyfer Gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd 9 wedi'i gapio. O ganlyniad, nid yw cymharu gyda data hanesyddol yn berthnasol. Roedd ysgolion yn gallu dilyn trywydd y llwybrau canlynol: Gwyddoniaeth (Dyfarniad Triphlyg), Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl), a Gwyddoniaeth Gymhwysol

(Dyfarniad Sengl). Gan fod y dangosydd 9 wedi'i gapio yn cynnwys dau fesur Gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dilyn y llwybrau dwbl a thriphlyg.

2.4 Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Ers Medi mae ysgolion a swyddogion wedi ceisio eglurder ynglŷn â'r rhesymau dros y cynnydd yma. Ym mis Hydref fe gyhoeddodd Cymwysterau Cymru adroddiad ar ffiniau graddau Saesneg yn benodol. Er canfyddiadau adroddiad Cymwysterau Cymru mae penaethiaid ein hysgolion uwchradd a swyddogion yn gytûn fod data ysgolion Gwynedd wedi cael eu dylanwadu'n sylweddol gan benderfyniadau cofrestriadau.

2.5 Dylid ystyried perfformiad ysgol yn ôl trywydd ei pherfformiad ei hun, gan nad yw'n briodol cymharu ysgolion â'i gilydd oherwydd y gwahanol gyd-destunau a'r gwahanol gamau gwelliant.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2017/18**

**CYNNWYS**


1. CYD-DESTUN
2. SAFONAU
3. PROFFIL AROLYGIADAU
4. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL
5. Y GYMRAEG
6. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD
7. DIOGELU
8. BLYNYDDOEDD CYNNAR
9. Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG
10. CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN
11. TRAC
12. ARWEINYDDIAETH
13. UNED DDATA
14. GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION
15. UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAETH
16. UNED ARLWYO A GLANHAU

**CYD-DESTUN**

**GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG:** Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant ac economi yn lleol.

**PWRPAS:** Sicrhau bod yr ysgolion a'r ddarpariaeth yn arfogi'r plant a'r bobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.

**GWASANAETHAU RYDYM YN EU DARPARU:** Codi Safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Hyfforddiant.

**BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?**

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn ddiogel.
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd.
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Mae 86 ysgol gynradd, 13 Ysgol Uwchradd 1 Ysgol Ddilynol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

| EIN PRIF FESURYDDION PERFFORMIAD |
|---|
| Canran y disgyblion 15 oed (ar y 31 Awst blaenorol) sydd yn ennill pum gradd TGAU A* i C, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg (TL2+) |
| Sgôr bwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol |
| Canran y disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU, graddau A* i C (TL2) |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU A* i G (TL1) |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Gradd C neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant |
| Canran yr holl ddisgyblion, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu yn seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 9, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 6, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (DCS) |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |

**SAFONAU**

**CYNRADD**

**CYFNOD SYLFAEN**
**Tabl 1**
Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **86.8%** | **86.8%** | **86.6%** | **81.7%** |
| Cymru | 86.8% | 87.0% | 87.3% | 82.6% |

Roedd canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen haf 2018 yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'r blynyddoedd blaenorol, y prif reswm am hyn oedd y defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg o'r Fframwaith CS ar gyfer asesu. Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. O'r herwydd, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

Mae'r adroddiad a gomisiynwyd gan Wynedd ar ganlyniadau CS 2017 yn adnabod y rhesymau tebygol dros ganlyniadau Deilliant 5+ ychydig is na'r disgwyl yng Ngwynedd. Un o'r prif resymau am hyn, sy'n dangos cryfder Polisi Iaith Gwynedd, yw'r ffaith fod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn cael eu hasesu drwy'r Gymraeg ym Mlwyddyn 2; adlewyrchir hyn i raddau drwy'r asesiad Iaith Cymraeg eleni ble mae canlyniad Gwynedd ychydig is na'r ganran genedlaethol.

Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn adnabod sawl rheswm arall all gyfrannu at ganlyniadau is, ac mae GwE a'r Adran Addysg wedi llunio cynllun gweithredu fel atodiad i'r cynllun busnes 2018-19 sydd yn ymateb i'r darganfyddiadau yma.

Mae canlyniadau'r Deilliannau uwch 6+ Gwynedd yn parhau i fod yn gymharol dda. Felly er bod disgwyliadau uwch i gyrraedd y Deilliant yma, mae'r ysgolion wedi codi'r lefel o her i gwrdd â'r gofynion newydd.

Y newyddion da felly yw bod mwy o ddisgyblion Gwynedd na'n genedlaethol yn cyrraedd Deilliant 6 os ydynt wedi cyrraedd y Deilliant disgwyliedig yn y lle cyntaf.

Mae'r gwahaniaeth perfformiad rhwng y bechgyn a'r merched wedi aros yn gyson yn y Cyfnod Sylfaen dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r patrwm yna wedi parhau er y newid i'r gofynion asesu, gyda'r merched yn parhau i berfformio tua 6% yn uwch na'r bechgyn.

**CA2**
**Tabl 2**
Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **89.5%** | **89.8%** | **92.1%** | **91.2%** |
| Cymru | 87.7% | 88.6% | 89.5% | 89.5% |

Mae canlyniadau CA2 Gwynedd yn parhau yn gadarn dda. Mae'r perfformiad ym mhob pwnc ar gyfer y lefelau 4 disgwyliedig yn well na'r canlyniadau cenedlaethol. Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch 5+ hefyd yn gadarn ac yn uwch na chanlyniadau Cymru ym mhob pwnc.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Canlyniadau cymharol Deilliannau Uwch Deilliant 6+ yn y Cyfnod Sylfaen.
- Canlyniadau CA2 yn enwedig yn y lefelau uwch.

**Meysydd i'w Gwella**

- Gweithredu argymhellion perthnasol adroddiad Cyfnod Sylfaen Gwynedd.

**CA3**

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA3

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **91.3%** | **92.0%** | **92.8%** | **92.8%** |
| Cymru | 83.9%% | 85.9% | 87.4% | 88.1% |

Roedd perfformiad ar draws y prif ddangosyddion yn CA3 yn gadarn eto eleni. O ran y dangosydd pwnc craidd (DPC), mae perfformiad Gwynedd wedi aros yn gyson, ac mae'r perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu gostyngiad yn y ganran o ddysgwyr PYD a enillodd y dangosydd DPC.

***Cymraeg***: Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gostwng ychydig eleni, ond yn parhau'n uwch na pherfformiad 2016. O ran cymhariaeth genedlaethol, mae perfformiad Gwynedd ychydig is ond rhaid cymryd i ystyriaeth maint y cohort lleol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na'r cyfartaledd genedlaethol.

***Saesneg***: Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd ac eto eleni, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelir patrwm tebyg ar un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig gyda chynnydd pellach eleni, ac yn sylweddol uwch na'r gymhariaeth genedlaethol.

***Mathemateg***: Perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg wedi cynyddu eto eleni a dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelwyd gostyngiad bychan ym mherfformiad Gwynedd ar un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig, ond yn parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru.

***Gwyddoniaeth***: Gostyngiad bychan ar y lefel ddisgwyliedig ond yn parhau yn uchel, ac yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd wedi parhau yn uchel, ac yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Perfformiad Gwynedd yng nghyfnod allweddol 3 wedi parhau yn uchel , ac yn uwch ym mron pob un dangosydd o'i gymharu â'r perfformiad cenedlaethol.

**Meysydd Gwella**

- Cynyddu perfformiad disgyblion PYD ar y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd.

**CA4**

***Dadansoddiad o ganlyniadau Gwynedd ar brif ddangosyddion Llywodraeth Cymru***

Yn 2018 bu gostyngiad yng nghanran pob un o'r prif ddangosyddion mewn cymhariaeth â 2017, ac yn sylweddol felly mewn Saesneg.

| Dangosyddion | Gwynedd 2017 | Gwynedd 2018 | + / - 2017/2018 | Cymru 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **TL2+** | 58.1 | 54.6 | -3.5 | 55.1 |
| **TL2** | 70.0 | 69.5 | -0.5 | 66.9 |
| **TL1** | 97.3 | 95.9 | -1.4 | 93.6 |
| **SAESNEG** | 63.5 | 51.7 | -11.8 | 62.6 |
| **CYMRAEG** | 72.1 | 70.1 | -2 | 74.3 |
| **MATHEMATEG** | 56.4 | 55.8 | -0.6 | 59.4 |
| **RHIFEDD** | 59.6 | 58.9 | -0.7 | 58 |
| **MATHEMATEG (Gorau o'r 2)** | 62.9 | 61.5 | -1.4 | 63.5 |
| **GWYDDONIAETH** | 72.8 | 66.7 | -6.1 | 63 |
| **5A*/A** | 20.6 | 19.2 | -1.4 | 18 |
| **SGÔR CAPIO 9** | 365.8 | 360.8 | -5 | 350.1 |
| **PRESENOLDEB** | 95.2 | 94.8 | -0.4 | 93.9 |

Perfformiad yn y Gymraeg wedi aros yn gyson uchel, ond mae bwlch pryderus wedi'i amlygu rhwng perfformiad yn y Gymraeg a Saesneg. Er bod perfformiad Cymru ychydig yn uwch, mae canran disgyblion sy'n eistedd Cymraeg Iaith gyntaf yn uchel dros ben: 82% (17.3% o ddysgwyr Cymru a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Iaith gyntaf). Rhwng 2014 a 2016 roedd perfformiad Saesneg Gwynedd yn uwch na pherfformiad Cymru. Yn 2017 , a chanlyniadau cyntaf y cwrs Saesneg newydd ac ond iaith yn cyfrif tuag at y dangosydd, roedd perfformiad Gwynedd 0.2% islaw Cymru. Ond, yn 2018 mae perfformiad L2 Saesneg wedi gostwng 11.8%, gyda pherfformiad wedi gostwng yn sylweddol yn yr ysgolion oedd wedi perfformio orau yn 2017.

Mae gostyngiad bychan mewn mathemateg, rhifedd a'r ganran o ddysgwyr enillodd un o'r ddau wedi effeithio'r cynnydd disgwyliedig yn nangosydd TL2+.

Oherwydd newidiadau cymhwyster Gwyddoniaeth ni ellir gwneud cymhariaeth â pherfformiad 2017. Mae perfformiad gwyddoniaeth yn galonogol gyda nifer fawr iawn o ysgolion yn agos iawn i'w targedau. Mae perfformiad Gwynedd yn uwch na Chymru

Yn gyffredinol nid oes newid arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, gyda'r bwlch wedi lleihau ychydig yn y TL2+, TL2, 5A*/A, Maths gorau, màths , rhifedd a gwyddoniaeth, ond wedi cynyddu ychydig yn y Sgôr capio 9, Saesneg a'r Gymraeg.

Ar y llaw arall mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi gostwng, yn bryderus felly ar y TL2+, ond mae perfformiad 2018 yn debyg iawn i broffil perfformiad 2014-2016. Mae'n anodd cymharu patrymau perfformiad 2017 a 2018, ond mae perfformiad disgyblion PYD Gwynedd wedi gostwng eleni ymhob dangosydd.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Ysgolion cynhwysol a pherfformiad cadarn ar L1. Nodir hefyd fod cydweithio cryf i ddatblygu darpariaeth a chwricwlwm sydd yn eang a chytbwys.
- Perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel.
- Gwelliannau sylweddol mewn ysgolion penodol ar rai dangosyddion.

**Meysydd Gwella**

- Gwella perfformiad Saesneg a Mathemateg CA4.
- Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim (PYD).
- Mewn ysgolion penodol, parhau i wella ansawdd arweinyddiaeth ac arbenigeddau adrannol yn y pynciau craidd.

**<u>CA5</u>**

| Dangosyddion | Gwynedd 2017 | Gwynedd 2018 | + / - 2017/2018 | Cymru 2018 |
|---|---|---|---|---|
| % sy'n cyflawni L3 | 97.6 | 97.4 | -0.2 | 97.6 |
| % sy'n cyflawni 3 o raddau A*-A | 13.1 | 14.4 | +1.3 | 13.4 |
| % sy'n cyflawni 3 o raddau A*-C | 59.4 | 60.4 | +1.0 | 58.1 |

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Cynnydd mewn perfformiad mewn dau o'r tri phrif ddangosydd a'r ddau yn rhagori ar berfformiad Cymru.

**Meysydd Gwella**

- Parhau a'r gwelliannau drwy wneud defnydd mwy effeithiol o ALPS fel offeryn gosod targedau a monitro cynnydd.

**PROFFIL AROLYGIADAU**

Mae'r proffil arolygiadau ar draws y sectorau yng Ngwynedd yn rhagorol, **ac, yn ôl Estyn, 'yn rhywbeth y dylai'r sir ymhyfrydu ynddo'**. Yn ystod blwyddyn addysgol 2017-2018, bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol [14 cynradd, 4 uwchradd ac 1 arbennig].

Mewn 16 ysgol [%], dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol, ac yn y tair ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys [Adolygiad Estyn].

Nodir isod y proffil barnau ar draws y 5 maes arolygu:

| Proffil Cynradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 93.3% | 6.7% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 26.7% | 73.3% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 86.7% | 13.3% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 6.7% | 86.6% | 6.7% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 6.7% | 80.0% | 13.3% | 0% |

| Proffil Uwchradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 50.0% | 50.0% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |

**CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL**

Mae proses a matrics cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Mae lliw'r categoreiddio yn nodi lefel y cymorth sydd ei hangen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch. (Yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys.

| **Categori Cymorth Gwyrdd** |
|---|
| Mae ysgol yn y category hwn yn gallu derbyn **hyd at** 4 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her |

| **Categori Cymorth Melyn** |
|---|
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn **hyd at** 10 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her |

| **Categori Cymorth Melyngoch** |
|---|
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn **hyd at** 15 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her |

| **Categori Cymorth Coch** |
|---|
| Mae ysgol yn y categori hwn yn gallu derbyn **hyd at** 25 diwrnod o amser Ymgynghorydd Her |

Nodweddion da

- Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn pennu natur y pecyn cymorth pwrpasol i'w ddarparu i bob ysgol yn ôl yr angen, a all olygu y caiff diwrnodau ychwanegol o gymorth eu neilltuo. Gallai amrywiaeth o ddarparwyr ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn.
- Ers 2014/15, gwelir cynnydd o 22% yn y canran o ysgolion Gwynedd sydd yn cael eu gosod yn y categori cefnogaeth *Gwyrdd***.**
- Ers 2014/15, gwelir cynnydd o 24% yn y canran o ysgolion Gwynedd sydd yn cael eu gosod yn y categori cefnogaeth *Gwyrdd/Melyn*.
- Ers 2014/15, gwelir gostyngiad o 20% yn y canran o ysgolion Gwynedd sy'n cael eu gosod yn y categori cefnogaeth Melyngoch/Coch.

| **Categori** | **Gwyrdd** | | | **Melyn** | | | **Melyngoch** | | | **Coch** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 14/15 | 15/16 | 16/17 |
| **Canran** | 9% | 16% | 19% | 62% | 67% | 68% | 26% | 15% | 11% | 3% | 3% | 2% |

| **Categori** | **Gwyrdd** | **Melyn** | **Melyngoch** | **Coch** |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | 17/18 | 17/18 | 17/18 | 17/18 |
| **Canran** | 31% | 60% | 8% | 1% |

**Y GYMRAEG**

**SIARTER IAITH HWB GWYNEDD A MÔN**

- Mae'r Siarter Iaith bellach wedi ei brif-ffrydio fel rhan o waith craidd y Cyngor.
- Yn ystod 2017/18, bu i bob ysgol gynradd yng Ngwynedd weithredu'r Siarter Iaith yn ôl yr arfer, gan dderbyn cefnogaeth ac arweiniad yn ôl yr angen gan y Cydlynydd a'r Cyd-gysylltwyr Iaith dalgylchol.
- Bu i bob ysgol gwblhau'r gwe iaith ym Medi 2017, ac yna yn nhymor yr haf 2018 er mwyn gallu mesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y flwyddyn addysgol.
- Bu i bob ysgol dderbyn cefnogaeth i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r Siarter iaith a data'r gwe iaith, gan gynnal nifer o weithgareddau ar lefel ysgol unigol ynghyd â chydweithio dalgylchol yn enw'r Siarter Iaith.
- Ar 12 Mehefin 2018, cynhaliwyd cyfarfod gyda chyflwyniad gan Mr Dyfrig Elis AEM, 'Arolygu'r Iaith Gymraeg'. Pwrpas y cyfarfod oedd codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth allweddol o ddisgwyliadau a gofynion cyfredol Estyn parthed y Gymraeg. Roedd y gwahoddiad hwn yn agored i benaethiaid, aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, Llywodraethwyr ac aelodau etholedig.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Ail-lansio'r Siarter Iaith i ysgolion cynradd Gwynedd.
- Cefnogi ysgolion cynradd Gwynedd gydag unrhyw ddisgwyliadau a threfniadau newydd a ddaw yn weithredol yn sgil datblygiadau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.
- Casglu a lledaenu arfer da.

**STRATEGAETH IAITH UWCHRADD**

Ein gweledigaeth yw cyfundrefn o ysgolion uwchradd blaengar, rhagorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ymhob agwedd o'u gwaith.

Pwrpas y Strategaeth Iaith Uwchradd yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd, gan hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i ddatblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau.

Nodweddion da

- Disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 i gwblhau'r gwe iaith i fesur eu defnydd cymdeithasol a chwricwlaidd o'r Gymraeg.
- Pob ysgol wedi datblygu cynlluniau gweithredu unigol mewn ymateb i'r Strategaeth Iaith.
- Pob Cyngor Ysgol/Cyngor Iaith yn cynllunio a chynnal gweithgareddau PCAI.
- Cefnogaeth benodol i weithlu ysgolion Tywyn a Friars ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Yn sgil cynlluniau a weithredwyd yn Ysgol Uwchradd Tywyn i hyrwyddo'r Gymraeg, bu i'r ysgol dderbyn Gwobrau Daily Post ar gyfer yr 'Ysgol Gorau yn y Gymuned' a hefyd 'Ysgol Uwchradd y Flwyddyn'. Bu i Adran Addysg Prifysgol Bangor gynnal gwerthusiad manwl o'r cynlluniau a weithredwyd yn Ysgol Uwchradd Tywyn; dyma ddywed casgliadau'r adroddiad:

*"...mae'r pum athro yn sicr wedi elwa dros gyfnod byr iawn, ac mae ffrwyth eu hymdrech i'w weld yn dechrau cydio ar lawr dosbarth. Mae'r ethos o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gryf iawn o fewn yr ysgol ac allan yn y gymuned, ac mae'r ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r her yn*

*amlwg ymysg staff yr ysgol a pherchnogion busnesau lleol. Mae cynnwys y gymuned yn eu hymdrechion yn gam allweddol, ac yn un sydd yn sicr o dalu ar ei ganfed maes o law. Y sialens fydd sicrhau bod yr un brwdfrydedd yn cydio, ac yn cael ei raeadru ymhlith y disgyblion (gan dderbyn y bydd wastad ambell un na fydd yn barod i ymgymryd â'r her), a bod y brwdfrydedd hwnnw yn troi'n ddefnydd digymell a naturiol o'r iaith o fewn eu rhyngweithiadau cymdeithasol."*

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Pob ysgol uwchradd i dderbyn cefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld â'u cynlluniau gweithredu unigol, gyda sylw i'r cyfrwng ar draws y cwricwlwm.
- Cynllun Gweithredu yn weithredol i gefnogi gweithlu Ysgol Friars i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Ystyried negeseuon o waith ymchwil cyfredol i fethodoleg dysgu ac addysgu dwyieithog gan raeadru'r negeseuon rheiny i weithlu'r ysgolion uwchradd.
- Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.
- Sesiynau Seicoleg Iaith: Hyfforddi'r Hyfforddwr yn cael eu cynnal mewn nifer o ysgolion ar draws y sir.

**CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y dogfennau canlynol:

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Cymraeg 2050
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)
- Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21
- Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

Nodweddion da

- Mae perfformiad yn y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn gyson dda dros gyfnod treigl
- Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.
- Awdit o Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg yng Ngwynedd wedi ei gynnal
- Cynlluniau peilot i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg yn Ysgol Uwchradd Tywyn wedi profi llwyddiant

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Atgyfnerthu egwyddorion a methodoleg trochi'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i sicrhau pontio effeithiol rhwng CA2 a CA3
- Rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith yn CA4

- Parhau i gefnogi gweithlu ein hysgolion uwchradd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg

**CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD**

Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol.

Nodweddion da

- Gwelir o'r tabl isod bod niferoedd disgyblion a fynychodd y Canolfannau Iaith yn 2017/18 bron yn cwrdd â'r capasiti, fel y dengys y tabl isod:

| **TYMOR** | **Dolgellau** | **Llangybi** | **Maesincla** | **Penrhyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **CAPASITI** | **8** | **16** | **16** | **16** | |
| Gwanwyn 2017 | 10 | 13 | 13 | 15 | 51 |
| Haf 2017 | 7** | 10 | 17 | 17 | 51 |
| Hydref 2017 | 8 | 13 | 17 | 16 | 54 |
| **Cyfanswm 2017** | **25** | **36** | **47** | **48** | **156** |
| Gwanwyn 2018 | 6 + 1* | 14 | 15 | 11 | 47 |
| Haf 2018 | 5 ** / 7 * | 8 | 16 | 14 | 45 |

- Bu i Estyn gynnal Arolwg Thematig 'Y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog', ac fel rhan o'r arolwg hwn, bu iddynt ymweld â dwy Ganolfan Iaith yng Ngwynedd (Llangybi ac Eifionydd). Dyma ddywed Adroddiad Estyn:
  *Mae gan y canolfannau iaith yr ymwelwyd â nhw yng Ngwynedd drefniadau effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog heb fawr ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd i garfan newydd o ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt fedru cyfranogi'n llawn yn eu haddysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir. Nid oes trefniadau cystal yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill.*

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Cefnogi egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen.
- Parhau i ddatblygu gwefan y Canolfannau Iaith.
- Cefnogi'r staff i fanteisio ar hyfforddiant pwrpasol a sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Adolygu'r cwrs cymhathu i rieni.

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Mae'r Gwasanaeth Integredig Anghenion Dysgu a Chynhwysiad, sydd yn Wasanaeth ar y Cyd gyda Chyngor Môn, yn weithredol ers Medi 2017.

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chydgynllunio'r ddarpariaeth;
- sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- cyfathrebu gwell a mwy trefnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

Nodweddion da:

- 70 o Gymorthyddion ar draws Gwynedd a Môn yn dilyn cwrs Cymorthyddion Llythrennedd Emosiynol (Emotional Literacy Support Assistant/ELSA) ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth lles emosiynol o fewn Ysgolion.
- System Cynllun Datblygu Unigol electroneg wedi ei ddatblygu gan Cynnal, yn cael ei pheilota yn llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith yr Ysgolion a'r Gwasanaeth yn sylweddol.
- Prosiect Ysgolion sy'n Meithrin yn parhau i weithredu ac arddangos canlyniadau positif o fewn yr Uwchradd a'r Cynradd.
- Gwaith Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol yn gwneud cynnydd da ac yn parhau i sicrhau fod Gwynedd yn barod am y ddeddfwriaeth ADY newydd ym mis Medi 2020.
- Strategaeth Hyfforddiant y gwasanaeth wedi cael ei gosod, a'r hyfforddiant wedi cychwyn cael ei gyflwyno. Er enghraifft mae pob dalgylch yn derbyn Hyfforddiant Cyfathrebu Gyfeillgar yn ystod yr Hanner Tymor Hwn.
- Trefniadau mynediad i wasanaeth wedi eu symleiddio ymhellach.
- Defnydd o TOMs (Therapy Outcome Measures) yn cael ei ymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach.
- Trefniadau ar gyfer monitro achosion ffiniol o ran cymorth mewn lle fel rhan o waith rhesymoli defnydd Cyllid ADY Integreiddio. Mae hyn hefyd yn rhan o waith Gwedd 2 sydd yn parhau.
- Strwythur Rheolaethol y Gwasanaeth wedi ei adolygu a'i rôl mewn lle.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Gan fod y Llywodraeth wedi rhyddhau'r Cod Ymarfer Drafft ar gyfer gweithredu'r Ddeddfwriaeth ADY o Fedi 2020, byddwn yn ffocysu ar:
    - Ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol
    - Cysondeb mewn darpariaeth Ysgol, a rôl y Cydlynydd ADY
    - Datblygu trefniadau gweithio gyda'r Sector Ôl-16 a Blynyddoedd Cynnar, a'r Gwasanaeth Iechyd
    - Edrych ar y dulliau Cyllido ADY mewn paratoad at y ddeddfwriaeth
- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu:
    - Strategaeth Hyfforddiant Ysgolion a staff - uwch-sgilio mewn paratoad at y ddeddfwriaeth
    - Dulliau tracio cynnydd ac effeithiolrwydd ymyraethau
    - Ymestyn yr ystod ymyraethau arbenigol sydd yn cael eu cynnig.

**DIOGELU**

Nodweddion da

- Ysgolion Gwynedd wedi derbyn pecyn diogelu cyfredol a chynhwysfawr sydd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da a thempledi parod a pholisïau.
- Wedi sicrhau presenoldeb mewn pob cyfarfod Rhan 4, lle roedd honiadau yn erbyn staff o fewn ysgolion Gwynedd.
- Hyfforddiant Lefel 2 wedi ei ddarparu ddwy waith bob mis drwy gydol y flwyddyn. Hyfforddiant Lefel 1 wedi ei ddarparu i holl staff ysgolion gan staff sydd wedi eu penodi fel swyddogion dynodedig amddiffyn plant o fewn ysgolion.
- Hyfforddiant mewn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad amhriodol gor-rywiol wedi ei ddarparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod mis Tachwedd 2018.
- Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i wella ymarfer yr Adran yng nghyswllt cynadleddau achos.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Rhyddhau capasiti ein Swyddog Diogelu Plant Mewn Addysg i gefnogi mwy o ysgolion Gwynedd.
- Casglu adroddiad blynyddol diogelu mewn ffordd fwy hwylus gan sicrhau ymateb pob ysgol yng Ngwynedd.
- Adolygu ein pecyn hyfforddiant mewn ymateb i ganllawiau newydd diogelu plant mewn addysg.
- Sefydlu trefn o ymweliadau gwirio ansawdd blynyddol o drefniadau diogelu pob ysgol yng Ngwynedd.

**BLYNYDDOEDD CYNNAR**

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2018 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 64 lleoliad ar draws y sir. Mae'r holl leoliadau, gan gynnwys y rhai gan y mudiadau gwirfoddol, yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Nodweddion da:

- Athrawon Cefnogi Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar:
  - Llythrennedd corfforol
  - Hybu ymddygiad cadarnhaol
  - Rhigymau Rhythm a Cherddoriaeth
  - Defnydd o'r gofod allanol
- Nifer y lleoliadau wedi derbyn adroddiadau Estyn da
- Rhai lleoliadau wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grantiau i ddiwygio eu darpariaeth a'r Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn £2.3 miliwn i wella cyfleusterau gofal plant ar safleoedd ysgol.
- Nifer o leoliadau meithrin wedi cael ei symud yn ddiweddar i fod ar safleoedd ysgol sef Porthmadog, Pwllheli a Harlech. Hyn yn hwyluso trefniadau i rieni ac yn helpu i bontio'r plant yn fwy effeithiol
- Penodwyd Cydlynydd ADY Blynyddoedd Cynnar i drawsnewid y trefniadau i gwrdd â gofynion y Bil ADY newydd. Bydd y gwaith o beilota'r newid yn digwydd yn ardal Bangor i ddechrau
- Cydweithio'n agos gyda Dechrau'n Deg a rhannu arferion da rhwng yr athrawon Dechrau'n Deg a'r athrawon Cyfnod Sylfaen
- Penodwyd y tîm athrawon cefnogi Cyfnod Sylfaen i strwythur parhaol gydag un o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant Estyn ac wedi arolygu mewn un lleoliad.
- 10 lleoliad yn rhan o'r prosiect Grwpiau Iaith drwy'r arian GDD

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Datblygu arbenigeddau staff
- Ymbaratoi lleoliadau ar gyfer y drefn newydd o arolygu Estyn ar y cyd a AGC o Ionawr 2019.
- Hyfforddi a diweddaru'r lleoliadau ar y Cwricwlwm Newydd - 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes
- Datblygu trefniadau o ran Llythrennedd corfforol ym mhob lleoliad gan ddiweddaru'r drefn cynllunio ac asesu i sicrhau cynhwysiad llythrennedd corfforol ymhob lleoliad. Datblygu pecynnau cartref i'r teuluoedd.
- Trawsnewid y trefniadau ADY yn y Blynyddoedd Cynnar. Hyfforddi a diweddaru lleoliadau ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Adolygu gweithdrefnau i gyfarch gofynion y canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed yng Nghymru.
- Adolygu Trefniadau gweithredu'r proffiliau CS gan sicrhau trosglwyddo effeithiol gan Dechrau'n Deg ac i'r ysgolion

**Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**

Mae gwaith moderneiddio addysg y Sir wedi parhau i gyfrannu'n llwyddiannus at y gyfundrefn addysg ac wedi denu dros £50m ers 2012. Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn gyfrifol am sicrhau fod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu addysg yn alinio gydag anghenion addysg y Sir ar gyfer y dyfodol. Mae'r Rhaglen yn un uchelgeisiol iawn sydd yn anelu i drawsnewid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ysgolion o safon uchel gydag amgylchedd ddysgu sy'n cefnogi addysg ragorol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i ddatblygu cyfundrefn addysg a fydd yn cyfoethogi profiadau dysgu. Bwriad yr Adran Addysg yw cynllunio'n strategol fel bod y math iawn a'r nifer o ysgolion wedi'u lleoli yn y mannau cywir, yn ogystal ag uwchraddio safon adeiladau ysgol i greu ystâd sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y Rhaglen yn parhau gydag ymroddiad llawn i wireddu'r weledigaeth bresennol i *"cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."*

Prif nodau'r Rhaglen ydy sicrhau fod y rhaglen waith presennol yn parhau i gyrraedd y meini prawf a osodwyd i,

- gyfrannu at wireddu amcanion yr egwyddorion addysg addas i bwrpas i sicrhau cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw, mwy o amser digyswllt i benaethiaid cynradd a dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- weithredu proses o ymgynghori gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid yn unol ag anghenion y broses statudol, gyda chyfathrebu clir;
- weithredu trefn effeithiol ar gyfer cyfathrebu gydag adrannau perthnasol y Cyngor, monitro a gwerthuso gweithgareddau;
- ddarparu nodau'r Rhaglen i sicrhau amodau arweinyddiaeth sy'n rhoi amser digonol i benaethiaid arwain, amgylchedd dysgu'r plentyn a chyflwr adeiladau gyda'r amodau gorau posibl, pellter teithio rhesymol i blant a rheolaeth fwy effeithiol o'r adnoddau addysgol yn cynnwys lleihau cost y pen er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian;
- sicrhau cynnydd yn y broses o gwblhau'r gwaith adeiladu a sefydlu'r ysgolion sydd yn rhan o'r band cyllidol cyntaf,
- gwblhau gwaith cefndirol a diweddaru data craidd y maes i fedru darparu gwybodaeth angenrheidiol i uwch swyddogion er mwyn medru ymateb yn rhagweithiol i sefyllfaoedd fel maent yn codi

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Cwblhau amcanion prosiect Bangor, sydd yn cynnwys buddsoddiad gwerth £12.7 miliwn. Y prif nodau bydd i adeiladu ysgol newydd a fydd yn cynyddu capasiti Ysgol Garnedd i 420 a chynnig lle i ddisgyblion ysgolion Coedmawr a Glanadda yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni; cynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 gan hefyd manteisio ar y cyfle i wella adnoddau cymunedol.
- Sicrhau fod y cerrig milltir angenrheidiol yn cael eu cwblhau i alluogi Ysgol Godre'r Berwyn i agor yn swyddogol ar 1 Medi 2019
- Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas, cymhorthi waith yr Adran Addysg i wireddu'r weledigaeth i ddatblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain
- Sicrhau fod trefniadau'r Tîm Moderneiddio wedi eu diweddaru i gyd fynd â newidiadau yn y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r fersiwn diwygiedig o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

(011/2018) a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig.

- Paratoi, cynllunio a rheoli prosiectau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o gais Band B y Cyngor gan sicrhau fod yr adnodd priodol ar gael i fedru gwireddu'r gwaith presennol ac ar gyfer y dyfodol.
- Cyflwyno achosion busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddenu'r arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cynnwys ym Mand B.
- Cyd weithio gydag adrannau perthnasol i baratoi ceisiadau ychwanegol i ddenu arian ar gyfer elfennau blynyddoedd cynnar a chymunedol.
- Cymhorthi gyda chynlluniau arweinyddiaeth i alluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni eu llawn botensial
- Adnabod methodoleg a chynnal asesiadau addasrwydd o ysgolion y sir.
- Ymgymryd â phrosesau i fonitro'r buddion yn dilyn gwireddu'r prosiectau i asesu os ydynt wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bydd gofyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r buddion ac yn cael eu nodi'n barhaus.

**Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn**

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner strategol mewn fframwaith Consortiwm sydd â throsolwg cyflawn o faes addysg ôl-16 ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Ynghyd â Gwynedd, sy'n bartner arweiniol, mae 3 phartner strategol cyflawn arall sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac ysgolion uwchradd yr ardal sydd â 6ed dosbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu i benderfyniadau strategol lefel uchel gael eu gwneud ar bob agwedd sy'n effeithio ar addysg ôl-16.

Mae gwaith y Consortiwm  yn cwmpasu:

- Hwyluso rhwydwaith o ddarpariaeth a chyrsiau ôl-16 o safon mewn lleoliadau dysgu ar draws ardal y Consortiwm
- hwyluso trafnidiaeth ar gyfer y cyrsiau
- Rheoli a chydlynu rhwydwaith 14-19 ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn
- Arwain ar gynllun Seren i ymestyn profiadau i ddysgwyr mwyaf abl a thalentog
- Hwyluso grŵp proffesiynol o benaethiaid 6ed dosbarth

Yn ogystal â sicrhau cysondeb, llwybrau clir ac ansawdd ragorol i'r dysgwyr gan osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth a systemau mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu'r gost o gyflogi staff i arwain ar, ac i weinyddu'r holl elfennau perthnasol.

Mae'r gwaith y Consortiwm yn cael ei fonitro gan Fwrdd Arweiniol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Brif Swyddogion y Sefydliadau Partner a chaiff ei gadeirio gan Ddeilydd Portffolio Addysg Gwynedd.

**TRAC**

Mae TRAC 11-24 yn brosiect sy'n cefnogi pobl ifanc 11-24 oed nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg ac mewn perygl o fod yn NEET (dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).

Nod y prosiect yw lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11-24 oed sydd mewn perygl uchel o fod yn NEET yng Ngogledd Cymru drwy amrediad o ymyraethau a fydd yn ategu at ac nid yn dyblygu gwasanaethau prif lif.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno gan dîm ar draws gogledd Cymru sy'n defnyddio ymyraethau fel:

- Cwnsela – Cwnselwyr a Gweithwyr Iechyd Meddwl
- Lles / Presenoldeb – Gweithwyr Cefnogaeth Addysgol, Gweithwyr Lles, Swyddogion Cefnogi Presenoldeb, Sesiynau Un i Un, Gweithwyr Ieuenctid, Chwaraeon ac Iechyd, Cymdeithasol ac Addysg a Chefnogaeth a Datblygiad
- DPS – Cyrsiau a Lleoliadau Gwaith
- Gyrfa Cymru – Ysgogwch eich Dyfodol, Sesiynau Unigol a Sesiynau Grŵp

Bydd person ifanc sy'n cymryd rhan yn manteisio ar gefnogaeth lles ac iechyd, a fydd yn gymorth iddynt ymgysylltu ag addysg. Mae'n rhoi mynediad iddynt at gwricwlwm amgen, a fydd yn eu galluogi i gymryd cymwysterau achrededig a gysylltir â chyfleoedd y farchnad lafur lleol a bydd hefyd yn gwella'u cyrhaeddiad.

**ARWEINYDDIAETH**

Nod y cynllun arweinyddiaeth yng Nghynllun y Cyngor yw galluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni ei lawn botensial. Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr angen *"i weithio ar y cyd i greu* diwylliant *sy'n galluogi arweinwyr i ffynnu; ac yn medru ysbrydoli a dylanwadu plant ar bob lefel".*

Nodweddion da

- Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu gydag arweiniad oddi wrth gydlynydd profiadol sydd yn rhan o'r gyfundrefn bresennol.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cysondeb ar gyfer profiad a chyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu

Yn ogystal â'r prosiect yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Awdurdod yn cynllunio, mewn cydweithrediad gyda GwE, i roi trefniadau hyfforddiant perthnasol mewn lle i gefnogi datblygiad gyrfaoedd arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion. Fel rhan o waith y prosiect hwn, anelir i adnabod y rhinweddau, ymddygiadau a'r nodweddion angenrheidiol ar gyfer unigolion er mwyn eu galluogi i fod yn arweinwyr llwyddiannus ar gyfer cyfundrefn addysg sydd yn debygol o newid yn y dyfodol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Cydweithio'n agos rhwng yr Awdurdod, llywodraethwyr a phenaethiaid i sicrhau fod y gyfundrefn yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod yna blethu amlwg rhwng cynllun datblygu arweinyddiaeth hwn a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cabinet, er sicrhau bod gennym staff priodol ar gyfer ein cyfundrefn.
- Sicrhau drwy benodi (arbenigwr mewnol) triongli effeithiol rhwng cyfeiriad arweinyddiaeth yn genedlaethol, rhanbarthol, ac yn sirol yng Ngwynedd

.

**UNED DATA ADDYSG**

**Pwrpas**

Sicrhau isadeiledd data addysg gyflawn.

**Nodweddion da'r gwasanaeth**

- Yr Uned Data wedi ei sefydlu
- Datblygiad a mewnosod system CDU ar draws dwy Sir
- Gweithredu ar draws dau Awdurdod
- Gwell dealltwriaeth a defnydd o ddata sydd ar gael
- Wedi cwblhau dadansoddiad data Cyllid Integreiddio
- Dadansoddiad Arolwg Boddhad y Gwasanaeth ADY & CH
- Cysoni prosesau gwaith ar draws ddau Awdurdod
- Rhoi ein harbenigedd ar waith ar gyfer y prosiect gofal plant 30 awr (Gwynedd, Môn a Chonwy)
- Gwell cefnogaeth i systemau Addysg - gweithio ar draws gwasanaethau (Trafnidiaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Datblygu a chefnogi systemau RAG ysgolion (Gwasanaeth ADY & CH)
- Gwella safon ac ansawdd data
- Mwy effeithiol o ran ymateb i geisiadau gwybodaeth
- Cydweithio yn Rhanbarthol
- Cwblhau hyfforddiant GDPR

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Parhau i ddatblygu, mewnosod a chefnogi'r system CDU
- Prosiect trawsnewid system a phrosesau mynediad ar-lein yn ogystal â gwella'r elfen gofal cwsmer o'r broses
- Gwella defnydd FFT a Tableau
- Asesiad 'GAP' o systemau gwybodaeth y Gwasanaeth ADY & CH
- Parhau i wella ansawdd data
- Gwella meysydd 'Gwybodaeth Ychwanegol ' PLASC - h.y. sicrhau eu bod yn gyfredol yn SIMS ysgolion cynradd drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na 'dim ond ar gyfer PLASC'
- Ail sefydlu Fforymau Mynediad

## GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION

**Pwrpas**

- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i benaethiaid, llywodraethwyr, clercod llywodraethwyr ysgolion Gwynedd
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i gyrff llywodraethol ar y drefn gyfansoddiadol berthnasol i lywodraethu ysgolion a'r gofynion statudol sydd ynghlwm â'r maes
- Cynnal rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr
- Cynorthwyo ac annog ysgolion i ddefnyddio'r drefn hunan arfarnu (cenedlaethol) ar gyfer Llywodraethu
- Paratoi deunyddiau hyfforddi/arferion da a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid
- Cynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr
- Sicrhau bod cofnodion holl gyfarfodydd y Cyrff Llywodraethol yn cael eu monitro a'u ffeilio'n electronig yn y modd priodol
- Monitro bod ysgolion yn cynnal cyfarfod yn dymhorol
- Cefnogi Cyrff Cysgodol ysgolion newydd
- Cefnogi'r Cyrff Llywodraethol mewn materion is-baneli – gormodedd, cwynion

**Nodweddion da'r gwasanaeth**

- Cynnig cyrsiau yn lleol yn ôl y gofyn i Lywodraethwyr. Cyd-weithio gydag ymgynghorwyr GwE ar gyfer cynnig cyrsiau Deall Data. Ynghyd â chefnogaeth i ysgolion sydd angen cynhaliaeth
- Cynnig cyrsiau mandadol a chyrsiau sy'n annog arferion da i lywodraethwyr e.e. cyrsiau delio gyda Gormodedd
- Annog defnydd o'r cyrsiau ar-lein sydd wedi ei sefydlu ar y cyd â Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Gogledd Cymru.
- Uwchraddio'r Bas Data Llywodraethwyr yn barhaus fel bod modd cadw cofnod o holl lywodraethwyr pob ysgol yn gyfredol ynghyd â'u manylion swyddogaeth, DBS a chyrsiau. Gofalu ei fod yn cyd-fynd a gofynion y Ddeddf Diogelu Data newydd GDPR 2018.
- Parhau i wella ansawdd gwaith y llywodraethwyr ar gyfer herio penaethiaid fel eu bod yn deall ystyr data a deall gwir sefyllfa safonau mewn ysgol
- Datblygu rôl y llywodraethwyr i ymgymryd rôl fwy strategol yn y cyfarfodydd
- Annog hunan arfarnu gwaith y llywodraethwyr. Hybu'r defnydd o'r drefn hunan arfarnu cenedlaethol.
- Clercod - tîm newydd o glercod (wedi eu hyfforddi) yn y pŵl clercio'r Awdurdod ynghyd â chlercod wrth gefn pan fo angen. Prinder yn ne'r sir yn parhau.
- Ffederasiwn Llywodraethwyr Gwynedd - Y Ffederasiwn yn parhau i gynnal un cyfarfod bob tymor. Eitemau sefydlog ac arbenigwyr meysydd yn cael gwahoddiad, cynnig i bob ysgol anfon cynrychiolydd.

**Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf**

**Tîm:**

- Parhau gyda threfniadaeth y rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr.
- Paratoi deunyddiau hyfforddi a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid - gosod yr wybodaeth ar safle we Llywodraethwyr.

- Cynnig cymorth pellach i ysgolion i lenwi seddi gweigion a hybu aelodaeth o leiafrifoedd ethnig yng Ngwynedd
- Cynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr gan gynnwys y broses Gormodedd
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol
- Uwchraddio'r system Bas Data Llywodraethwyr a chydweithio gyda TG er mwyn hybu hunan wasanaeth ar gyfer y Bas Data fel bod clercod llywodraethol yr Awdurdod yn gallu mewnbynnu gwybodaeth yn uniongyrchol.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth i'r hunan arfarnu gan ddefnyddio'r templed cenedlaethol. Angen i bob ysgol gynnal hunan arfarniad a'i gadw'n gyfredol. Mae system dechnegol i gynnal yr hunan arfarniad ar gael gan Wasanaeth Llywodraethwyr Cymru am bris.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r system gyfrifiadurol ar gyfer cadw cofnod o Bolisïau a Chanllawiau rheolaethol ysgol. Datblygu'r system hon i gadw cofnod o ba ysgolion sydd wedi derbyn pa bolisi.
- Parhau i gefnogi Corff Cysgodol ysgol newydd Cylch y Bala a chyd-weithio gyda Thîm Moderneiddio Ysgolion Gwynedd.

**UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAU**

**Pwrpas**

Mae'r Uned yn darparu amrywiaeth o waith cefnogol i holl ysgolion y sir. Mae hyn yn amrywio o roi cyngor ac arweiniad parthed telerau ac amodau gwaith staff ysgolion i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion y sir, prosesu amserlenni ar gyfer tâl, creu cytundebau, gwirio cefndir troseddol pob aelod o staff, cynghori athrawon ynglŷn â'u pensiwn a phrosesu taliadau diswyddo.

**Nodweddion da'r gwasanaeth**

- Staff ein hysgolion yn parhau i dderbyn eu tâl yn gywir ac ar amser yn fisol
- Fel adran ein bod yn parhau i gadw at lefel gwasanaeth i'r ysgolion yn deg ac yn gyson i bob ysgol, drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Cael cytundebau holl staff ysgolion allan yn unol â gofynion statudol, sef o fewn wyth wythnos o gychwyn mewn swydd.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Cyd-weithio gyda'r Uned Gefnogi Addysg ar greu rhestr Athrawon Llanw sydd yn gwneud hi'n haws i'w trefnu i fynd i'r ysgolion.
- Parhau i gefnogi tîm 'Ffordd Gwynedd' ar symud ymlaen i brosesu amserlenni tâl drwy'r system hunan wasanaeth.
- Annog penaethiaid i wneud yn siŵr fod pob staff dysgu a Chymorthyddion Cefnogaeth Dysgu wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ac wedi cwblhau'r broses DBS cyn eu bod yn cychwyn mewn ysgol.
- Cyd-weithio gyda'r uned Adnoddau Dynol ar greu datganiad ar gyfer Athrawon.

**GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU**

**Pwrpas**

Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lan a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyrraedd eu potensial.

**Nodweddion da'r gwasanaeth**

- Bwydlen cinio ysgolion cynradd ac arbennig yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth)(Cymru) 2013'
- Bwydlen cinio ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'
- Cynnal sesiynau blasu/maeth o fewn ysgolion i annog mwy o ddisgyblion i fwyta cinio ysgol
- Cynnig i rieni sydd yn darparu bocs bwyd i'w plant os ydynt eisiau cinio rai dyddiau o'r wythnos
- Cynnig cinio themâu i'r ysgolion
- System talu ar lein i rieni sydd yn hwyluso ffordd i dalu am wahanol wasanaethau i ysgolion megis cinio, tripiau, gwersi offerynnol ayb
- Cynnig i bob ysgol ble mae cynllun gofal 30 awr yn weithredol gan gylch meithrin i gynnig cinio ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth
- Cadw ysgolion yn lân ac yn ddiogel

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf**

- Darparu bwydlen cinio gwahanol i ysgolion cynradd ac arbennig ar gyfer tymor yr Haf a fydd yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013
- Arwain ar gynllun SHEP (Summer Holidays Enhancement Programme) i 3 ysgol o fewn Gwynedd
- Adolygu lefelau salwch staff arlwyo a glanhau ysgolion
- Cynorthwyo ysgolion sydd heb fynd yn gwbl ddi-arian hyd yma i gyflawni hynny
- Parhau i annog rhieni ddewis cinio ysgol ar gyfer eu plant
- Gweithredu a chynorthwyo ysgolion i ostwng lefelau dyledion cinio rhieni
- Annog Ysgolion Uwchradd i fynd yn ddi-arian

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I PWYLLGOR ADDYSG A ECONOMI**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 21 Mawrth 2019 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd Cyngor Gwynedd |
| **Awdur:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru – Diweddariad Cynnydd |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno diweddariad ar y Cynllun Twf i Ogledd Cymru, ynghyd a chyflwyno y Cynllun Gweithredu Drafft.

1.2 Pwrpas y Cynllun Gweithredu Drafft (sydd i'w gweld yn Atodiad 1) yw pennu'r trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru - yn unol â gofynion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn cytuno ar Benawdau'r Telerau. Gwnaed y cais am Gynllun Gweithredu tua diwedd mis Tachwedd 2018.

1.3 Fe'i paratowyd yng nghyd-destun dogfen Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru, a dderbyniodd gefnogaeth a chymeradwyaeth partneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Hydref 2018.

**2. CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT**

**2.1 Cydrannau Allweddol o fewn y Cynllun Gweithredu**

**2.1.1** Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau lefel uchel a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf ynghyd â manylion am natur pob prosiect a ariennir drwy'r Cynllun Twf, eu deilliannau a'u buddion, a'r amserlen ddangosol a rhyng-ddibyniaethau'r prosiectau.

2.1.2 Mae'n amlinellu gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r strwythurau sy'n ei gefnogi, yn cynnwys llywodraethu'r rhaglen, rôl y sector preifat, ymgysylltiad â rhanddeiliaid a gweithredu'r rhaglen. Hefyd, mae'n nodi'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso.

**2.2 Amlen Ariannu'r Cynllun Twf**

2.2.1 Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ill dwy wedi neilltuo £120 miliwn yr un er dibenion Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2.2.2 Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gwneud yr achos dros swm ychwanegol o £20 miliwn gan y naill lywodraeth a'r llall er mwyn cefnogi ariannu pecyn o brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r heriau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu, yn benodol yng ngoleuni'r

cyhoeddiad diweddar gan Horizon y bydd gwaith ar yr Orsaf Bŵer Niwclear newydd, Wylfa Newydd, (sydd werth £20bn) yn cael ei atal am gyfnod amhenodol.

2.2.3 Bydd yr arian ychwanegol yn caniatáu i ddau brosiect strategol allweddol gael eu hehangu:

- **Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar** - cynyddu cyfraniadau Llywodraeth y DU i'r Cynllun Twf o £10m i £30m;
- **Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol** - cynyddu cyfraniadau Llywodraeth Cymru i'r Cynllun Twf o £52.5m i £72.5m.

2.2.4 Mae cyd-fuddsoddiad sylweddol a chefnogaeth gan y sector preifat i'r ddau Brosiect.

2.2.5 Mewn llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2018 i Gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, cadarnhaodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai "*Llywodraeth Cymru yn cyfateb unrhyw gynnydd yn y cyllid gan Lywodraeth y DU*".

2.2.6 Mae aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru eisoes wedi pwysleisio na ddylai unrhyw drafodaethau ar "ehangu" Prosiectau o'r fath achosi unrhyw oedi gyda chyflawni'r Prosiectau eraill sydd wedi'u hadnabod o fewn y Cynllun Twf.

2.2.7 Yng ngoleuni cyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 21 Ionawr 2019 gyda Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, rydym wedi ailymweld â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Cynllun Twf yn sgil atal Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd. Caiff y penderfyniad gan Hitachi effaith argyfyngus ar ragolygon economaidd Gogledd Môn yn benodol.

2.2.8 Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae'r Cynllun Gweithredu yn ceisio:

- Cadarnhau'r gefnogaeth a'r ymrwymiad i brosiectau allweddol y Cynllun Twf a gaiff effaith economaidd a chyflogaeth uniongyrchol ar Ogledd Môn, megis prosiect Porth Caergybi, prosiect Morlais a phrosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear;
- Yng nghyd-destun dau brosiect strategol o fewn y Cynllun Twf a gaiff effaith ar economi Gogledd Môn, rhoi'r arian mwyaf ar y dechrau iddynt a'u hehangu, yn ogystal â chreu'r amodau ar gyfer twf cyflogaeth. Y prosiectau hyn (fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.2.3) yw'r 'Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar' a'r 'Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol';
- Sicrhau y bydd trefn prosiectau'r Cynllun Twf yn blaenoriaethu'r ymyraethau hynny sy'n effeithio ar Ogledd Môn.

**2.3 Camau Nesaf**

2.3.1 Mae'r ddogfen yn nodi datganiad sefyllfa Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yng nghyswllt drafftio cytundeb Penawdau'r Telerau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2.3.2 Yn amodol ar gefnogaeth i'r Cynllun Gweithredu Drafft, bydd ymgysylltiad pellach yn digwydd gyda'r ddwy Lywodraeth, gyda'r bwriad o gyrraedd cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn diwedd Mai 2019.

# CYNGOR GWYNEDD

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cynllun Gweithredu Drafft

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Drafft

# CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU
# CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT

***CYNNWYS***


| | |
|---|---|
| RHAN 1 - PWRPAS Y CYNLLUN GWEITHREDU | 2 |
| RHAN 2 - Y CYD-DESTUN | 3 |
| RHAN 3 - HERIAU A GWYBODAETH WAELODLIN | 6 |
| RHAN 4 - RHAGLENNI'R CYNLLUN TWF | 8 |
| RHAN 5 - DEILLIANNAU A BUDDION (*DYMA'R GWAHANIAETH Y BYDDWN NI'N EI WNEUD*) | 13 |
| RHAN 6 - TREFN Y PROSIECTAU (*DYMA PRYD FYDD Y CYFLAWNI YN DIGWYDD*) | 15 |
| RHAN 7 - ARIANNU'R RHAGLEN (*DYMA BETH FYDD Y GOST*) | 17 |
| RHAN 8 - PORTFFOLIO PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF (*DYMA FANYLION POB PROSIECT*) | 21 |
| RHAN 9 - SYNERGEDDAU A RHYNG-DDIBYNIAETHAU | 42 |
| RHAN 10 - GRYMUSO'R RHANBARTH | 43 |
| RHAN 11 - SGILIAU A CHYFLOGAETH | 45 |
| RHAN 12 - LLYWODRAETHU | 49 |
| RHAN 13 - COFRESTR RISG | 57 |
| RHAN 14 - CYNLLUNIO A MONITRO RHAGLEN Y CYNLLUN TWF | 58 |
| RHAN 15 - PROSES ASESU'R ACHOSION BUSNES | 61 |
| RHAN 16 - CYNLLUN YMGYSYLLTU | 62 |
| RHAN 17 - RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU | 63 |
| RHAN 18 - CYLLIDEB 2019-20 | 66 |

## RHAN 1 - PWRPAS Y CYNLLUN GWEITHREDU

Pwrpas y ddogfen hon yw pennu'r trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru - yn unol â gofynion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn cytuno ar Benawdau'r Telerau. Gwnaed y cais am Gynllun Gweithredu tua diwedd mis Tachwedd 2018.

Fe'i paratowyd yng nghyd-destun dogfen Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru, a dderbyniodd gefnogaeth a chymeradwyaeth partneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Hydref 2018.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau lefel uchel a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf ynghyd â manylion am natur pob prosiect a ariennir drwy'r Cynllun Twf, eu deilliannau a'u buddion, a'r amserlen ddangosol a rhyng-ddibyniaethau'r prosiectau.

Mae'n amlinellu gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r strwythurau sy'n ei gefnogi, yn cynnwys llywodraethu'r rhaglen, ymgysylltiad â rhanddeiliaid a gweithredu'r rhaglen. Hefyd, mae'n nodi'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn adolygu'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £120 miliwn yr un er dibenion Cynllun Twf i Ogledd Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gwneud yr achos dros swm ychwanegol o £20 miliwn gan y naill lywodraeth a'r llall er mwyn cefnogi ariannu pecyn o brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r heriau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu, yn benodol yng ngoleuni'r cyhoeddiad diweddar gan Horizon y bydd gwaith ar yr Orsaf Bŵer Niwclear newydd, Wylfa Newydd, (sydd werth £20bn) yn cael ei atal am gyfnod amhenodol.

DRAFT

## RHAN 2 - Y CYD-DESTUN

### *CYFLWYNIAD*

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cynnwys y chwe ardal Awdurdod Lleol (Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint) sydd â phoblogaeth o **690,000** o bobl. Ar hyn o bryd, mae'n cyfrannu tua £13.6 biliwn y flwyddyn i economïau Cymru a'r DU.

Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, **a baratowyd ac y cytunwyd arni gan bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Hydref 2018**, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gyfle unigryw i gynyddu swyddi a thwf yn y rhanbarth. Mae'r Cynllun Twf yn cynnig pecyn cyffrous o brosiectau arloesol a thrawsffurfiol sy'n rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â chynrychiolwyr o'r sector preifat, wedi bod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid yn y Gogledd i ddatblygu'r Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth.

Bydd cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf yn cefnogi'r rhanbarth i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi yn y rhanbarth y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Yn ogystal, byddant yn cefnogi'r rhanbarth i addasu i "rymoedd newydd" sy'n effeithio ar fusnesau, megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a ffurfiau eraill o ddigideiddio, a pharatoi ar eu cyfer. Mae ffocws yn benodol ar gefnogi arloesedd a thechnolegau carbon isel i roi hwb i gynhyrchedd.

### *EIN HUCHELGAIS*

**Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni twf glân, yn cefnogi cynnydd o 6% yn y GVA, 4,298 o swyddi newydd a chyfanswm buddsoddiad o £1bn. Bydd £551m o'r buddsoddiad uniongyrchol yn fuddsoddiad gan y sector preifat, bydd £247m yn fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r nod yw denu £280 miliwn o'r Cynllun Twf.**

Bydd y Cynllun Twf, ynghyd â chefnogaeth o raglenni ariannu eraill, yn cyflawni'r isod ar gyfer y Gogledd:

- **Adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd**, ac fel rhanbarth:
  - Byddwn wedi'n lleoli fel un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau a phrosesau carbon isel;
  - Byddwn yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, i adeiladu clwstwr gweithgynhyrchu uwch - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan byd-eang;
  - Byddwn yn ganolbwynt o ragoriaeth arloesedd a thechnoleg ac yn arweinydd wrth drosi syniadau cyffrous yn gynnyrch a gwasanaethau masnachol cryf;
  - Byddwn yn datblygu ac yn lledaenu enw da'r Gogledd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiannau seiliedig ar y tir a thwristiaeth ac yn sefydlu'n hunain yn gadarn fel prif leoliad twristiaeth antur y DU.
- **Mynd i'r afael â heriau strwythurol hirdymor a rhwystrau economaidd allweddol** yn y rhanbarth, megis trafnidiaeth, isadeiledd digidol, safleoedd ac eiddo sydd wedi'u hoedi, a materion sgiliau a chyflogaeth. Caiff hyn ei gyflawni mewn modd cydlynol, strategol ac integredig. Drwy ymyraethau o'r fath, byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso'r sector preifat i fuddsoddi mewn swyddi a thwf.

- **Hyrwyddo twf cynhwysol**, gan roi sylw i afreoleidd-dra ac anghyfartaledd cymdeithasol a gofodol o fewn y rhanbarth. Mae twf cynhwysol yn rhan ganolog o'n rhaglen Cynllun Twf, a bydd yn:
  - **Mynd i'r afael â materion sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer twf** fel yr amlinellir mewn dogfennau polisi allweddol, megis y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru, Cynllun Gweithredu Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, integredig, y gellir ei ymestyn wedi'u hadnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol yn gweithio ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gogledd - yn unol â'r nodau llesiant. Mae ein holl Raglenni yn seiliedig ar egwyddorion ymyraethau cydgysylltiedig, wedi'u cynllunio dros y tymor hir i gyflawni gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad economi'r Gogledd.

## *EIN DULLIAU GWEITHREDU*

Drwy'r Cynllun Twf, mae Llywodraethau Cymru a'r DU, y sector preifat a phartneriaid rhanbarthol yn dechrau perthynas newydd.

Mae ein dulliau gweithredu wedi'u tanategu gan ymrwymiad partneriaid i ffordd gydgysylltiedig o weithio, yn cynnwys:

- **Ymrwymiad i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n chwalu ffiniau polisïau, sefydliadau a gofodol i gyflawni gwasanaeth strategol o ansawdd a galluogi i'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf i'r rhanbarth gael eu cyflawni**. Mae'r dulliau gweithredu hyn yn cydnabod y gellir rheoli a chyflawni nifer o'r ffactorau sy'n helpu i ddatgloi twf economaidd yn well ar lefel ehangach na siroedd unigol a'r tu hwnt i ffiniau sefydliadau - ffactorau megis trafnidiaeth, sgiliau, safleoedd ac eiddo, isadeiledd digidol, cefnogi arloesedd a chyngor a chefnogaeth i fusnesau.
- **Ymrwymiad i ddatblygu dulliau gweithredu cydgysylltiedig ac ar draws sectorau, gan weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau i dwf yn y Gogledd**. Bydd hyn yn gwneud y gorau o werth cyhoeddus o adnoddau cyfyngedig. Yn ogystal, bydd yn datblygu dulliau "Tîm Gogledd Cymru", gan gyfuno adnoddau gan randdeiliaid allweddol (h.y. LlC, AB, AU, ALlau) a chyflawni integreiddio "yn seiliedig ar le" ar lefel ranbarthol.
- **Ymrwymiad i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn agos gyda'r gymuned fusnes ar draws y rhanbarth**. Gwneir yr ymgysylltu hwn mewn ffordd strwythuredig. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhwystrau i dwf a'r problemau y mae'r sector preifat yn eu hwynebu yn cael eu deall a'u mynegi'n glir. Bydd y gymuned fusnes - drwy raglen ymgysylltu strwythuredig - yn chwarae rôl ganolog wrth gefnogi, herio a chynghori'r gwaith o ddylunio a chyflawni ymyraethau allweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau hynny.
- **Ymrwymiad i gyfuno adnoddau ar lefel ranbarthol**, i wneud gwell defnydd o adnoddau presennol, cael yr effaith fwyaf gan leihau'r baich ariannol ar bartneriaid i'r eithaf.

Dangosir hyn drwy ffurfio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sef partneriaeth sydd wedi'i sefydlu i yrru'r agenda economaidd ymlaen yn y Gogledd. Mae'n cynnwys bob un o'r chwe awdurdod lleol, ynghyd â chynrychiolwyr o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Bangor, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria a'r sector preifat.

DRAFT

*EIN CYNNIG I LYWODRAETH Y DU A LLYWODRAETH CYMRU*

- **Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni twf glân, yn cefnogi cynnydd o 6% yn y GVA, 4,298 o swyddi newydd a chyfanswm buddsoddiad o £1bn drwy gytundeb y Cynllun Twf.**

- **Bydd Gogledd Cymru wedi'i drefnu'n dda gyda phartneriaid yn cydweithio ac mewn partneriaeth gref gyda threfniadau llywodraethu cadarn**. Bydd ymgysylltiad uniongyrchol a rheolaidd gyda'r sector preifat. Bydd gan y bartneriaeth gynllun cydlynol, cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni swyddi a thwf i'r Gogledd, gan roi sylw uniongyrchol i'r rhwystrau a wynebir gan y sector preifat; gan weithio hyd yn oed yn agosach gyda'r gymuned fusnes.

- **Bydd y Gogledd yn cynnig amgylchedd busnes o ansawdd i symbylu a hyrwyddo buddsoddiad gydag adnoddau ac arbenigedd wedi'u cyfuno o amrywiol sefydliadau i fodloni anghenion y sector preifat**. Caiff hyn ei gyflawni mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig.

- **Bydd y Gogledd yn cynnig system sgiliau a chyflogaeth sy'n bodloni anghenion y farchnad lafur bresennol ac yn y dyfodol**, a bydd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd mewn modd penderfynol a chadarn, gan hwyluso a chefnogi pobl i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth.

- **Bydd y Gogledd yn cynnig cynyddu gweithgaredd ymchwil a datblygu ynghyd â masnacholi syniadau ac arloesedd, yn enwedig mewn ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch a diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir a thwristiaeth**. Bydd hyn yn gwella a chynyddu cynhyrchedd a'n cyfraniad i'r economi cenedlaethol.

- **Bydd y Gogledd yn cynnig cyflawni prosiectau 'hwyluso' strategol a fydd yn cynyddu natur gystadleuol busnesau ledled y rhanbarth**, yn enwedig drwy'r rhaglen cysylltedd digidol, y rhaglen trafnidiaeth, y rhaglen tir ac eiddo a'r rhaglen sgiliau a chyflogaeth.

- **Bydd partneriaid yn y rhanbarth yn ffurfio Swyddfa Rhaglen i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf**. Bydd hon yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau, yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro trefniadau a phrosesau'r rhaglenni a'r prosiectau. Bydd y safonau a'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan y Swyddfa Rhaglen yn seiliedig ar arfer orau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd. Bydd yn cefnogi gweithgareddau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd yn ffurfio perthynas weithio agos gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

DRAFT

## RHAN 3 - HERIAU A GWYBODAETH WAELODLIN

### *GOGLEDD CYMRU HEDDIW - YR HERIAU*

Mae'r isod yn grynodeb o'r heriau allweddol sy'n wynebu economi'r Gogledd - fel sydd wedi'i adnabod yn y Weledigaeth Twf.

1. Er gwaethaf y cynnydd mewn GVA yn y rhanbarth, mae amrywiaeth eang mewn GVA y pen rhwng gorllewin a dwyrain y rhanbarth. Mae GVA yn y Gogledd yn parhau'n gyson is na chyfartaledd y DU.

2. Mae rhai rhannau o’r rhanbarth yn ddibynnol ar sectorau/cyflogaeth sy'n derbyn tâl isel yn draddodiadol. Gall gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus mewn rhai ardaloedd gael effaith negyddol, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

3. Er bod y rhanbarth wedi gweld gwelliant mewn ffigyrau cyflogaeth a diweithdra, nid yw'r cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi gwella ac maent yn parhau'n uwch na chyfartaledd y DU.

4. Er bod lefelau cyflogaeth a diweithdra yn gwella, mae'r twf mewn sectorau 'Gwerth Uchel' yn yr economi wedi bod yn gyfnewidiol dros y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad mewn twf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn her os ydym am wella cynhyrchedd a natur gystadleuol y rhanbarth.

5. Mae prinder mentrau mwy yn enwedig yn siroedd y gogledd-orllewin ynghyd â heriau ynghylch tyfu busnesau y tu hwnt i feintiau 'micro', bach a chanolig.

6. Lefelau Sgiliau - nid oes gan y gweithlu cyfredol y sgiliau uwch na'r sgiliau cywir sydd eu hangen i'r economi sy'n tyfu. Nid oes llawer o ddiddordeb mewn pynciau STEM/digidol.

7. Mae lefelau cwblhau tai ledled y rhanbarth ar eu hisaf erioed, ac nid yw adeiladu tai yn dal i fyny â'r galw.

8. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Mae buddsoddi yn y sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfleoedd cyflogaeth newydd y rhanbarth yn sylfaenol i iechyd economaidd yr ardal yn y dyfodol.

9. Mae Cysylltedd Digidol annigonol ledled y rhanbarth yn parhau i fod yn her i fentrau ac unigolion, gydag isadeiledd ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.

10. Mae cysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd ffisegol yn cyfyngu symudiad a mynediad parod i'r prif ganolfannau cyflogaeth.

DRAFT

*DANGOSYDDION STRATEGOL*

| Deilliannau a Dangosyddion Strategol | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | Cyfeiriad y Dyfodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twf mewn Ffyniant Rhanbarthol** | | | | | | | | |
| GVA | 10,933 | 11,472 | 12,099 | 12,669 | 12,813 | 13,313 | 13,836 | ↑ |
| GVA y pen yn y Gogledd fel % o'r DU (heb gynnwys Llundain a de-ddwyrain Lloegr) | 81% | 83% | 86% | 87% | 85% | 87% | 88% | ↑ |
| Twf GVA wedi'i ledaenu ledled chwe Sir y Gogledd | 10% | 11% | 6% | 10% | 5% | 8% | 6% | ↓ |
| Twf GVA yn y sector economaidd gwerth uchel (twf GVA mewn gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu a gweithgareddau technegol) | 7% | 8% | 5% | 9% | 0% | 6% | 4% | ↑ |
| **Creu Swyddi o Ansawdd Gwell** | | | | | | | | |
| Twf Cyflogaeth | -0.8% | -2.4% | 1.1% | 0.5% | 1.9% | 2.4% | -2.1% | ↑ |
| Lledaenu Twf Cyflogaeth ledled chwe Sir y Gogledd | 6% | 12% | 11% | 14% | 10% | 18% | 14% | ↓ |
| Twf Economaidd mewn sectorau economaidd gwerth uchel | -4.9% | -2.6% | -0.5% | 7.0% | 6.7% | 0.2% | -8.7% | ↑ |
| **Gweithlu Mwy Medrus o fewn y Rhanbarth** | | | | | | | | |
| Cyfran y boblogaeth sydd â chymwysterau lefel uwch (Lefel 4 ac uwch - cyfystyr â Lefel A, Prentisiaethau Lefel Uwch, Graddau Sylfaen, Graddau Baglor, TAR, Meistr a Doethuriaeth) | 30% | 30% | 32% | 34% | 35% | 36% | 35% | ↑ |
| Nifer yr unigolion ar Raglenni Prentisiaethau Uwch (mae Prentisiaethau Uwch yn rhaglen dysgu yn seiliedig ar waith sydd wedi'i hanelu at Lefel 4, 5, 6 neu 7) | | | 305 | 610 | 735 | 1,045 | 710 | ↑ |
| Nifer y bobl 16 - 24 mlwydd oed ar Raglenni Prentisiaethau | | | 5,990 | 6,225 | 4,255 | 5,075 | 5,050 | ↑ |
| **Gwelliannau mewn Safonau Byw ledled y Rhanbarth** | | | | | | | | |
| Gostwng cyfran yr aelwydydd heb waith | 20% | 20% | 19% | 18% | 19% | 17% | 17% | ↓ |
| Gwella fforddiadwyedd (canolrif prisiau tai / canolrif incwm) | 6.1 | 6.0 | 5.9 | 5.6 | 5.6 | 5.9 | 6.0 | ↓ |
| Cynnydd mewn canolrif incwm aelwydydd (£) | 22,656 | 22,531 | 23,272 | 24,596 | 24,516 | 24,753 | 24,442 | ↑ |

## RHAN 4 - RHAGLENNI'R CYNLLUN TWF

Rydym wedi adnabod Rhaglenni Strategol o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r economi rhanbarthol, ynghyd â manteisio ar y cyfleoedd. Mae'r Rhaglenni hyn yn grŵp o brosiectau rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol i'w rheoli mewn ffordd gydlynol, ac maent wedi'u diffinio yng nghyd-destun y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru. Drwy gyflawni'r rhaglenni hyn ar y cyd, byddwn yn llwyddo i gael effaith well yn nhermau ein huchelgais a'n defnydd o adnoddau yn hytrach na'u cyflawni nhw ar wahân.

### *SECTORAU TWF UCHEL I YRRU CYNHYRCHEDD YN Y RHANBARTH*

Ffocws y Cynllun Twf fydd manteisio i'r eithaf ar werth economaidd y sectorau twf uchel i yrru twf economaidd a chynhyrchedd yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

Bydd arloesedd, ymchwil a datblygu wedi'u gwreiddio yn ein dulliau gweithredu, gan uchafu gwerth yr asedau a'r gweithgareddau ymchwil a datblygu byd-eang a gaiff eu hyrwyddo yn y rhanbarth.

Bydd y dulliau gweithredu cydlynol a strategol i ddatblygu sectorau twf uchel yn arwain at gynhyrchu mwy o werth o'n gwyddoniaeth, ein hymchwil a'n creadigedd, a gwneir mwy i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n effeithio ar gydweithredu a'r llif gwybodaeth rhwng ymchwil a diwydiant.

Mae'r Prosiectau sydd wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith sectorau twf uchel wedi'u cyflwyno mewn tair Rhaglen allweddol o fewn y Cynllun Twf:

**1. RHAGLEN YNNI CARBON ISEL**

Bydd cyflawni'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn golygu bod y Gogledd yn un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a storio ynni.

Bydd y Rhaglen yn sicrhau bod gan y Gogledd isadeiledd modern o safon uchel er mwyn hwyluso twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel ac er mwyn hyrwyddo arloesedd a thechnoleg newydd. Bydd prosiectau peilot drwy'r Rhaglen hon yn batrwm ar gyfer ardaloedd arfordirol a gwledig.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd* |
| *Prosiect Morlais* |
| *Rhwydweithiau Ynni Lleol Blaengar* |
| *Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear* |

**2. RHAGLEN GWEITHGYNHYRCHU UWCH**

Bydd y Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, ynghyd ag arbenigedd byd-eang, i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd er mwyn datblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch pwerus - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan byd-eang. Mae'r rhain yn fentrau sy'n defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd technegol blaengar i greu cynnyrch, ac ar gyfer cynyrchiadau a phrosesau a gwasanaethau cysylltiedig. Bydd adeiladu'r sector hwn yn y rhanbarth yn gwella cynhyrchedd yn sylweddol ac yn cyflawni twf economaidd cynaliadwy.

Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth i wneud y gorau o effaith economaidd leol o ymchwil a thechnoleg.

Hefyd, byddwn yn adeiladu ar lwyddiant buddsoddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru, a sefydlu synergedd a chydweithrediad agos gyda'r Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch, gan ddarparu cyfleusterau, ymchwil ac arloesedd o ansawdd i fusnesau mewn meysydd allweddol hanfodol ledled y rhanbarth. Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn sicrhau bod gan y rhanbarth arbenigedd byd-eang a rhwydwaith o ganolfannau byd-eang i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd mewn sectorau economaidd allweddol a thrwy hynny hwyluso buddsoddiad newydd, twf a swyddi o ansawdd yn y Gogledd.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter* |
| *Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol* |

**3. DIWYDIANNAU AR Y TIR A THWRISTIAETH**

Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar y sector amaeth, bwyd a diod sydd wedi'i hen sefydlu yn y Gogledd, ynghyd â chefnogi buddsoddiad pellach mewn twristiaeth o safon uchel er mwyn ymestyn y tymor ymwelwyr.

Y nod - drwy'r Cynllun Twf - yw adeiladu economi sylfaen mwy bywiog o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o werth economaidd ein hamgylchedd a'n tirwedd. Y sectorau amaeth, bwyd a thwristiaeth yw asgwrn cefn nifer o economïau lleol yn y rhanbarth. Ein huchelgais yw cefnogi busnesau o fewn y sectorau hyn sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol, i gynyddu eu cynhyrchedd, annog datblygu sgiliau a datblygu modelau busnes mwy cynaliadwy drwy wella eu mynediad i arloesedd a thechnoleg newydd.

Byddwn yn datblygu ac yn lledaenu enw da'r Gogledd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth gwerth uchel, a thwristiaeth adrenalin yn benodol, yn adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar a phortffolio sy'n tyfu o atyniadau sy'n denu pobl o bedwar ban byd drwy gydol y flwyddyn. Y nod yw sicrhau y bydd y Cynllun Twf yn cefnogi gwelliannau pellach i brofiad yr ymwelwyr â'r rhanbarth a gwella safon atyniadau allweddol.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf, ac unrhyw gynlluniau ochr posib gyda Llywodraeth Cymru dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon* |
| *Fferm Carbon Niwtral Llysfasi* |
| *Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru* |

## *MYND I'R AFAEL Â'R RHWYSTRAU ALLWEDDOL I HWYLUSO A CHYFLAWNI TWF ECONOMAIDD*

Rydym wedi datblygu Rhaglenni "hwyluso" drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd eu cyflawni yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd.

Byddwn yn cynllunio ac yn cyflawni dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prosiectau i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf wedi'u cyflwyno mewn pedair Rhaglen allweddol o fewn y Cynllun Twf:

**1. RHAGLEN TIR AC EIDDO**

Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys pecyn o Brosiectau i ddatgloi cyfleoedd twf ledled y rhanbarth a bydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prinder tir ac eiddo addas er mwyn tyfu busnesau. Yn ogystal, bydd y Rhaglen yn cyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai.

Bydd eu cyflawni yn creu portffolio o safleoedd ac eiddo o ansawdd uchel i ddarparu ar gyfer arloesi ac ehangu yn y sail fusnes, yn benodol o fewn y sectorau twf uchel megis diwydiannau sy'n gysylltiedig ag ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol* |
| *Rhaglen Porth Caergybi* |

**2. RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH**

Bydd y Rhaglen hon yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd ac yn cyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth gydlynol ar sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth. Bydd yn galluogi i bobl gael mynediad i gefnogaeth yn haws ac yn fwy effeithiol er mwyn eu helpu nhw i wella eu sgiliau a chael swyddi, gan sicrhau bod gweithlu cadarn a gwydn ar gael i fodloni anghenion cyflogaeth yn y dyfodol.

Yn ogystal, bydd yn cynyddu'r cyflenwad o sgiliau yn y sectorau twf allweddol, a bydd yn arfogi pobl ar gyfer y swyddi sydd wedi'u siapio gan dechnoleg y genhedlaeth nesaf, gan gynyddu sgiliau digidol yn y Gogledd.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy gynlluniau ochr gyda Llywodraeth Cymru dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Porth Gwybodaeth a Chyngor* |

**3. RHAGLEN DDIGIDOL**

Bydd y Rhaglen hon yn canolbwyntio ar wella isadeiledd digidol ac arloesedd yn y rhanbarth. Bydd yn cyflawni mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd a bydd yn gwella arloesedd mewn signalu digidol.

Cyflawnir hyn yn bennaf drwy ddarparu isadeiledd band eang ffibr llawn newydd ledled y rhanbarth i gefnogi a hwyluso busnesau i arloesi a thyfu.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Prosiect Cysylltedd Digidol* |
| *Canolfan Prosesu Signal Digidol* |

DRAFT

## 4. RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL

Pwrpas y Rhaglen hon yw hwyluso gwell hygyrchedd a chysylltedd i'r rhanbarth ac o'i fewn. Cyflawnir portffolio o gynlluniau i wella'r isadeiledd trafnidiaeth lleol, gan roi hwb i fynediad i gyflogaeth yn benodol. Bydd pwyntiau tagfeydd yn cael eu taclo, bydd trafnidiaeth wedi'i hintegreiddio'n well a bydd dewisiadau amgen i fynediad ar ffyrdd yn cael eu datblygu drwy'r Rhaglen hon. Un ffocws allweddol fydd datblygu canolbwyntiau trafnidiaeth integredig a chyflawni datrysiadau trafnidiaeth carbon isel mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Bydd y Rhaglen yn galluogi i fusnesau yn y rhanbarth gael mynediad gwell at farchnadoedd, nwyddau, gwasanaethau a llafur.

Mae'r prosiectau sydd i'w hariannu drwy'r Cynllun Twf dan y Rhaglen hon yn cynnwys yr isod:

| |
|---|
| *Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol* |

### *EIN HUCHELGAIS*

Ar y cyd, mae'r Prosiectau sydd wedi'u hadnabod dan y Cynllun Twf yn rhai trawsffurfiol, yn rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol.

Bydd eu cyflawni yn cefnogi'r rhanbarth i orchfygu'r rhwystrau y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd i fuddsoddi yn y rhanbarth a chreu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae ffocws yn benodol ar gefnogi technolegau carbon isel i roi hwb i gynhyrchedd a chreu swyddi gwerth uchel.

Mae uchelgais glir yma, yn benodol i gadarnhau'r Gogledd fel un o'r prif ranbarthau ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy, ynghyd â gweithgynhyrchu uwch a diwydiannau ar y tir a thwristiaeth.

### *RÔL Y SECTOR PREIFAT*

Mae cynrychiolwyr y sector preifat wedi cyd-ddylunio Rhaglenni'r Cynllun Twf ac maent wedi bod ynghlwm â llunio a dylanwadu ar y Cynllun Twf. Mae hyn wedi'i gydlynu'n bennaf gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy ynghyd â'r Grŵp Cyflawni Busnes.

Yn ogystal, mae busnesau wedi bod ynghlwm â datblygu prosiectau unigol, gan sicrhau cyd-fuddsoddiad ac ymrwymiad gan y sector preifat. Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys enghreifftiau o fusnesau sydd ynghlwm â phrosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru:

| |
|---|
| *Wood/Amec Foster Wheeler* |
| *Rolls Royce* |
| *Westinghouse* |
| *RWE* |
| *Minesto* |
| *Nova Technologies* |
| *Innogy* |
| *S P Energy Networks* |
| *Qinetiq* |
| *Toyota* |

| |
|---|
| *Siemens* |
| *Raytheon* |
| *Zipworld* |
| *Surf Snowdonia* |
| *Moneypenny* |
| *Jones Bros* |
| *Barwood Land and Property* |
| *Stena Line* |
| *BT* |
| *Airbus* |

DRAFT

Mae llythyrau yn amlygu cefnogaeth ac ymrwymiad y busnesau sydd wedi'u hadnabod uchod i brosiectau'r Cynllun Twf wedi'u derbyn ac maent ar gael ar gais.

Bydd ymglymiad ac ymgysylltiad busnesau o'r fath o fewn y Prosiectau unigol yn sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

Yn ogystal, mae "pencampwr" sector busnes wedi'i adnabod ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf:

| Prosiect | Pencampwr y Sector Preifat |
|---|---|
| **RHAGLEN YNNI CARBON ISEL** | |
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Rolls Royce |
| Prosiect Morlais | Minesto / Nova Technologies |
| Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | Nova Technologies / Minesto |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | Wood/Amec Foster Wheeler / TWI |
| **RHAGLEN GWEITHGYNHYRCHU UWCH** | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Qinetiq |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | James Findlay Ltd |
| **DIWYDIANNAU AR Y TIR A THWRISTIAETH** | |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Halen Môn |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Kubota UK |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | Zip World / Surf Snowdonia |
| **RHAGLEN TIR AC EIDDO** | |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | Moneypenny |
| Prosiect Porth Caergybi | Stena Line |
| **RHAGLEN DDIGIDOL** | |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | Virgin Media / Fibrespeed |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | BT |
| **RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL** | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | SP Energy Networks |

## RHAN 5 - DEILLIANNAU A BUDDION

Mae Deilliannau a Buddion pob un o Brosiectau'r Cynllun Twf wedi'u nodi yn y tabl isod:

| Enw'r Prosiect | Swyddi Anuniongyrchol / Adeiladwaith | Swyddi Uniongyrchol a grëir | Buddsoddiad Sector Preifat Uniongyrchol | Buddsoddiad Anuniongyrchol y Sector Preifat* | Gwell Sail Sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|
| **RHAGLEN YNNI CARBON ISEL** | | | | | |
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 1,750 | 250 | 0 | £2bn | Effaith Uchel |
| Prosiect Morlais | 329 | 165 | 40 | £5m | Effaith Uchel |
| Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | 190 | 100 | 238 | £3m | Effaith Ganolig |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | - | 150 | 1 | £21m | Effaith Uchel |
| **RHAGLEN GWEITHGYNHYRCHU UWCH** | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 370 | 145 | 0 | £31.4m | Effaith Uchel |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | 350 | 48 | 0 | £11.2m | Effaith Uchel |
| **DIWYDIANNAU AR Y TIR A THWRISTIAETH** | | | | | |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 91 | 80 | 0.8 | - | Effaith Uchel |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | 150 | - | 5 | £5m | Effaith Uchel |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | 150 | - | 1.25 | £36.2m | Effaith Uchel |
| **RHAGLEN TIR AC EIDDO** | | | | | |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | 2,250 | 1,875 | 210 | £637.4m | Effaith Ganolig |
| Prosiect Porth Caergybi | 2200 | 1,250 | 45 | £80m | Effaith Ganolig - Uchel |
| **RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH** | | | | | |
| Porth Gwybodaeth a Chyngor am Sgiliau | Cynllun Ochr | | | | Effaith Uchel |
| **RHAGLEN DDIGIDOL** | | | | | |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | 2100 | - | 0.4 | £250m | Effaith Ganolig |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | 228 | 160 | 1.1 | £15m | Effaith Uchel |
| **RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL** | | | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | 30 | 75 | 8.5 | - | Effaith Ganolig |
| **CYFANSWM** | **10,188** | **4,298** | **£551m** | **£3.095bn** | |

**gwerth buddsoddiad y sector preifat a geir o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni'r prosiect*

Mae'r deilliannau yn seiliedig ar gyd-gyflawni'r prosiectau lle mae'r cyfan yn fwy na chyfanswm ei rannau.

**Bydd cyflawni'r prosiectau yn cefnogi creu 4,298 o swyddi newydd, cynhyrchu £551 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat ac yn arwain at gyfraniad anuniongyrchol o £3.095bn gan y sector preifat. Yn ogystal, bydd yn darparu sail sgiliau sylweddol well yn y rhanbarth.**


Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn a geir yn ôl o'r buddsoddiad gan Brosiectau'r Cynllun Twf:

| **Enw'r Prosiect** | **Deilliannau** |
|---|---|
| **RHAGLEN YNNI CARBON ISEL** | |
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Effaith GVA o +£58m |
| Prosiect Morlais | 25% o fewnfuddsoddiad i'r gadwyn gyflenwi leol |
| Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | Capasiti o 800mn wedi'i osod ar gyfer ynni adnewyddadwy carbon isel |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | 225 o fusnesau yn cael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau |
| **RHAGLEN GWEITHGYNHYRCHU UWCH** | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 300 o fusnesau yn cael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | 120 o fusnesau yn cael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau |
| **DIWYDIANNAU AR Y TIR A THWRISTIAETH** | |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 200 o fusnesau yn cael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau o'r canolbwynt |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Gwella'r defnydd o brosiectau ynni adnewyddadwy ledled y Gogledd (40 prosiect dros bum mlynedd) |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | 100 o brentisiaethau twristiaeth a lletygarwch yn nwy flynedd gyntaf y gweithrediad |
| **RHAGLEN TIR AC EIDDO** | |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | Darperir 20k $m^2$ o ofod busnes<br>Darperir 30 Ha o dir busnes |
| Prosiect Porth Caergybi | 47 o gychod mordeithio ychwanegol yn ymweld â'r porthladd erbyn 2023 |
| **RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH** | |
| Porth Gwybodaeth a Chyngor am Sgiliau | (cynllun ochr) |
| **RHAGLEN DDIGIDOL** | |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | Band eang tra chyflym ar gael i 99% o eiddo erbyn 2021 |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | 88 yn ychwanegol o raddedigion medrus iawn yn y gweithlu lleol bob blwyddyn |
| **RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL** | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | Gostyngiad mewn allyriadau carbon |

## RHAN 6 - TREFN Y PROSIECTAU

Amlinellir Trefn y Prosiectau rhwng 2019-2025 yn y tabl isod:

<table>
<tr><th rowspan="2">PROSIECT</th><th colspan="7">AMSERLEN</th></tr>
<tr><th>2019</th><th>2020</th><th>2021</th><th>2022</th><th>2023</th><th>2024</th><th>2025</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="4">Cyflawni ac adeiladu</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td><td colspan="2">Cwblhau</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Prosiect Morlais</td><td colspan="3">Cynllunio a datblygu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td><td colspan="4">Cyflawni ac adeiladu</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6"></td><td>Cwblhau</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyflawni ac adeiladu</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="4"></td><td>Cwblhau</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Cyflawni ac adeiladu</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4"></td><td colspan="2">Cwblhau</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="4">Cyflawni ac adeiladu</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td><td>Cwblhau</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="4">Cyflawni ac adeiladu</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td><td>Cwblhau</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon</td><td>Cynllunio a datblygu</td><td colspan="6"></td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Cyflawni ac adeiladu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="3"></td><td>Cwblhau</td><td colspan="3"></td></tr>
| Disgrifiad: | Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch yn darparu datblygiad sgiliau sydd wedi'u targedu, ymchwilio i gynnyrch a chefnogi busnesau ledled y Gogledd. Wedi'i dylunio mewn partneriaeth â'r sector preifat, bydd ei chyflawni yn creu darpariaeth o ddoniau ac ystod o fusnesau arloesol i dyfu gwerth a chyfraniad y sector lletygarwch a thwristiaeth yn y Gogledd. Mae ymrwymiad a pherchnogaeth diwydiant wedi bod yn ganolog i ddyluniad y prosiect sydd wedi arwain at gefnogaeth buddsoddiad sector preifat sylweddol. Yr uchelgais yw lleoli'r Gogledd fel angor a chanolfan o ragoriaeth ar gyfer datblygu twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru a'r DU yn ehangach. Bydd model canolbwynt ac adain yn canolbwyntio ar Ganolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch bwrpasol yng Ngholeg Llandrillo yn Llandrillo yn Rhos (y canolbwynt), wedi'i chysylltu â nifer o gyfleusterau strategol wedi'u cydlynu gan fusnesau twristiaeth a lletygarwch ledled y Gogledd (yr adeiniau). Bydd y prosiect yn cael ei yrru gan y diwydiant ac yn cyd-fynd â darpariaeth arall ledled y Gogledd, ac yn eu cefnogi. | | |
| Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad: | Mae'r Prosiect wedi'i lunio gan yr anghenion sydd wedi'u hadnabod gan bartneriaid y sector preifat. Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn profi twf sylweddol ond eto mae parhau â'r twf hwn yn y Gogledd yn dibynnu ar gyflenwad o weithlu medrus a thalentog. Bydd nifer o bartneriaid y sector preifat yn bencampwyr i'r prosiect yn cynnwys ZipWorld a Surf Snowdonia a fydd, ynghyd â busnesau eraill, yn buddsoddi ac yn cefnogi'r prosiect. | | |

| Cerrig Milltir Allweddol | Gweithgaredd | Dyddiad (yn defnyddio'r flwyddyn galendr) |
|---|---|---|
| | Dyfarnu'r Cynllun Twf | 2019 |
| | Cynllun Busnes Llawn a Manyleb y Prosiect | 2019 |
| | Spec adeiladu a dyfarnu’r contract - y canolbwynt | 2019/20 |
| | Adeiladu gwirioneddol | 2020/22 |
| | Datblygu cyfleusterau adain cam cyntaf | 2020/22 |
| | Gweithredol - byw | 2022/23 |

| Risgiau | Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|---|
| | Oedi biwrocrataidd gyda'r Cynllun Twf | Dibynnol ar y Bwrdd Uchelgais |
| | Colli partneriaid sector cyhoeddus | Wedi'i arwain gan ddiwydiant gyda Bwrdd Prosiect yn goruchwylio dyluniad a chyflawni |
| | Cynllun cost yn anghywir | Cynllun Busnes llawn. Caiff Ymgynghorwyr Cost eu penodi fel rhan o'r Tîm Dylunio |
| | Methu â chyrraedd cerrig milltir / allbynnau twf y Bwrdd Uchelgais | Caiff systemau monitro effeithiol eu sefydlu |

| Proffil Ariannol | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddus | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 5 |
| | Preifat | 0 | 0.375 | 0.375 | 0.5 | 0 | 1.25 |
| | Cynllun Twf | 0 | 4.937 | 3.063 | 2 | 0 | 10 |
| | **CYFANSWM** | **0** | **8.312** | **5.438** | **2.5** | **0** | **16.25** |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau | Ansicrwydd ynghylch arian y Cynllun Twf. Bydd Cynllun Busnes a Gweithredol llawn yn lliniaru unrhyw gyfyngiadau. Safle'r Canolbwynt wedi'i adnabod ac ymrwymiad y sector preifat wedi'i gadarnhau. |
| Dibyniaethau | Nid oes unrhyw ryng-ddibyniaethau sy'n faterol i lwyddiant y prosiect. Fodd bynnag, mae rhyng-ddibyniaethau pwysig gyda rhannau eraill o Gynllun Twf Gogledd Cymru sy'n cynnwys y Strategaeth Ddigidol, Porth Caergybi a Thrafnidiaeth. |
| Deilliannau | • 100 o brentisiaethau twristiaeth a lletygarwch newydd yn nwy flynedd gyntaf y gweithrediad |

| | |
|---|---|
| | • Canolfan Ragoriaeth newydd a deg cyfleuster hyfforddiant rhanbarthol ym mherchnogaeth diwydiant<br>• 500 metr sgwâr o ofod masnachol<br>• 40 o sesiynau cefnogaeth ac arloesedd i fusnesau twristiaeth a lletygarwch |

*RHAGLEN TIR AC EIDDO*

<table>
<tr><td>**Rhaglen:**</td><td colspan="7">**RHAGLEN TIR AC EIDDO**</td></tr>
<tr><td>**Prosiect:**</td><td colspan="7">**Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol**</td></tr>
<tr><td>**Prif Ariannwr:**</td><td colspan="7">Y BWRDD UCHELGAIS</td></tr>
<tr><td>**Cyfanswm Cost:**</td><td colspan="3">£327.5 miliwn</td><td colspan="2">Cynllun Twf:</td><td colspan="2">£72.5 miliwn</td></tr>
<tr><td>**Disgrifiad:**</td><td colspan="7">Sefydlu Cyd-fenter rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad a chyflawniad safleoedd ac eiddo a thai yn y Gogledd.<br>Bydd y Cyd-fenter yn darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu safleoedd ac eiddo ledled y rhanbarth - a fydd yn elwa meddianwyr sector preifat yn uniongyrchol na fyddai yn medru buddsoddi fel arall.<br>Darperir cefnogaeth i gynyddu'r gyfradd cwblhau tai ledled y rhanbarth, mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr sector preifat.</td></tr>
<tr><td>**Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad:**</td><td colspan="7">Buddsoddwyr Defnyddwyr Terfynol Sector Preifat - e.e. Moneypenny, Workz Group, GLI<br>Datblygwyr Sector Preifat – Barwood Land & Property, Partneriaeth RSL, Jones Bros<br>Cyllid - Cydweithio â'r Banc Datblygu a'r Bartneriaeth RSL<br>Twristiaeth - ariannu drwy Gyd-fenter i gefnogi datblygiadau twristiaeth</td></tr>
<tr><td>**Cerrig Milltir Allweddol**</td><td colspan="5">Gweithgaredd</td><td colspan="2">Dyddiad</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Sefydlu Cyd-fenter</td><td colspan="2">2019</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Wrecsam, Bodelwyddan a Bryn Cegin – datblygu safleoedd</td><td colspan="2">2019-21</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Cefnogaeth i adeiladwyr tai bach a chanolig</td><td colspan="2">2019-22</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Datblygiad safle datblygwyr mawr ac RSL</td><td colspan="2">2019-22</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="5">Cefnogi prosiectau twristiaeth</td><td colspan="2">2019-22</td></tr>
<tr><td>**Risgiau**</td><td colspan="3">Disgrifiad</td><td colspan="4">Lliniaru</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Arfarniadau o safleoedd unigol yn angenrheidiol</td><td colspan="4">Defnyddiwyd methodolegau arfarnu datblygiad masnachol</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Effaith Brexit ar benderfyniadau buddsoddiadau mawr.</td><td colspan="4">Cyfleoedd buddsoddi mawr a dull gweithredu datblygiad rhanbarthol</td></tr>
<tr><td>**Proffil Ariannol**</td><td></td><td>2020/21</td><td>2021/22</td><td>2022/23</td><td>2023/24</td><td>2024/25</td><td>CYFANSWM (£)</td></tr>
<tr><td></td><td>Cyhoeddus</td><td>5</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td><td>10</td><td>45</td></tr>
<tr><td></td><td>Preifat</td><td></td><td>30</td><td>40</td><td>50</td><td>90</td><td>210</td></tr>
<tr><td></td><td>Cynllun Twf</td><td>10</td><td>25</td><td>20</td><td>10</td><td>7.5</td><td>72.5</td></tr>
<tr><td></td><td>CYFANSWM</td><td>**15**</td><td>**65**</td><td>**70**</td><td>**70**</td><td>**107.5**</td><td>**327.50**</td></tr>
<tr><td>**Cyfyngiadau**</td><td colspan="7">• Galw gan ddefnyddwyr terfynol<br>• Arian cyfyngedig ar gael i fodloni'r galw<br>• Gofynion tirfeddiannaeth ac isadeiledd cymhleth ar rai safleoedd</td></tr>
<tr><td>**Dibyniaethau**</td><td colspan="7">• Teclyn cefnogaeth allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o fuddsoddiadau sector preifat yn y rhanbarth<br>• Deilliant allweddol ar gyfer gwaith datganoledig ar y cyd yn rhanbarthol<br>• Partneriaid allweddol y bartneriaeth RSL a'r Banc Datblygu<br>• Bydd y rhaglen yn gweithio gyda phrosiectau presennol a ariannir gan Lywodraeth Cymru a'r UE</td></tr>
<tr><td>**Deilliannau**</td><td colspan="7">• Cyd-fenter wedi'i sefydlu<br>• Safleoedd cam cyntaf wedi'u datblygu a'u meddiannu<br>• 20k m sg. o ofod llawr; 30 Ha o dir wedi'i ddarparu, sgôp am hyd at 1875 o swyddi; potensial am £210 miliwn o fuddsoddiad preifat uniongyrchol ac anuniongyrchol; cefnogaeth ar gyfer hyd at 12 mil o gartrefi, cefnogaeth i brosiectau datblygu twristiaeth</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen: | RHAGLEN TIR AC EIDDO | | |
| Prosiect: | **Porth Caergybi** | | |
| Prif Ariannwr: | Y BWRDD UCHELGAIS | | |
| Cyfanswm Cost: | £80m | Cynllun Twf: | £35m |
| Disgrifiad: | Nod y prosiect yw sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. Mae'n cynnwys adfer er mwyn cyflawni hyd at 24 acer. | | |
| Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad: | Bydd hyrwyddwyr y cynllun, Stena Line, yn buddsoddi £45m yn y datblygiad. | | |

| Cerrig Milltir Allweddol | Gweithgaredd | Dyddiad (yn defnyddio'r flwyddyn galendr) |
|---|---|---|
| | cymeradwyo'r cynllun terfynol a'r cynllun busnes | Ch1 2019 |
| | Dechrau gwaith cyfalaf paratoadol | Ch2 2019 |
| | Rhagwelir cymeradwyo Gorchymyn Adolygu Harbwr | Ch3 2019 |
| | Cwblhau'r Prosiect | Ch4 2020 |

| Risgiau | Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|---|
| | Busnes annigonol i gyfiawnhau buddsoddiad | Dwyn buddsoddiad ymlaen mewn partneriaeth i leihau risg |
| | Gohirio prosiect Wylfa yn arwain at leihau'r galw am wasanaethau | Mae angen capasiti o hyd ar gyfer prosiectau ynni eraill a datblygiadau SMR posib |
| | Effeithiau BREXIT | Er nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd, mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer mwy o ofod ar gyfer prosesu traffig ro-ro |
| | Morglawdd | Dirywiad wedi cael sylw mewn cynigion adfer |
| | Mae diffyg angorfeydd dŵr dwfn pwrpasol yn effeithio ar fusnesau | Mae cynigion yn bodloni gofynion y cychod mordeithio ac ar gyfer llwytho/dadlwytho trwm |

| Proffil Ariannol | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Preifat | 0 | 40.5 | 4.5 | 0 | 0 | 45 |
| | Cynllun Twf | 0 | 31.5 | 3.5 | 0 | 0 | 35 |
| | CYFANSWM | **0** | **72** | **8** | **0** | **0** | **80** |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau | Hyfywedd hir-dymor y Morglawdd; argaeledd gofod ar gyfer y datblygiadau angenrheidiol; mynediad; diffyg cyfleusterau pwrpasol ar gyfer y diwydiant ynni morol |
| Dibyniaethau | Incwm masnachol o Morlais a phrosiectau ynni eraill. Bydd gwell cysylltedd o ganlyniad i'r prosiect Cysylltedd Digidol yn cael effaith fawr ar allu'r porthladd i brosesu traffig mewn modd effeithiol. Mae'n bosib y bydd gan y porthladd rôl yng nghyswllt datblygiadau yn Nhrawsfynydd a chynigion diwygiedig ar gyfer Wylfa |
| Deilliannau | 1250 o swyddi uniongyrchol wedi'u creu yn y porthladd, 700 o swyddi anuniongyrchol a chysylltiedig, 1500 o swyddi wedi'u cefnogi gan wariant ar gychod mordeithio newydd. 24 acer o gyfleusterau porthladd newydd/gwell ynghyd â gofod llawr masnachol newydd a gwell |

***RHAGLEN DDIGIDOL***

| | |
|---|---|
| **Rhaglen:** | **RHAGLEN DDIGIDOL** |
| **Prosiect:** | **Cysylltedd Digidol** |
| **Prif Ariannwr:** | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **Cyfanswm Cost:** | £34.4 miliwn — Cynllun Twf: £34 miliwn |
| **Disgrifiad:** | Newid cyfeiriad mewn cysylltedd digidol ledled y rhanbarth wedi'i gyflawni drwy bedair thema allweddol:<br>• Ffibr llawn mewn safleoedd economaidd allweddol - ystod o fand eang ffibr fforddiadwy i barciau busnes ac ystadau diwydiannol<br>• Campws Cysylltiedig - cysylltedd ffibr a radio blaengar mewn safleoedd penodol<br>• Coridorau Cysylltiedig - pyrth LPWAN cyfagos yn darparu tracio logisteg amser real<br>• Yr ychydig % olaf – darparu isafswm band eang tra chyflym (30Mbps) i 99% o eiddo |
| **Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad:** | Mae cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad gweithredwr y rhwydwaith yn cael eu trafod. Y disgwyliad cyfredol yw y bydd y brif ffynhonnell o gyd-fuddsoddiad sector preifat ar ffurf rhwydweithiau mynediad lleol wedi'u hadeiladu o amgylch cefnogaeth gan isadeiledd goddefol a ariannir drwy'r Cynllun Twf. Bydd y cyd-fuddsoddiad arfaethedig yn gyson â'r model TDIC.<br>Cefnogaeth y sector preifat yn cynnwys Virgin Media, Fibrespeed, Openreach. |

**Cerrig Milltir Allweddol**

| Gweithgaredd | Dyddiad (yn defnyddio'r flwyddyn galendr) |
|---|---|
| Dyfarnu'r Cynllun Twf | 2019 |
| Spec adeiladu a dyfarnu’r contract | 2019/20 |
| Adeiladu | 2020/22 |
| Gweithredol - byw ar ffrwd | 2022/23 |

**Risgiau**

| Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|
| Methu â masnacholi isadeiledd | Bydd Cydweithredfa Isadeiledd Digidol wedi'i gefnogi gan DCMS yn ymgymryd ag ecsbloetio isadeiledd goddefol |
| Opsiynau cysylltedd newydd ddim yn cael eu mabwysiadu'n eang gan Fusnesau Bach a Chanolig | Gwneir gwaith symbylu galw cyn y gwaith adeiladu ac yn ystod y gwaith adeiladu |
| Heriau cymorth gwladwriaethol | Cyflawnir drwy naill ai MEIP/OP neu fecanwaith cymorth gwladwriaethol sydd wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw |
| Capasiti rhanbarthol i gyflawni ar raddfa yn annigonol | Gwneir gwerthusiad o ofynion adnodd ymlaen llaw. |

**Proffil Ariannol**

| | 2019 /20 | 2020 /21 | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | CYFANSWM (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Preifat | 0 | 0 | 0.023 | 0.109 | 0.238 | 0.041 | 0 | 0.411 |
| Cynllun Twf | 0 | 1.051 | 2.573 | 9.720 | 7.898 | 4.577 | 8.201 | 34 |
| CYFANSWM | **0** | **1.051** | **2.596** | **9.829** | **8.136** | **4.598** | **8.201** | **34.411** |

| | |
|---|---|
| **Cyfyngiadau** | Gweithgarwch masnachol rhwydwaith<br>Rhaglenni DCMS<br>Galw'r farchnad |
| **Dibyniaethau** | Tir ac Eiddo Rhanbarthol; Ynni Lleol Blaengar |
| **Deilliannau** | Cynnydd mewn signal eiddo sy'n medru defnyddio gigabit<br>Cystadleuaeth isadeiledd cyfanwerthol |

| | |
|---|---|
| Rhaglen: | RHAGLEN DDIGIDOL |
| Prosiect: | **Canolfan Prosesu Signalu Digidol (DSP)** |
| Prif Ariannwr: | Prifysgol Bangor - Grŵp Ymchwil Cyfathrebu Optegol (OCRG) |
| Cyfanswm Cost: | £8.456m (yn cynnwys buddsoddiad hwyluso o £1.184m gan Brifysgol Bangor) — Cynllun Twf: £3m |
| Disgrifiad: | Mae Grŵp Ymchwil Cyfathrebu Optegol (OCRG) yn adain ymchwil fyd-eang ym Mhrifysgol Bangor. Ei ffocws yw'r sector signalu a chyfathrebu digidol 5G. Mae 5G yn caniatáu i swm mawr o ddata gael ei brosesu, ac mae DSP yn bwriadu rhoi sylw i heriau diwydiannol strategol o fewn 5G ac ecosystemau 5G, yn cynnwys lleihau'r ynni a ddefnyddir gan Ddyfeisiadau Clyfar ('y Rhyngrwyd Pethau'), yn seiliedig ar arddangosiadau arbrofol optegol amser real. Bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn cyd-fynd â buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat, Prifysgol Bangor a WEFO mewn cyfleuster ymchwil arweiniol yn y Gogledd, gan ganiatáu i DSP weithio'n ddwys gyda'r sector cyhoeddus. Bydd y Cynllun Twf yn ariannu offer technegol a gaiff ei ddefnyddio'n fasnachol gan staff technegol yn yr OCRG a thu hwnt. ***Mae'r prosiect hwn yn elfen allweddol yn yr ecosystem arloesi ehangach y bydd buddsoddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ei hwyluso.*** |
| Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad: | Mae'r Prosiect hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r angen sydd wedi'i adnabod gan y sector preifat am gyfleuster ymchwil arweiniol yn y Gogledd. Mae BT wedi'i adnabod fel prif gyfrannwr y sector preifat i'r prosiect, ynghyd â chwmnïau eraill yn cynnwys Fujitsu, Huawei a TWI y disgwylir iddynt fuddsoddi a chefnogi'r prosiect hwn. |

| Cerrig Milltir Allweddol | Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|---|
| | Dyfarnu'r Cynllun Twf | 2019 |
| | Spec adeiladu a dyfarnu'r contract | 2019/20 |
| | Adeiladu gwirioneddol | 2020/22 |
| | Pryniadau technegol | 2020/23 |
| | Gweithredol - byw ar ffrwd | 2022/23 |

| Risgiau | Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|---|
| | Oedi biwrocrataidd gyda'r Cynllun Twf | Dibynnol ar y Bwrdd Uchelgais |
| | Colli partneriaid sector cyhoeddus | Cynnal dialog parhaus gyda phartneriaid |
| | Nifer annigonol o weithwyr medrus iawn ar gael | Mae'r buddsoddiad ei hun yn ffactor lliniaru |

| Proffil Ariannol | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddus | 0 | 1.855 | 1.23 | 0.020 | 0.020 | 3.125 |
| Preifat | 0 | 0.688 | 0.459 | 0 | 0 | 1.147 |
| Cynllun Twf | 0 | 1.75 | 1 | 0.25 | 0 | 3 |
| CYFANSWM | **0** | **4.293** | **2.689** | **0.27** | **0.02** | **7.272** |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau | Ansicrwydd ynghylch arian y Cynllun Twf. Fel arall, mae'r prosiect yn barod i fynd gyda phob cymeradwyaeth fewnol, caniatadau cynllunio ac arian partneriaid yn eu lle a sgiliau arbenigol ar gael i gael mynediad i'r offer a'i ddefnyddio. |
| Dibyniaethau | Nid oes unrhyw ddibyniaethau sy'n faterol i lwyddiant y prosiect. Fodd bynnag, mae rhyng-ddibyniaethau pwysig gyda rhannau eraill o Gynllun Twf Gogledd Cymru sy'n cynnwys NCoE / ICE, y Strategaeth Ddigidol, Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd a'r Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar |

| Deilliannau | Mynediad gan Fusnesau | Nifer o fusnesau wedi'u cyd-leoli | Partneriaethau | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|
| | 45* | 10* | 20* | 160* |

***RHAGLEN TRAFNIDIAETH STRATEGOL***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen: | TRAFNIDIAETH STRATEGOL | | |
| Prosiect: | **Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol** | | |
| Prif Ariannwr: | Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol | | |
| Cyfanswm Cost: | £71 miliwn | Cynllun Twf: | £12.5 miliwn |
| Disgrifiad: | Bydd y prosiect yn cefnogi'r newid o gerbydau sy'n defnyddio tanwydd yn seiliedig ar garbon fel y prif fodd o drafnidiaeth i drafnidiaeth amgen carbon isel a dim carbon ledled y Gogledd. Bwriedir datblygu prosiectau a fydd yn arwain at y gallu i ddefnyddio cerbydau trydan a charbon isel ledled y rhanbarth. Bydd pwyntiau gwefru trydan a llwybrau carbon isel penodol yn cefnogi defnyddwyr sy'n dewis technolegau carbon isel ac yn cefnogi amgylchedd glanach.<br>Caiff tri phrosiect rhwydweithiau trafnidiaeth dim allyriadau carbon eu cyflawni yng Nglannau Dyfrdwy, Porthladd Caergybi a Pharc Cenedlaethol Eryri | | |
| Ymrwymiad y Sector Preifat a chyd-fuddsoddiad: | Mae SP Energy Networks wedi sicrhau £8.5 miliwn ar gyfer prosiect i gyflawni Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan.<br>Mae prosiect Eryri yn cefnogi gwell mynediad i dwristiaeth antur drwy'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy<br>Caiff y prosiect ei gyflawni ar y cyd â chyflwyniad Metro Gogledd Cymru wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru | | |

| Cerrig Milltir Allweddol | Gweithgaredd | Dyddiad (yn defnyddio'r flwyddyn galendr) |
|---|---|---|
| | Dichonoldeb i 3 prosiect arddangos | 2019 |
| | Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i'r Gogledd | 2019-21 |
| | Cyflawni prosiectau peilot | 2020-22 |
| | Gwerthuso a chynllun gweithredu llawn | 2022 |

| Risgiau | Disgrifiad | Lliniaru |
|---|---|---|
| | Capasiti sgiliau | Datblygu dull gweithredu tîm rhanbarthol |
| | Technoleg | Cynlluniau peilot yn seiliedig ar enghreifftiau sy'n dod i'r amlwg |

| Proffil Ariannol | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | CYFANSWM (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddus | 0 | 10 | 15 | 15 | 10 | 50 |
| | Preifat | 0 | 1 | 3 | 3 | 1.5 | 8.5 |
| | Cynllun Twf | 0 | 2 | 4 | 4 | 2.5 | 12.5 |
| | CYFANSWM | **0** | **13** | **22** | **22** | **14** | **71** |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau | Capasiti grid trydan<br>Gallai technoleg newydd arwain at ddewis yr opsiwn anghywir<br>Bydd angen ychwanegu costau gweithredu technolegau uwch newydd i waith Adolygiad Busnes LlC |
| Dibyniaethau | Cysylltiadau cryf i'r Prosiect Mynediad Blaengar i Ynni<br>Mynediad i dwristiaeth<br>Gwell hygyrchedd i safleoedd cyflogaeth mawr a Phorthladd Caergybi<br>Cysylltiadau â phrosiectau Rhwydwaith Hydrogen trawsffiniol |
| Deilliannau | Cyflawni'r prosiect, ar gyfer rhwydweithiau trafnidiaeth allyriadau carbon isel<br>Strategaeth gwerthuso a gweithredu ar ôl y prosiect<br>75 o swyddi mewn rhwydweithiau trafnidiaeth wedi'u cefnogi<br>Gostyngiad mewn allyriadau carbon |

## RHAN 9 - SYNERGEDDAU A RHYNG-DDIBYNIAETHAU

Mae nifer o ryng-ddibyniaethau rhwng nifer o brosiectau:

| | Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Prosiect Morlais | Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd | Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | Prosiect Porth Caergybi | Porth Gwybodaeth a Chyngor am Sgiliau | Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prosiect Morlais | ✓ | - | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | ✓ | ✓ | - | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | ✓ | | | - | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | ✓ | | ✓ | | - | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | - | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | ✓ | | ✓ | | | ✓ | - | ✓ | | | | | ✓ | | |
| Fferm Carbon Niwtral Llysfasi | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | - | | | | | ✓ | | |
| Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | ✓ | | | | | | | | - | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | ✓ | ✓ | | | | | | | | - | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Prosiect Porth Caergybi | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Porth Gwybodaeth a Chyngor am Sgiliau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | - | | | |
| Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | - | ✓ | ✓ |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | - | ✓ |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | - |

## RHAN 10 - GRYMUSO'R RHANBARTH

Drwy broses y Cynllun Twf, bydd y rhanbarth yn derbyn mwy o gapasiti a'r hyblygrwydd i wneud penderfyniadau allweddol ar y lefel ranbarthol.

Ers 2010, mae Cynlluniau Twf Dinasoedd a Chynlluniau Datganoli wedi symud grym, ynghyd ag arian, i ardaloedd lleol i'w galluogi nhw i wneud penderfyniadau strategol ynghylch blaenoriaethau lleol. Ar y cyd, mae'r cynlluniau pwrpasol hyn wedi galluogi i lefydd ddatblygu cynlluniau hir-dymor, cryfhau partneriaeth leol a chael mwy o rym i greu'r amodau cywir ar gyfer twf.

Bydd ar y rhanbarth angen grymoedd a chyfrifoldebau newydd ychwanegol i fod yn effeithiol wrth hwyluso twf economaidd a chyflawni ei strategaeth ei hun yn hyderus. Mae'r rhain yn ofynion ychwanegol y tu hwnt i broses y Cynllun Twf:

| **Pwerau Datganoledig** | **Gan Lywodraeth y DU / Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gefnogi ffurfio **Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol** ac ariannu'r gwaith o gyflawni rhwydwaith Trafnidiaeth integredig sydd wedi'i gynllunio'n dda. Bydd angen grymoedd ychwanegol i alluogi cynllunio rhwydweithiau Trafnidiaeth teithwyr integredig. | LlC |
| Bydd y rhanbarth yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ymdriniaeth ddatganoledig a chydlynol i ddatblygu'r economi ar y lefel ranbarthol - er mwyn cyd-leoli dulliau dylanwadu a chymorth allweddol i fusnesau o fewn y **Rhwydwaith Busnes Rhanbarthol**. Bydd y Rhwydwaith yn cyfuno adnoddau o ledled y rhanbarth a bydd yn darparu ymagwedd gyson i ddatblygu economaidd a busnes. | LlC |
| Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth y DU i gyd-gomisiynu a chyd-ddylunio **Rhaglenni Cyflogaeth** o fewn y rhanbarth i gyflawni gwasanaeth mwy integredig a chydlynol. Bydd hyn yn ddibynnol ar gael hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i integreiddio rhaglenni ariannu ar gyfer y rhanbarth i fod yn fwyaf effeithiol wrth dynnu pobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith. | Ll y DU |

Yn ogystal, bydd ar y rhanbarth angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflawni'r isod:

| **GOFYNION ALLWEDDOL** | **Llywodraeth** |
|---|---|
| Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth y DU i ymrwymo i sicrhau bod safle Trawsfynydd ar gael ar gyfer Adweithydd Modwlar Bach - y cyntaf o'i fath - a throsglwyddo safle Trawsfynydd dan delerau ffafriol i ddatblygwr Adweithydd Modwlar Bach addas. | Ll y DU |
| Byd y rhanbarth yn ceisio cefnogaeth ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gadw ein cyfran o NNDR o brosiectau'r Cynllun Twf. | LlC |
| Bydd ar y rhanbarth angen cefnogaeth gan Raglen Cynlluniau Sector Llywodraeth y DU i gefnogi cyflawni ein Gweledigaeth Twf. Byddwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd penodol a ddaw o Gynllun y Sector Awyrofod, Cynllun y Sector Niwclear a Rhaglen Cynllun y Sector Adeiladu. | Ll y DU |
| Bydd y rhanbarth yn ceisio Cynlluniau Ochr gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi'r Cynllun Twf, yn benodol yr Agenda Sgiliau. Gwahoddwn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu Gwasanaeth Broceriaeth i'r rhanbarth. | LlC |
| Llywodraeth Cymru i gytuno i ardal o fewn Rhanbarth y Gogledd i fod yn fabwysiadwr cynnar ar gyfer gweithredu Porth Cyngor Cyflogaeth Llywodraeth Cymru (Cyngor Gwaith Cymru bellach) a darparu adnoddau, arian a chefnogaeth arall fel sydd angen. | LlC |
| Mae'r rhanbarth yn gofyn i Lywodraeth Cymru sefydlu Cyd-fenter gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflawni cynlluniau datblygu tir ac eiddo sydd ar y gweill ledled y Gogledd. | LlC |
| Mae'r rhanbarth yn ceisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i raglen dreigl o Gynlluniau Twf i'r Gogledd. | Ll y DU a LlC |

# RHAN 11 - SGILIAU A CHYFLOGAETH

## *CYNLLUN OCHR A CHYNIGION GWEITHREDU*

Yn ogystal â'r Cynllun Twf, byddwn yn cynnig "cynllun ochr" gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth i'r Gogledd. Y prosiect allweddol o fewn y rhaglen yw'r prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor.

Mae cynllun busnes amlinellol wedi'i baratoi ar gyfer y prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor sy'n cynnwys pedwar gweithgaredd allweddol:

- Cynnydd mewn **ymgysylltu â chyflogwyr** yn y rhanbarth;
- Darparu **Gwasanaeth Broceriaeth** i'r rhanbarth;
- Bod yn rhan o ddatblygu **Cyngor Gwaith Cymru** Llywodraeth Cymru yn y rhanbarth;
- Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, datblygu defnydd o **Gynllun Bwrsariaeth Oedolion** yn y rhanbarth.

Yn ogystal, byddai'r "cynllun ochr" hefyd yn hyrwyddo, gwella a chydlynu'r ddarpariaeth STEM ar gyfer disgyblion rhwng 4 a 18 mlwydd oed, ac felly'n gwneud dysgwyr ifanc o ysgolion a cholegau yn fwy cyflogadwy i fusnesau yn y Gogledd.

Er mwyn cefnogi'r gweithrediad, fe wnaeth yr achos busnes amlinellol amlygu gofynion anariannol gan y Llywodraethau, a oedd yn cynnwys:

- Bod Llywodraeth Cymru yn cytuno i ardal o fewn Rhanbarth y Gogledd i fod yn fabwysiadwr cynnar ar gyfer gweithredu **Porth Cyngor Cyflogaeth Llywodraeth Cymru (Cyngor Gwaith Cymru bellach)** a darparu adnoddau, arian a chefnogaeth arall fel sydd angen;
- Bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio'n agos gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru, yn cynnwys sicrhau bod rhaglen genedlaethol Cymru'n Gweithio, gwaith Gyrfa Cymru a'r DWP yn cyd-fynd â'r dull gweithredu **Fframwaith Llwybr Cyflogadwyedd Rhanbarthol** yn y Gogledd, ac yn ei gefnogi;
- Bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu **Gwasanaeth Broceriaeth** i'r Gogledd.

Gan mai arian refeniw y ceisir amdano, sy'n disgyn y tu allan i ofynion cyfalaf uniongyrchol y Cynllun Twf, mae trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt negodi cynllun ochr i hwyluso gweithrediad.

Mae'r datganiad sefyllfa diweddaraf yng nghyswllt gweithredu a chost/ariannu bob un o'r pedwar gweithgaredd allweddol wedi'i fanylu isod:

### 1. CYNYDDU YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR YN Y RHANBARTH

Y nod yw cynyddu Ymgysylltu â Chyflogwyr yn y rhanbarth gyda'r bwriad o:

- Adnabod cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol;
- Gwella gwybodaeth ynghylch gofynion datblygu sgiliau, bwydo i mewn i ddatblygu'r cwricwlwm a dylanwadu ar addysg ôl-16;
- Symbylu a hyrwyddo cyfleoedd prentisiaethau a phrofiad gwaith;
- Gellir cyflawni hyn drwy gyfathrebu cydlynol a rhannu gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. Mae angen i elfen hon y prosiect gysylltu'n uniongyrchol gyda gwaith y Canolbwynt Twf Busnes.

**Datblygiadau diweddar a chynigion gweithredu newydd**

Mae ymgysylltu'n ddiduedd gyda chyflogwyr yng nghyswllt y materion sydd wedi'u hamlygu yn cael ei ymgorffori o fewn ystod datblygu'r prosiect Canolbwynt Twf Busnes, sy'n cael ei gyd-ddatblygu rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru.

Y gofynion yw swydd Cydlynydd Porth Rhanbarthol a fydd yn ddolen rhwng anghenion/galwadau'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a gweithgaredd cyflawni'r Canolbwynt Twf Busnes.

Mae angen arian fel rhan o Gynllun Ochr ar gyfer **Swydd Cydlynydd Porth Rhanbarthol** (argostau a chostau amrywiol) - £60k y flwyddyn (noder y bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob un o'r pedwar gweithgaredd allweddol).

**2. DARPARU GWASANAETH BROCERIAETH AR GYFER DATBLYGU SGILIAU A RECRIWTIO**

Y nod yw darparu Gwasanaeth Broceriaeth ar gyfer datblygu sgiliau a recriwtio ar gyfer prosiectau rhanbarthol mawr. Bydd y gweithgareddau broceriaeth yn cyfateb sgiliau a phrofiadau pobl gyda swyddi gwag gan weithredu fel pont i gefnogi cleientiaid di-waith i mewn i gyflogaeth gynaliadwy drwy weithio'n agos gyda'r cleientiaid a'r cyflogwyr.

Bydd yn adeiladu ar y bartneriaeth broceriaeth lwyddiannus ar gyfer Carchar Gogledd Cymru, yn rhannol drwy geisio dylanwadu ar adnoddau'r DWP sydd ar gael ar gyfer y gweithgaredd dros y pum mlynedd nesaf, fel y gallant weithredu fel y prif asiant drwy ddefnyddio Cyngor Gwaith Cymru Llywodraeth Cymru.

**Datblygiadau diweddar a chynigion gweithredu newydd**

Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu gyda chydweithwyr yn y DWP ynghylch y galw tebygol am wasanaethau broceriaeth yn y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf, gan ymgorffori prosiectau'r Cynllun Twf a sut y gellid eu hariannu oddi fewn i'r gwasanaeth.

Gan ddibynnu ar faint o alw a ragwelir, mae'n bosib y bydd sgôp i geisio buddsoddiad am 'borth electronig' i reoli'r gweithgareddau broceriaeth yn fwy effeithiol a darparu gwybodaeth gwerthuso ar gyfer y rhanbarth. Mae porth fel hyn yn bodoli ac yn cael ei defnyddio mewn mannau eraill, er enghraifft gan Build London. **Byddai'r dull hwn angen buddsoddiad ymlaen llaw a bydd costau o ran ffioedd trwyddedu, na fyddai'n cael eu hariannu gan y DWP - costau i'w cadarnhau.**

Mae gwaith i ddatblygu'r cynnig ar waith ar hyn o bryd a disgwylir iddo fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2019.

**3. DATBLYGU CYNGOR GWAITH CYMRU**

Y nod yw bod ar flaen y gad gyda datblygu Cyngor Gwaith Cymru Llywodraeth Cymru sy'n elfen gyflawni allweddol ar gyfer Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r *Porth Gwybodaeth a Chyngor* a'r *Llwybr Cyflogadwyedd* mae elfennau o Weledigaeth Twf Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar yr angen i sefydlu Grŵp Ymgynghorol Gogledd Cymru i hwyluso gweithio mewn partneriaeth.

Gyda lansio Cyngor Gwaith Cymru a Cymru'n Gweithio yn 2019, mae alinio darparwyr cefnogaeth a symleiddio prosesau cyfeirio yn hanfodol.

**Datblygiadau diweddar a chynigion gweithredu newydd**

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu a chyflwyno Cyngor Gwaith Cymru drwy sefydlu Grŵp Ymgynghorol Gogledd Cymru.

Drwy sefydlu Grŵp Ymgynghorol Gogledd Cymru, gall aelodau a enwebir o randdeiliaid allweddol weithio ar y cyd i ddatblygu a threialu "gweithio cydgysylltiedig" ledled y rhanbarth er mwyn alinio Cyngor Gwaith Cymru gyda darpariaeth cefnogaeth arall, osgoi dyblygu ac ychwanegu gwerth i'r cleient.

Er mwyn bodloni'r nodau hyn, mae'r amcanion a ganlyn wedi'u hadnabod ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol (erbyn 1 Mehefin 2019):

- Alinio adnoddau yn y rhanbarth gyda Cyngor Gwaith Cymru i osgoi dyblygu, ychwanegu gwerth a brocera cefnogaeth ar lawr gwlad yn lleol i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu bodloni.
- Cytuno ar ohebiaeth ar gyfer lansiad swyddogol Cyngor Gwaith Cymru (i'w gadarnhau).
- Edrych i mewn i ymestyn y model pum haen i bob oed, gan ddechrau gyda phobl ifanc 18-24 oed yn y lle cyntaf.
- Profi deilliannau asesiad canllawiau Cyngor Gwaith Cymru i wirio eu bod yn ddilys.
- Sefydlu a phrofi systemau cyfeirio i Cyngor Gwaith Cymru ac oddi wrtho.
- Edrych i mewn i boblogi a defnyddio Cyfarwyddiadur Darpariaeth Cyngor Gwaith Cymru i amlygu bylchau yn y ddarpariaeth yn lleol.
- Amlygu unrhyw brosesau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer rhannu data yn unol â GDPR.

Mae Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru yn ariannu Rheolwr Rhanddeiliaid llawn amser i gefnogi gweithrediad Cyngor Gwaith Cymru yn y Gogledd, gan weithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.

**4. CYD-DDATBLYGU'R DEFNYDD O GYNLLUN BWRSARIAETH OEDOLION**

Y nod oedd cyd-ddatblygu'r defnydd o Gynllun Bwrsariaeth Oedolion i'r Gogledd. Byddai'r fwrsariaeth yn helpu i roi hwb i fuddsoddiad yr unigolyn mewn dysgu, rhoi sylw i brinder sgiliau mewn sectorau allweddol a hyrwyddo datblygiadau gyrfaol i'r unigolion hynny.

**Datblygiadau diweddar a chynigion gweithredu newydd**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol, sydd â'r un ethos â'r Fwrsariaeth Oedolion.

Mae trafodaethau cynnar wedi'u cynnal rhwng Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru a thîm Rhaglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ynghylch sut all y Gogledd fod yn rhan o'r broses hon, a dylanwadu arni, yn cynnwys:

- sut i ddylanwadu ar y rhestr a bennwyd ymlaen llaw o sectorau, sgiliau a chymwysterau;
- sut i sicrhau peilot yn y Gogledd, wedi'i gynllunio o bosib ar gyfer mis Medi 2019.

Mae'n bwysig bod y sgyrsiau hyn yn parhau fel y gall y rhanbarth ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i gael dylanwad cadarnhaol ar y datblygiad i fodloni anghenion y rhanbarth.

Fel y nodir uchod, byddai'r "cynllun ochr" hefyd yn cynnwys gwella a chydlynu gweithgareddau STEM ledled y Gogledd. Byddai'r dull hwn yn:

- Sicrhau bod holl ddysgwyr y Gogledd yn elwa o wella STEM (gan gyflogwyr a chyrff eraill) sy'n cyfoethogi eu hastudiaethau ysgol ac mae hynny'n rhoi brwdfrydedd i ddysgwyr ifanc i ddilyn cyrsiau sy'n ymwneud â STEM ac o bosib gyrfaoedd;
- Ceisio achrediad "STEM Sicr" neu debyg ar gyfer y ddarpariaeth ledled y rhanbarth i sicrhau y gall cyflogwyr cyfredol ddenu'r nifer o ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r frwdfrydedd addas;
- Sicrhau bod y Gogledd yn sefyll allan, a'r tu hwn i ranbarthau eraill yn y DU pan fo cyflogwyr yn ystyried mewnfuddsoddiad ac yn chwilio am weithlu addas i'r dyfodol.

## RHAN 12 - LLYWODRAETHU

### *CYFLWYNIAD*

Mae’r partneriaid yn y rhanbarth wedi ymrwymo i sefydlu prosesau rheolaeth ariannol a gwneud penderfyniadau cadarn. **Mae'r rhain wedi'u crisialu mewn Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf a gymeradwywyd gan yr holl bartneriaid ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2018.**

### *CYTUNDEB LLYWODRAETHU (1 a 2)*

Mae Cytundeb Llywodraethu 1 wedi'i ddatblygu fel y fframwaith cyfreithiol i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor.

Mae'r model Llywodraethu wedi'i gyfyngu dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 ac nid yw'n ddelfrydol ar gyfer y ffordd y mae'r Bwrdd yn dymuno gweithredu. Er enghraifft, ni all y partneriaid nad ydynt yn awdurdodau lleol fod yn aelodau gyda phleidlais o Gyd-bwyllgor Gweithredol. Fodd bynnag, y model hwn yw'r un gorau sydd ar gael dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ac mae ymrwymiad llawn i ymgysylltu â phartneriaid allweddol a gweithio mewn modd cynhwysol. Adlewyrchir hyn yn nhrefniadau'r Bwrdd i geisio cyflawni consensws cyn pleidleisio ar unrhyw gynnig.

Yn gyffredinol, mae'r Cytundeb Llywodraethu yn sefydlu'r egwyddorion a ganlyn:

- Sefydlu Cyd-bwyllgor o chwe Awdurdod Lleol y Gogledd;
- Y meysydd sydd wedi'u dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor (sy'n canolbwyntio ar reoli'r Cynllun Twf);
- Sefydlu Cyngor Gwynedd fel y Corff Atebol;
- Egwyddorion ariannol ar gyfer y Cyd-bwyllgor;
- Y materion sydd wedi'u cadw i Gynghorau unigol;
- Rôl y partneriaid allweddol yn y rhanbarth y bydd ganddynt statws Arsyllwyr ar y Cyd-bwyllgor.

Fodd bynnag, bwriedir mai'r nod fyddai cyflawni consensws cyn i unrhyw gynnig gael ei symud i bleidlais.

Yn ogystal, mae'r Cytundeb Llywodraethu yn sefydlu y bydd y Cyd-bwyllgor yn sefydlu cyfres o Is-bwyllgorau i gefnogi ei waith. Caiff yr Is-bwyllgorau Trafnidiaeth a Digidol eu sefydlu fel blaenoriaeth.

Wrth gymeradwyo'r Cytundeb Llywodraethu, fe wnaeth bob un o'r chwe Awdurdod Lleol ddirprwyo cyfrifoldeb dros oruchwylio gweithrediad y Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor gyda "materion a gedwir yn ôl" sydd wedi'u hadnabod yn cael eu dwyn yn ôl i Bartneriaid unigol am gymeradwyaeth.

Gellid sefydlu panel craffu ar y cyd ar lefel ranbarthol i ddarparu atebolrwydd ychwanegol gyda chynrychiolaeth o bob Cyngor unigol.

Hefyd, byddai Pwyllgorau Craffu pob Cyngor unigol yn parhau'n ffynhonnell hanfodol o gyngor a her yn ymwneud â chyfranogiad pob Cyngor ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn symud ymlaen i Gytundeb Llywodraethu 2 a fydd yn rhoi mwy o fanylion ac yn ymgorffori'r Cytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Bydd yn datblygu'r model llywodraethu cyfredol i fodloni anghenion cam gweithredu'r prosiect.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gosod Cynllun Busnes Cytundeb Llywodraethu 2 pum mlynedd trosfwaol a fydd, ymhlith materion eraill, yn nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf.

Bwriedir i Gynllun Busnes Cytundeb Llywodraethu 2 gael ei ddiweddaru'n flynyddol.

Bydd Cynllun Busnes Cytundeb Llywodraethu 2, ymhlith materion eraill, yn ymdrin â'r isod:

- Costau a buddsoddiad cyffredinol gan bob Parti dros gyfnod y Cynllun Twf;
- Y fethodoleg ar gyfer cytuno ar natur, ystod a blaenoriaeth y prosiectau i'w datblygu er budd cyffredinol Rhanbarth y Gogledd (yn unol â thelerau'r Cynllun Gweithredu);
- Y fethodoleg a'r cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw archwiliadau allanol yng nghyswllt y Cytundeb hwn;
- Methodoleg a chyfrifoldeb unrhyw fonitro perfformiad ynghyd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad i alluogi i'r Cyd-bwyllgor fesur cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes Cytundeb Llywodraethu 2; ac
- Unrhyw adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf i'w paratoi ar gyfer y Cyd-bwyllgor ac amlder adroddiadau o'r fath.

## *RÔL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU*

Fe wnaeth y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf ffurfioli trefniadau cyfansoddiadol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Roedd y cytundeb hwn yn diffinio pwrpas y Bwrdd fel a ganlyn:

- Cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio'n wreiddiol ar y Cynllun Twf;
- Rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi'r uchod, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;
- Uno partneriaid o amgylch diben cyffredin i gefnogi cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf;
- Rhoi cyfeiriad i unrhyw Is-bwyllgorau y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu penodi yn cynnwys comisiynu tasgau neu brosiectau penodol;
- Cynnig prosiectau y gellid ymgymryd â hwy fel rhan o'r Cynllun Twf;
- Trafod prosiectau o'r fath i asesu p'un a oes cyfiawnhad am ddiwydrwydd dyladwy pellach a chyrraedd cytundeb ar y costau y dylid mynd iddynt wrth ymgymryd â gwaith arfarnu pellach;
- Cytuno ar Gynllun Gweithredu profforma a fydd yn gosod y broses ar gyfer cytuno a blaenoriaethu prosiectau a gaiff eu cymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun Twf;
- Paratoi Cynllun Busnes drafft yn unol â Chymal 7 (Cynllun Busnes);

- Goruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau paratoadol y Cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf;
- Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â nodau ac amcanion y Weledigaeth Twf;
- Ymgymryd â'r swyddogaethau allweddol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor) yn y Cytundeb Llywodraethu.

## *RÔL Y GRŴP CYFLAWNI BUSNES*

Bydd y Grŵp Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth.

Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

Bydd y Grŵp yn mynegi anghenion busnesau yn y Gogledd, yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion.

Mae'r Grŵp yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

Mae'r Grŵp wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.

Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth.

Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.

Bydd y Grŵp yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.

Bydd Cadeirydd y Grŵp yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

Caiff cyfansoddiad a rôl y Grŵp o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gydberthynas gyda'r Cyd-bwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2.

## *RÔL Y CORFF ATEBOL*

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ddiffinio yn y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf fel y Corff Atebol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y penderfyniadau ariannu a wneir gan y Bwrdd yn gyfreithlon ac yn briodol.

Fel y Corff Atebol, caiff trefniadau ariannol cyffredinol eu rheoli a'u cyfrifo drwy ei systemau ariannol ac maent yn ddarostyngedig i Orchmynion Sefydlog a Systemau Llywodraethu'r corff hwnnw.

Caiff arian a glustnodir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf ei dalu i'r Corff Atebol.

Bydd rôl y Corff Atebol yn golygu:

- Gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhopeth a wna gyda'r cynghorau eraill a bydd yn gwneud ymdrech resymol i gyflawni rhwymedigaethau'r cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf drwy ac yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- Gweithredu fel y prif ryngwyneb (ar ei ran ei hun ac ar ran y cynghorau eraill) gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop ac unrhyw gorff arall sy'n angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau'r cynghorau yng nghyswllt y Cynllun Twf; a
- Gweithredu fel y Corff Atebol i ddal unrhyw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop, y cynghorau a/neu unrhyw ffynonellau eraill yng nghyswllt y Cynllun Twf a bydd ond yn defnyddio ac yn rhyddhau'r arian hwn fel y cytunir yn unol â thelerau arian o'r fath a'r Cytundeb hwn;
- Cydymffurfio â'r amodau ariannu sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Llywodraethu 1 ac unrhyw Gytundeb Llywodraethu dilynol;
- Lletya'r Swyddfa Rhaglen a chyflogi staff y Swyddfa Rhaglen.

Caiff adnoddau i dalu am gostau rôl y Corff Atebol eu clustnodi ymhlith partneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, fel y nodir ar wahân yn y gyllideb flynyddol.

Byddai'r cyfraniad yn ychwanegol i unrhyw gyfraniadau cyfalaf a chost benthyca.

Wrth dderbyn rôl y Corff Atebol, caiff Gorchmynion Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael, Rheoliadau Gweithdrefnau Ariannol a phob Polisi a Gweithdrefn arall sydd gan Gyngor Gwynedd eu mabwysiadu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## *RÔL Y GRŴP SWYDDOGION GWEITHREDOL*

Mae Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi'i sefydlu dan Gytundeb Llywodraethu 1 er mwyn cydlynu datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf, yn cynnwys y Cynllun Twf.

Bydd yn rhoi cefnogaeth a chyngor i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac yn gweithredu ei benderfyniadau.

Ni fydd ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau, ond bydd yn cynnig argymhellion i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bydd pob partner yn penodi un cynrychiolydd o blith uwch swyddogion i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol. Gwahoddir Swyddogion y Llywodraeth ar ei ddisgresiwn. Caiff ei arwain gan Gyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn cyfarfod cyn cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd yn gyfrifol am:

- Baratoi argymhellion i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar raglen gyffredinol y Cynllun Twf a phrosiectau unigol;
- Rhoi cyngor a chefnogaeth i'r Cyfarwyddwr Rhaglen i alluogi iddo/iddi ymgymryd â swyddogaethau'r swydd yn llwyddiannus;
- Goruchwylio perfformiad a chyflawniad prosiectau'r Cynllun Twf, gan adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir sydd wedi'u cytuno;
- Goruchwylio cynhyrchu achosion busnes a sicrhau y caiff yr holl brosiectau eu datblygu yn unol â'r pecyn y cytunwyd arno;
- Cydlynu'r rhaglen waith a chynghori ar gyfeiriad strategol yr Is-bwyllgorau a'r Byrddau Prosiect thematig i yrru cyflawniad;
- Darparu cefnogaeth i'r Grŵp Cyflawni Busnes;
- Sicrhau y caiff Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf a'r fframwaith monitro a gwerthuso eu diweddaru yn unol ag anghenion gweithredu ac yn flynyddol o leiaf;
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chydlynu gwasanaeth datblygu'r economi, trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir strategol, sgiliau a chefnogi busnes cydgysylltiedig yn y rhanbarth;

Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn grymuso'r Byrddau Prosiect (a gaiff eu sefydlu i gydlynu datblygu a chyflawni prosiectau unigol a ariennir drwy'r Cynllun Twf) er mwyn gwneud cynnydd a chyflawni deilliannau. Bydd y Byrddau Prosiect yn adnabod risgiau ac unrhyw gamau adfer angenrheidiol.

***RÔL Y SWYDDFA RHAGLEN***

Er mwyn bwrw ymlaen â datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf, caiff Swyddfa Rhaglen ei sefydlu.

Mae'r Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am gefnogi gweithgareddau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd hefyd yn gyfrifol am fwrw ymlaen ag elfennau allweddol o'r Cynllun Twf.

Fel partneriaid yn y rhanbarth, rydym yn ymrwymedig i weithio ar y cyd ac ar draws sectorau i roi arweiniad a llwyddo i gyflawni'r Weledigaeth Twf.

Hefyd, rydym wedi ymrwymo i fodel Swyddfa Rhaglen sy'n hyblyg ac yn ystwyth yn ei dyluniad a'i gweithrediadau, a all esblygu dros amser, wrth i'r dirwedd polisi ac ariannol newid ledled y rhanbarth dros y blynyddoedd nesaf.

Pwrpas y Swyddfa Rhaglen fydd rhoi cefnogaeth weithredol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a holl rannau'r strwythur llywodraethu - er mwyn cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

Bydd yn darparu cyngor proffesiynol ar strategaeth a pholisi ar gyfer holl swyddogaethau'r Bwrdd, a'i strwythurau - e.e. economi, trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir strategol, sgiliau a chyflogaeth.

Yn ogystal, bydd yn cefnogi'r Bwrdd i gydlynu a goruchwylio integreiddio gwasanaethau i gyflawni dull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar draws swyddogaethau strategol allweddol.  Gwneir hyn ar draws y sectorau.

Bydd yn cefnogi'r Bwrdd i gynllunio, cydlynu a chyflawni pecyn o raglenni strategol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf.

Caiff ei arwain gan Gyfarwyddwr Rhaglen, a fydd yn atebol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac a fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau manwl a ganlyn:

- Darparu adroddiadau perfformiad chwarterol ar brosiectau'r Cynllun Twf i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Gweithio i'r cyfeiriad strategol fel y gosodir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Datblygu, cynnal a monitro system rheoli perfformiad a fframwaith gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn weithredol ar y lefel gorfforaethol a'r lefel prosiect hefyd;
- Sicrhau yr ymgymerir â "diwydrwydd dyladwy" ar bob un o brosiectau'r Cynllun Twf;
- Bod yn gyfrifol am reoli a chydlynu Rhaglen y Cynllun Twf, adolygiadau porth a'r Cynlluniau Busnes blynyddol, yn cynnwys rheoli'r rhaglen gyflawni o safbwynt perfformiad ac ariannol;
- Darparu cefnogaeth weithredol i'r endidau newydd a grëir fel rhan o weithredu'r Cynllun Twf, yn cynnwys y Byrddau Prosiect;
- Darparu ymchwil a dadansoddiad ar effaith a gwireddu'r buddion ehangach, ynghyd â thueddiadau'r farchnad;
- Cydlynu ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid yng nghyswllt cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

Yn ogystal, bydd yn cydlynu'r Grŵp Swyddogion Gweithredol - sef y weithrediaeth broffesiynol ar gyfer y Bwrdd Twf. Bydd hyn yn cynnwys Swyddogion Arweiniol o bartneriaid amrywiol. Bydd y Grŵp yn goruchwylio cydlynu a gweithio'n gydgysylltiedig, a bydd yn adolygu ac yn diweddaru Cofrestr Risg y Rhaglen.

Byddwn yn gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol sydd o fewn y rhanbarth, er mwyn gweithio ar y cyd ar agenda rhanbarthol cyffredin ac i gyflawni Gweledigaeth Twf a Chynllun Twf Gogledd Cymru.

Bydd rhaid i'r Swyddfa Rhaglen gael ei strwythuro a'i siapio gan ystyried trefniadau llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd rhaid iddi gael ei datblygu a bydd rhaid iddi esblygu yn raddol dros amser. Bydd rhaid i'r ffocws fod ar gyfuno adnoddau presennol a darparu dull gweithredu sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau, gan gryfhau gwytnwch a chynaliadwyedd. Prif nod y swyddfa fydd rhoi cefnogaeth i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chyflawni'r Cynllun Twf.

## *IS-BWYLLGORAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU*

Mae gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y grym i sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer unrhyw fater y teimla y byddai'n well ymdrin â nhw yn y ffordd hon.

Gall yr is-bwyllgorau hyn fod yn rhai ymgynghorol a byddant yn adrodd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gydag argymhellion, neu gellir rhoi pwerau dirprwyedig iddynt, gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a fydd yn rhoi lefel ddiffiniedig o bwerau gwneud penderfyniadau iddynt.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru anelu i sefydlu **Is-bwyllgor Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru** i gydlynu'r gwaith cynllunio a buddsoddi mewn trafnidiaeth ranbarthol,

mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am yr isod:

- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth a rhwydwaith trafnidiaeth strategol integredig a chydgysylltiedig yn y Gogledd;
- Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau bod amcanion buddsoddi mewn trafnidiaeth yn cyd-fynd â'i gilydd;
- Diffinio'r blaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth a chyflwyno achosion busnes i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn targedu arian;
- Cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau trafnidiaeth strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gryfhau'r **Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol**. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys sefydliadau busnes, cyflogwyr, addysg uwch ac addysg bellach ac awdurdodau lleol. Mae'r Bartneriaeth yn rhoi arweinyddiaeth strategol ac yn hysbysu system sgiliau ranbarthol gynaliadwy, sy'n cael ei harwain gan alw, sy'n cyflawni blaenoriaethau economaidd. Mae'n adrodd i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae ganddi'r rôl a ganlyn:


- Cefnogi Cynllun "Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes" Llywodraeth Cymru, drwy annog aliniad gwell rhwng anghenion sgiliau cyflogwyr yn y dyfodol a darpariaeth addysg ledled y rhanbarth;
- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth integredig a chydgysylltiedig yn y rhanbarth;
- Adnabod ac ymateb i anghenion sgiliau cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, a sicrhau bod gweithgareddau yn cyd-fynd â galwadau'r dyfodol;
- Ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i adnabod anghenion sgiliau cyfredol ac i'r dyfodol a chynllunio yn unol â hynny;
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Bartneriaeth yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru.

Yn ogystal, byddwn yn ceisio magu cysylltiadau cryfach gyda fforymau rhanbarthol presennol, megis y Fforwm Twristiaeth.

Caiff cyfres o **Fyrddau Prosiect** ei sefydlu i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf. Byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl bartneriaid perthnasol, a byddant yn adrodd i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yng nghyswllt cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol, ynghyd â pherfformiad, deilliannau a risgiau.

Bydd yr holl Fyrddau Prosiect yn weithredol yn 2019-20, gyda chefnogaeth gan y Swyddfa Rhaglen.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fydd y Bwrdd Rhaglen cyffredinol ar gyfer datblygu a chyflawni'r Cynllun Twf, wedi'i arwain a'i gefnogi gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Grŵp Cyflawni Busnes.


Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Arwain ar y Strategaeth Ranbarthol a'r Cynllun Twf, gwneud penderfyniadau strategol arnynt a bod ag atebolrwydd amdanynt
Grŵp Cyflawni Busnes
Grŵp cyfeirio ymgynghorol wedi'i ffurfio o ffigyrau pwysig (drwy wahhoddiad) o'r sectorau twf a sylfaen i (1) awgrymu cysyniadau a chynigion (2) darparu cyngor a thystiolaeth arbenigol i hysbysu'r penderfyniadau a wneir a (3) dal y Bwrdd i gyfrif ar gyflawni
Tud. 115
Is-bwyllgorau ac Is-grwpiau Thematig
Cyfeiriad a gweithrediad Rhaglenni a Phrosiectau - a gomisiynir gan y Bwrdd
Sefydliadau Partner
Aelodau Bwrdd / Ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol, Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen
Y tîm proffesiynol craidd a'r rhwydwaith o ymgynghorwyr partner sy'n rhoi cyngor proffesiynol, cefnogaeth ar lywodraethu, gwasanaethau proffesiynol a chapasiti rheoli rhaglen a phrosiect (wedi'u lletya gan yr Awdurdod Lletya)
Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
Corff cynrychioladol o'r sector busnes ar gyfer y rhanbarth ac ar draws y ffin
Allwedd
Glas – Gwneud Penderfyniadau
Piws – Ymgynghorol

## RHAN 13 - COFRESTR RISG

Mae hi’n hanfodol bod yr holl risgiau, p'un a ydynt yn risgiau ar lefel Rhaglen neu Brosiect, yn cael eu hadnabod, eu gwerthuso a'u rheoli mewn modd tryloyw, cyson a systematig.

Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen - drwy'r Swyddfa Rhaglen - yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu Cofrestr Risg Rhaglen lefel uchel, a fydd yn canolbwyntio ar risgiau strategol ar gyfer y cam cynllunio a datblygu.

Gwneir dadansoddiad risg manwl ar gyfer yr holl brosiectau gan Ariannwr y Prosiect fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Broses Model Busnes 5 Achos, gyda Chofrestr Risg yn benodol i brosiectau yn cael ei sefydlu i gynorthwyo gyda rheoli a lliniaru parhaus yr holl risgiau yn ystod y cyfnod o weithredu'r prosiectau.

Yn ogystal, bydd y Swyddfa Rhaglen yn cydlynu'r gwaith o grynhoi Cofrestr Risg Prosiectau'r Cynllun Twf yn erbyn Cynllun Rhaglen y Cynllun Twf.

Bydd y Cofrestrau Risg yn nodi'n glir y risgiau sydd wedi'u hadnabod, eu statws a'r strategaethau lliniaru. Bydd y Gofrestr Risg yn ymdrin â meysydd megis llywodraethu, cyllid, Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid a'r Prosiectau sydd wedi'u Comisiynu.

Caiff y Cofrestrau Risg eu hadolygu yn rheolaidd gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol. Adroddir crynodeb o'r risgiau mwyaf arwyddocaol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## RHAN 14 - CYNLLUNIO A MONITRO RHAGLEN Y CYNLLUN TWF

### *MONITRO RHAGLENNI*

Caiff Cynllun Rhaglen manwl ei ddatblygu ar gyfer y Cynllun Twf yn unol â'r Cynllun Gweithredu. Caiff hwn ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Swyddfa Rhaglen ac Arianwyr y Prosiectau.

Bydd gan y Cyfarwyddwr Rhaglen gyfrifoldeb dydd i ddydd am reoli prosesau monitro a gwerthuso'r prosiectau.

Caiff gwybodaeth monitro a gwerthuso ei chyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol gan y Cyfarwyddwr Rhaglen. Bydd hyn ar ffurf cyfres o wybodaeth monitro benodol a gyflwynir ar sail ôl-weithredol.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn asesu'n barhaus y wybodaeth monitro a gwerthuso a gesglir ac yn ei defnyddio i hysbysu'r Weledigaeth Twf a chynigion buddsoddi yn y dyfodol er mwyn adnabod cyfleoedd i gyflawni deilliannau ac effeithiau gwell.

Defnyddir dashfwrdd ar draws y Strwythur Llywodraethu er mwyn monitro cynnydd ar draws holl agweddau'r Cynllun Twf. Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn neilltuo graddfa RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) i raglenni a phrosiectau, gan weithredu ar gyngor gan y Byrddau Prosiect.

Mae'r tabl hwn yn dangos y canllawiau y bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn eu defnyddio wrth bennu statws RAG, a'r camau gweithredu sydd eu hangen:

| Statws RAG | Statws Prosiectau / Rhaglenni | Camau Angenrheidiol |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol | Dim angen camau rheoli |
| **Ambr** | Efallai bod risg na fydd y prosiect yn cyrraedd yr amserlen os na rhoddir sylw i unrhyw faterion | Camau rheoli yn eu lle gan y Swyddfa Rhaglen a/neu uwch reolwyr i fynd i'r afael â materion |
| **Coch** | Mae risg bod y prosiect yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd | Camau brys eu hangen gan yr uwch reolwyr a'r Byrddau perthnasol fel sy'n briodol i fynd i'r afael â materion |

Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn ystyried y Dashfwrdd RAG ac yn cynghori'r Cyfarwyddwr Rhaglen ynghylch pa bryderon ddylai gael eu dyrchafu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bydd Arianwyr Prosiectau yn gyfrifol am gasglu a chyflwyno eu data monitro i'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn unol â chyfres o amserlenni sydd wedi'u cytuno ymlaen llaw, ar sail chwarterol fel rheol. Bydd hyn yn galluogi i'r Cyfarwyddwr Rhaglen ddadansoddi a choladu data i'w gyflwyno i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Unwaith y bydd y cynnydd perthnasol wedi'i ystyried gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, byddant yn cael eu hadrodd i'r ddwy Lywodraeth - eto, ar sail chwarterol.

Er mwyn asesu sut mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd â'r Weledigaeth Twf a'r deilliannau strategol i'r rhanbarth, bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar holl weithgaredd y Cynllun Twf. Caiff templed yr Adroddiad Blynyddol ei gytuno gyda'r Llywodraeth.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r ddwy Lywodraeth a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn flynyddol.

Yn ogystal, darperir adroddiadau monitro a gwerthuso i'r Corff Atebol.

Er mwyn gweithredu eu cyfrifoldebau yn effeithiol yng nghyswllt rheoli rhaglen y Cynllun Twf, bydd y Corff Atebol yn monitro gwybodaeth ar amlder a benderfynir ymlaen llaw i gefnogi hawliadau am arian gan brosiectau unigol. Pennir hyn yn ystod y gwaith o ddatblygu Cytundebau/Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth y Gronfa Twf yn ffurfiol ar gyfer prosiectau unigol.

Bydd hyn yn sicrhau bod y Corff Atebol yn fodlon bod arian yn cael ei ryddhau'n briodol yn unol â threfniadau'r contractau. Hefyd, bydd yn darparu mecanwaith i'r Corff Atebol olrhain cyflawniadau gweithgareddau, gwariant, cerrig milltir, allbynnau a deilliannau'r prosiectau fel y cytunwyd arnynt.

Bydd yr holl adrodd ar lefel rhaglen yng nghyswllt y Cynllun Twf a'i brosiectau cysylltiedig yn dilyn proses glir fel y nodir yn y model a ganlyn:

***PROSES MONITRO PERFFORMIAD AR GYFER PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF***

**BYRDDAU PROSIECT**

*Cyflwyno adroddiad perfformiad chwarterol i'r Swyddfa Rhaglen*

**CYFARWYDDWR RHAGLEN**

*Adolygu perfformiad yn erbyn y cerrig milltir y cytunwyd arnynt ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf a chyflwyno adroddiad cyfun yn ymdrin â'r holl brosiectau i'w ystyried gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol*
*Bydd y Swyddfa Rhaglen yn adrodd am gynnydd ar yr holl weithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu â busnesau*

**Y GRŴP SWYDDOGION GWEITHREDOL**

*Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir sydd wedi'u cytuno, a chanolbwyntio ar gyflawni a risgiau ariannol. Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn darparu cyngor ar unrhyw gamau adfer angenrheidiol.*

**GRŴP CYFLAWNI BUSNES**

*Bydd y Grŵp Cyflawni Busnes yn adolygu cynnydd y prosiect yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pan fo angen unrhyw gamau adfer. Bydd y Grŵp Cyflawni Busnes hefyd yn adolygu ymgysylltiad â busnesau a datblygiadau gyda'r gadwyn gyflenwi ac yn cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gynnydd a/neu unrhyw gamau angenrheidiol*

*Bydd penderfyniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei fwydo'n ôl i'r Grŵp Cyflawni Busnes, y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r arweinydd cyflawni drwy'r Swyddfa Rhaglen*

*Bydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Grŵp Cyflawni Busnes yn cyflwyno argymhellion i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Swyddfa Rhaglen*

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

*Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn adolygu prosiectau yn erbyn yr holl gerrig milltir y cytunwyd arnynt gan ystyried unrhyw sylwadau neu argymhellion a wnaed gan y Grŵp Cyflawni Busnes*

*Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno ar gamau lliniaru ac amserlen hanfodol*

*Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cymeradwyo adroddiad cynnydd cyn ei gyflwyno i'r Llywodraethau. Caiff unrhyw gamau adfer eu bwydo'n ôl i'r ariannwr, y Grŵp Cyflawni Busnes a'r Grŵp Swyddogion Gweithredol*

**LLYWODRAETH Y DU A LLYWODRAETH CYMRU**

*Derbyn adroddiad perfformiad chwarterol drwy'r Swyddfa Rhaglen*

## RHAN 15 - PROSES ASESU'R ACHOSION BUSNES

Bydd gan yr holl brosiectau gynllun busnes amlinellol credadwy a chadarn yn ei le, a fydd yn cynnwys proffil a chyllideb ariannol fanwl.

Nod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw bod yr holl brosiectau yn cael eu cyflawni o fewn pum mlynedd er mwyn uchafu a gwireddu buddion llawn y cynlluniau a ariennir drwy'r Cynllun Twf.

Unwaith y cytunir ar Benawdau'r Telerau, bydd holl achosion busnes y Cynllun Twf yn cael eu datblygu'n fanylach gan ddefnyddio Model Pum Achos Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM - dull gweithredu y gellir ei ymestyn ond sydd hefyd yn gymesur.

Bydd rhaid i bob cynllun busnes sy'n cefnogi prosiectau'r Cynllun Twf roi tystiolaeth am yr isod:

- **Achos Strategol** - cefnogir yr ymyrraeth gan achos cryf dros newid sy'n cyd-fynd â rhannau eraill o'r sefydliad a'r sector cyhoeddus;
- **Achos Economaidd** - mae'r bwriad yn cynrychioli gwerth cyhoeddus gorau;
- **Achos Masnachol** - mae'r Cynllun arfaethedig yn ddeniadol i'r farchnad, mae posib ei gaffael a bydd yn gweithio'n fasnachol;
- **Achos Ariannol** - mae'r gwariant arfaethedig yn fforddiadwy;
- **Achos Rheoli** - mae'r hyn sydd ei angen ar gyfer pob parti yn gyraeddadwy.

Bydd y Bwrdd Rhaglen perthnasol a'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Busnes Model Pum Achos.

Defnyddir proses Adolygu Porth er mwyn rheoli cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf drwy'r gweithrediad a'r cyflawniad. Bydd gan bob Cynllun Prosiect ar gyfer prosiectau'r Cynllun Twf amserlen glir ar gyfer eu Hadolygiadau Porth.

## RHAN 16 - CYNLLUN YMGYSYLLTU

Mae ymgysylltu cadarn wedi bod yn thema allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Weledigaeth Twf a'r Achosion Busnes Amlinellol.

Bydd pob prosiect yn ymgysylltu'n llawn gyda rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Model Busnes Pum Achos. Bydd hon yn broses barhaus, yn dilyn yr arfer dda o'r sesiynau datblygwyr sector preifat wrth ddatblygu'r Achosion Busnes Amlinellol.

Bydd adnodd pwrpasol o fewn y Swyddfa Rhaglen i gydlynu'r ymgysylltiad ar draws y prosiectau gan ddefnyddio adnoddau'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol.

Caiff y Cynllun Ymgysylltu ei danategu gan Gynllun Cyfathrebu a gaiff ei ddatblygu gan y Swyddfa Rhaglen. Bydd hwn yn adeiladu ar y gweithgareddau ar y Cyfryngau Cymdeithasol a'r wefan gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Caiff ymgysylltiad gwleidyddol ei gynllunio a'i gydlynu drwy aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad rheolaidd gyda'r ACau a'r ASau ynghyd ag Aelodau etholedig ledled y rhanbarth.

## RHAN 17 - RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cymeradwywyd rhaglen waith gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 1 Chwefror 2019. Caiff y Rhaglen Waith ei throsi'n gynllun prosiect manwl gan y Swyddfa Rhaglen, gan osod tasgau clir, atebolrwydd ac amserlenni.

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | - Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft) | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft. | Ch1 2019 | Y Grŵp Swyddogion Gweithredol |
| | - Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | Ch1 2019 | Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru |
| **Penawdau'r Telerau** | - Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | - Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC<br><br>Bydd angen ystyried hyn fel mater a allai olygu cael penderfyniad y Cynghorau unigol ar yr adeg briodol. |
| | - Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LlC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i gyflawni'r Weledigaeth Twf). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / LlC |
| **Llywodraethu** | - Ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol. | Ch1 2019 | Corff Atebol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Grŵp Cyflawni Busnes (bwrdd ymgynghorol y sector preifat). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafnidiaeth a'r is-bwyllgor digidol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytundeb ar Drefniadau Craffu. | Ch2/Ch3 2019 | Trefniadau craffu'r Cynghorau a'r Cyd-bwyllgor |
| | - Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer y Grŵp Cyflawni Busnes. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Cyllid** | - Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb tair blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor<br><br>Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon |
| | - Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu. | Ch2 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| | - Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol. | Parhaus | Swyddogion Adran 151 a Swyddogion Monitro / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor |
| **Swyddfa Rhaglen** | - Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | - Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar ddyluniad a strwythur y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | - Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| | - Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | - Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | - Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cyflwyno'r prosiect LFFN. | Ch2 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor |
| | - Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf. | Ch2/Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Cyfreithiol a Chaffael** | - Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian. | Ch2 2019 | Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro |
| | - Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2/Ch3 2019 | Materion a gedwir i'r Partïon |
| | - Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol |
| **Monitro a Gwerthuso** | - Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar Gynllun Monitro a Gwerthuso. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | - Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| | - Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor |
| **Swyddogaeth Ranbarthol Strategol** | - Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach. | Parhaus | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC |
| | - Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol |
| **Rheoli Cyflawni** | - Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu. | Parhaus | Arianwyr y Prosiectau |

## RHAN 18 - CYLLIDEB 2019-20

Mae cyllideb yn ei lle ar gyfer blwyddyn drosiannol 2019-20:

| Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd - 2019/2020 | | |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | **(£)** |
| | | |
| **Swyddfa Rheoli Rhaglen** | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | | 246,480 |
| Teithio a Chynhaliaeth | | 10,000 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | | 11,620 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | | 45,000 |
| Ffi Archwilio Perfformiad | | 12,500 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | 10,000 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | | 43,480 |
| Eiddo | | 5,000 |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau | | 319,800 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen** | | **703,880** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | | 105,710 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | | 16,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | | 29,400 |
| Technoleg Gwybodaeth | | 2,760 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | **153,870** |
| **Cyd-bwyllgor** | | |
| Cytundeb Llywodraethu 2 - Cyfreithiol | | 20,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | | 12,500 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | | **32,500** |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **890,250** |

| Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd - 2019/2020 | |
|---|---|
| **Incwm** | **(£)** |
| | |
| **Cyfraniadau Ariannu** | |
| | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Cytundeb Llywodraethu 1** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (50,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (50,000) |
| Cyngor Gwynedd | (50,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) |
| Prifysgol Bangor | (25,000) |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (25,000) |
| Coleg Cambria | (25,000) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (25,000) |
| | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Eraill** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) |
| | |
| Cyfalafu Costau'r Prosiectau | (250,250) |
| Sector Preifat (yn y dyfodol) | 0 |
| | |
| **Cyfanswm Incwm** | **(890,250)** |
| | |
| **Cyllideb Net** | **0** |

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2019 |
| Teitl: | **Effaith Digwyddiadau yng Ngwynedd** |
| Awdur: | Roland Evans<br>Uwch Reolwr Diwylliant a Chymuned<br>Adran Economi a Chymuned |
| Aelod: | Cynghorydd Ioan Thomas<br>Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi |

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er mwyn dangos effaith y digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor ar Wynedd.

## 2 CEFNDIR

2.1 Yn dilyn mabwysiadu 'Cynllun Gwynedd 2018-2023' gan y Cyngor Llawn ar yr 8$^{fed}$ o Fawrth 2018, mae cael y deilliannau gorau ar gyfer cymunedau a busnesau o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Ngwynedd wedi ei gynnwys o fewn y flaenoriaeth 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'.

2.2 Yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 15 Ionawr 2019, dyranwyd £50,000 o adnoddau o gronfa trawsffurfio'r Cyngor i gefnogi digwyddiadau yn ystod 2019.

2.3 Er mai cyfraniadau cymharol fychan sy'n cael eu cynnig i drefnwyr digwyddiadau trwy'r gronfa hon, mae'r dylanwad a'r effeithiau yn sgîl buddsoddiad y Cyngor yn sicrhau:

- creu cyfleon i fusnesau lleol fanteisio ar gytundebau a chyflenwi gwasanaeth
- cyfleon i gymunedau a phobl ifanc Gwynedd gyfrannu at lwyddiant
- lle canolog i iaith, diwylliant a naws am le Gwynedd
- perthynas gydweithredol dda gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru sy'n disgwyl gweld cyfraniad arian cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y digwyddiadau - cyn cadarnhau eu cefnogaeth.
- codi proffil Gwynedd fel lle byrlymus a lle da i fyw, i fentro ac ymweld.
- cynyddu nifer, gwariant ac arhosiad ymwelwyr trwy'r flwyddyn.

## 3 CYFLWYNIAD A DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD 2018-19

3.1 Trwy gyflogi Rheolwr Digwyddiadau yn yr Adran Economi a Chymuned mae'r Cyngor yn sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer trefnwyr digwyddiadau o fewn y Sir ac yn hyrwyddo'r ddelwedd o 'un Cyngor' wrth ddelio gyda digwyddiadau.

3.2 Nid oes cyllideb i gefnogi trefnwyr digwyddiadau y tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei ddyrannu i'r maes trwy Gynlluniau y Cyngor 2014-2017 a 2018.

3.3 Fe weler isod prif allbynnau'r digwyddiadau a gefnogwyd yn ystod 2018-19. Mae gwybodaeth mwy manwl am y digwyddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad A.

3.4 Cyfrifir yr allbynnau gan ddefnyddio model cyfrifo sy'n cael ei argymell gan Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru.

3.5 Gellir gweld o'r isod bod y prosiect wedi cwrdd a churo ei uchelgais o greu budd economaidd i Wynedd o £5m gyda budd economaidd gwerth £5.7m yn cael ei amcangyfrif o ddigwyddiadau 2018-19.

3.6 Gwelir bod buddsoddiad arian cyfatebol o £51,750 Cyngor Gwynedd wedi arwain at ddenu £217,000 o arian Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau nodweddiadol a chynnal digwyddiadau gyda chyfanswm cyllideb o dros £4.6m.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Cyllidebau'r Digwyddiadau | £4,658,808.39 |
| Gwariant cyllidebau yng Ngwynedd | £ 896,062.65 |
| Nifer Digwyddiadau a Gefnogwyd | 25 |
| Nifer a gymerodd rhan | 10,195 |
| Nifer a fynychodd | 70,585 |
| Nifer o ddyddiau digwyddiadau | 55 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o Wynedd | 565 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | 1,580 |
| Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle | 1,870 |
| Nifer o bobl ifanc a gafodd gyfle | 2,776 |
| Budd Economaidd i Wynedd | £5,771,763.00 |
| Effaith GVA | £2,809,859.00 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn economi'r Sir | 123 |
| Cyfraniad ariannol Gwynedd | £51,750 |
| Arian wedi' ddenu trwy Llywodraeth Cymru | £217,500 |

O ran gwerth am arian, dylid amlygu bod pob **£1** mae Cyngor Gwynedd wedi ei fuddsoddi yn nigwyddiadau 2018, mae economi'r Sir wedi elwa o **£111.53**

**UCHAFBWYNTIAU ERAILL 2018-19**

- Hyfforddi deg person yn y Sir trwy gwrs CSAS (Cynllun Achrededig Diogelwch Cymunedol) Heddlu Gogledd Cymru i roi hawl iddynt stopio a rheoli traffic yn gyfreithiol mewn digwyddiadau
- Llwyddiant Bwrlwm Bermo (digwyddiad nofio a rhedeg awyr agored) yn denu 1,000 o bobl i gymryd rhan yn y digwyddiad allan o dymor ym Mis Hydref
- Cychwyn Ras Feicio y Tour of Britain yn Nolgellau yn cael ei ddarlledu ar ITV 4
- Gŵyl Rhif 6 yn buddsoddi £435,000 yn uniongyrchol yn economi Gwynedd
- Red Bull yn cael eu cymhell ac yn cytuno i ddefnyddio Plas Tan y Bwlch fel llety ar gyfer Red Bull Hardline
- Cyfarfod cadarnhaol wedi' gynnal rhwng Grŵp Strategol Digwyddiadau Gwynedd ac uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru
- Rheolwr digwyddiadau wedi gweithio hefo neu gynghori dros 30 o gwmnïau neu gymunedau parthed materion yn ymwneud â digwyddiadau.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS FUDDSODDIAD CYNGOR GWYNEDD**

4.1 Ar gyfer cyfnod nesaf Cynllun Gwynedd, bwriedir dysgu o brofiadau cynlluniau'r gorffennol a newid y modd y mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda threfnwyr digwyddiadau.

4.2 Ni fydd y Cyngor yn rhoi 'grant' i drefnwyr digwyddiadau, ond yn hytrach yn

cydweithio gyda hwy trwy fuddsoddi yn eu digwyddiad er mwyn cael y deilliannau gorau i'r Sir.

4.3 Mae trefn asesu ffurfiol ar gyfer adnabod y digwyddiadau i'w cefnogi wedi ei sefydlu sy'n canolbwyntio ar yr allbynnau disgwyliedig a'r buddion mwyaf ffafriol i bobl Gwynedd. Trwy gynnig termau ac amodau safonol wrth fuddsoddi, mae'r Adran yn credu bod modd:

i. Darparu cymorth ariannol ac ymarferol i ddenu a chadw digwyddiadau o fudd economaidd yn y sir a'u hannog i weithio gyda chyflenwyr lleol a hyrwyddo Gwynedd;
ii. Datblygu cadwyn gyflenwi lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i ddigwyddiadau yng Ngwynedd a thu hwnt;
iii. Hyrwyddo'r sir i ymwelwyr a buddsoddwyr drwy law digwyddiadau;

4.4 Trwy weithredu'r uchod, bwriedir creu busnes newydd i fentrau cynhenid Gwynedd a denu mwy o ymwelwyr a buddsoddwyr i Wynedd.

4.5 Os na fyddai gan y Cyngor gyllideb ar gyfer buddsoddi mewn digwyddiadau, ni fyddai modd i'r Cyngor gydweithio mor effeithlon gyda threfnwyr na dylanwadu cystal er mwyn cynyddu'r buddion i'r Sir. Gallai hyn arwain at:

4.5.1 Y risg o golli digwyddiadau o Wynedd yn gyfangwbwl neu eu gweld yn ail leoli i ardaloedd eraill o Gymru a thu hwnt;
4.5.2 Colli'r buddion economaidd i fusnesau a chymunedau Gwynedd;
4.5.3 Colli'r cyfle i godi proffil a delwedd y sir ymysg pobl Gwynedd ac ymwelwyr;
4.5.4 Colli'r cyfle i ddylanwadu ar ddefnydd o iaith a diwylliant Gwynedd mewn digwyddiadau a chynnig profiadau gwerthfawr i bobl ifanc y Sir;
4.5.5 Methu cydweithio'n effeithiol efo Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i ddenu a chefnogi digwyddiadau mawr yn y Sir gan na fyddai modd iddynt gefnogi digwyddiadau yn y Sir heb arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.
4.5.6 Methu cyfle i ddylanwadau ar a hybu ansawdd, Cymreictod, naws am le a chyfleon i gwmnïau a chymunedau lleol mewn digwyddiadau

**5. CYFLEON 2019-2020**

Mae nifer o gyfleon eisoes yn cael eu trafod ar gyfer digwyddiadau 2019 a chyhoeddwyd hysbyseb yn ddiweddar ar wefan y Cyngor er mwyn i drefnwyr digwyddiadau ddatgan diddordeb mewn cydweithio gyda ni. Yn dilyn broses sgorio gyda'r Aelod Cabinet, y Pennaeth Adran a'r Grŵp Prosiect, cytunwyd y byddai'r Cyngor yn buddsoddi trwy gefnogi'r digwyddiadau canlynol yn ystod 2019:

| | **Enw'r Digwyddiad** | **Amcan cyfraniad Gwynedd** |
|---|---|---|
| 1 | Cymru 360 | £6,000.00 |
| 2 | Coron Deirplyg Abersoch | £4,000.00 |
| 3 | Anelu at y Copa – Marathon Llanc y Llechi | £4,000.00 |
| 4 | Red Bull – Hardline, Dinas Mawddwy | £4,000.00 |
| 5 | Bash Mawr y Bala | £4,000.00 |
| 6 | Syrcas a Gwyl Ieuenctid Bangor | £4,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Ras y Wyddfa & Chwpan Rhedeg Mynydd y Byd | £4,000.00 |
| 8 | Wythnos Cychod Dingi a Chwch Gefn Abersoch a Chwpan Caeredin | £2,000.00 |
| 9 | Rasio'r Tren, Tywyn | £2,000.00 |
| 10 | Bwrlwm Bermo | £2,000.00 |
| 11 | Roc Zip World, Chwarel y Penrhyn, Bethesda | £2,000.00 |
| 12 | Gŵyl Fwyd Caernarfon | £2,000.00 |
| 13 | Ras Cychod y Tri Copa, Abermaw + | £2,000.00 |
| 14 | Y Wledd Symudol (Bangor, Porthmadog + Chriccieth) | £2,000.00 |
| 15 | Ras Cychod Pŵer Abersoch | £2,000.00 |
| 16 | Sesiwn Fawr Dolgellau | £1,000.00 |

## 6 CAMAU NESAF

6.1 Yn dilyn argymhellion y Grŵp Prosiect, bydd yr Adran yn awr yn sefydlu trefniadau partneriaethu gyda'r trefnwyr digwyddiadau uchod er mwyn sicrhau'r buddion gorau i bobl Gwynedd. Bydd adroddiad ar berfformiad y digwyddiadau hyn yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd 2019.

**ATODIAD A**
**Allbynnau real y digwyddiadau a gefnogwyd**
**2018-19**

| | Enw'r Digwyddiad | Nifer a gymerodd rhan | Nifer a fynychodd | Nifer o ddyddiau | Nifer o gwmniau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | Nifer o gwniau a gyflogwyd o Wynedd | Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle yn y digwyddiad | Nifer o bobl ifanc yn elwa | Adroddiad budd Economaidd i Wynedd | Effaith GVA | Swyddi a gefnogwyd | Cyfraniad Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **MAWR** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Triathlon Harlech | 381 | 1,143 | 1 | 10 | 12 | 86 | 26 | £112,917.00 | £50,813.00 | 2 | £1,250.00 |
| 2 | Llanc y Llechi | 1,267 | 3,801 | 2 | 10 | 12 | 86 | 27 | £472.363.00 | £212,563.00 | 9 | £1,250.00 |
| 3 | Tour of Britain (M) | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | £10,000.00 |
| 4 | Bash Mawr y Bala | 721 | 3,000 | 2 | 5 | 19 | 86 | 223 | £329,309.00 | £148,189.00 | 7 | £5,000.00 |
| 5 | Trail Marathon | 2,121 | 6,363 | 1 | 10 | 12 | 87 | 26 | £620,972.00 | £279,438.00 | 12 | £1,250.00 |
| 6 | Gwyl Rhif 6 | 2,,883 | 11,115 | 4 | 1,250 | 50 | 215 | 0 | £2,352,095.00 | £1,058,443.00 | 47 | £5,000.00 |
| 7 | Red Bull - Hardline | 29 | 3,000 | 1 | 19 | 15 | 60 | 29 | £385,000.00 | £173,250.00 | 8 | £5,000.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **STRATEGOL** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Gwyl Fwyd Caernarfon | 350 | 20,000 | 1 | 22 | 88 | 120 | 200 | £90,760.00 | £40,842.00 | 2 | £2,000.00 |
| 2 | Gwledd Symudol Llanberis | 60 | 1,000 | 1 | 20 | 30 | 50 | 120 | £15,728.00 | £7,078.00 | 0 | £500.00 |
| 3 | Gwledd Symudol Bangor | 80 | 1,200 | 1 | 30 | 50 | 70 | 150 | £13,060.00 | £5,877.00 | 0 | £500.00 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Ras Cychod y Tri Copa | 80 | 620 | 7 | 12 | 10 | 29 | 0 | £31,162.00 | £14,023.00 | 1 | £2,000.00 |
| 5 | Gwledd Symudol Criccieth | 80 | 2,300 | 1 | 40 | 40 | 60 | 240 | £38,846.00 | £17,481.00 | 1 | £500.00 |
| 6 | Roc Gwlad Zip | 200 | 1,800 | 1 | 0 | 20 | 50 | 50 | £101,800.00 | £45,810.00 | 2 | £2,000.00 |
| 7 | Supernova Weekend | 114 | 236 | 3 | 0 | 4 | 37 | 2 | £58,100.00 | £26,145.00 | 1 | £2,000.00 |
| 8 | Gwledd Symudol Porthmadog | 40 | 1,900 | 1 | 40 | 20 | 60 | 660 | £46,658.00 | £20,996.00 | 1 | £500.00 |
| 9 | Ras y Wyddfa | 900 | 4,000 | 1 | 25 | 15 | 150 | 200 | £183,928.00 | £82,768.00 | 4 | £2,000.00 |
| 10 | Wythnos Dingi Abersoch | 225 | 500 | 7 | 5 | 30 | 40 | 90 | £180,600.00 | £81,270.00 | 4 | £1,000.00 |
| 11 | Paraffest | 226 | 907 | 2 | 15 | 10 | 30 | 0 | £120,304.00 | £54,137.00 | 2 | £2,000.00 |
| 12 | Rasio'r Tren | 2,000 | 5,000 | 1 | 15 | 25 | 400 | 350 | £463,019.00 | £208,359.00 | 9 | £2,000.00 |
| 13 | Wythnos cwch gefn Abersoch | 230 | 650 | 7 | 5 | 30 | 25 | 120 | £169,700.00 | £76,365.00 | 3 | £1,000.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **LLAI** | | | | | | | | | | | |
| 1 | Cystadleuaeth Tonfyrddio agored Cymru | 28 | 100 | 2 | 0 | 2 | 3 | 13 | £7,312.00 | £3,290.00 | 0 | £1,000.00 |
| 2 | Gwyl Car gwyllt | 100 | 550 | 1 | 0 | 7 | 40 | 150 | £7,064.00 | £3,179.00 | 0 | £1,000.00 |
| **3** | Sesiwn Fawr Dolgellau | 140 | 1,200 | 3 | 5 | 35 | 26 | 90 | £69,024 | £31,061.00 | 1 | £1,000.00 |
| 4 | Bwrlwm Bermo | 673 | 1,200 | 1 | 42 | 9 | 45 | 0 | £315,645.00 | £142,040.00 | 6 | £1,000.00 |
| 5 | Gwyl y Môr Ladron Caernarfon | 150 | 8,000 | 2 | 0 | 20 | 15 | 10 | £58,760.00 | £26,442.00 | 1 | £1,000.00 |
| | | **10,195** | **79,585** | **55** | **1,580** | **565** | **1,870** | **2,776** | **£5,771,763.00** | **£2,809,859.00** | **123** | **£51,750.00** |